# Cymraeg

Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3







**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Cymraeg

## Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus. |
| **Trosolwg** | Mae'r deunyddiau hyn yn darparu negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu mewn Cymraeg. Maen nhw'n cynnwys proffiliau o waith dysgwyr er mwyn egluro'r safonau a amlinellir yn y disgrifiadau lefel ac yn dangos sut i ddefnyddio disgrifiadau lefel wrth lunio barn sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. |
| **Camau i'w cymryd** | Adolygu'r cynlluniau a'r gweithgareddau dysgu a pharatoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Yr Is-adran Cwricwlwm<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru; Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru; Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig; Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) |

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/GM/0027
ISBN: 978 0 7504 4855 0

A-EAC-02-01-qA694369/1/ND
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2008
WG30202

# Cynnwys


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad** | | | | **2** |
| **Defnyddio'r deunyddiau hyn** | | | | **4** |
| **Adran 1** | | | | |
| Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu'r Gymraeg | | | | 7 |
| **Adran 2** | | | | |
| Disgwyliadau a dilyniant yn y Gymraeg | | | | 15 |
| **Adran 3** | | | | |
| Llunio barn ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 | | | | 19 |
| **Cyfnod Allweddol 2** | | | | |
| | Kyle | Llafaredd | Lefel 2 | 22 |
| | | Darllen | Lefel 2 | |
| | | Ysgrifennu | Lefel 2 | |
| | Leigh | Llafaredd | Lefel 4 | 32 |
| | | Darllen | Lefel 4 | |
| | | Ysgrifennu | Lefel 4 | |
| | Lisa | Llafaredd | Lefel 6 | 46 |
| | | Darllen | Lefel 5 | |
| | | Ysgrifennu | Lefel 5 | |
| **Cyfnod Allweddol 3** | | | | |
| | Luke | Llafaredd | Lefel 5 | 60 |
| | Gwilym | Llafaredd | Lefel 6 | 63 |
| | Taran | Llafaredd | Lefel 7 | 66 |
| | Helen | Darllen | Lefel 5 | 68 |
| | | Ysgrifennu | Lefel 5 | |
| | Jac | Darllen | Lefel 6 | 86 |
| | | Ysgrifennu | Lefel 6 | |
| | James | Darllen | Lefel 7 | 101 |
| | | Ysgrifennu | Lefel 7 | |
| **Cydnabyddiaethau** | | | | **116** |

# Cyflwyniad

Mae'r rhaglenni astudio yn nodi'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, ac maen nhw'n darparu'r sail sy'n eich galluogi chi, fel athrawon, i gynllunio gwaith dysgu ac addysgu. Mae'r rhaglenni astudio wedi eu rhannu'n ddwy adran, sef Sgiliau ac Ystod. Mae'r adran Sgiliau yn rhestru'r sgiliau y dylid eu datblygu mewn pwnc, ac mae'r adran Ystod yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny.

Mae asesu ffurfiannol parhaus – asesu **ar gyfer** dysgu – yn hanfodol i addysgu da. Drwy'r asesiadau y byddwch yn eu gwneud wrth addysgu, byddwch yn casglu gwybodaeth helaeth am gryfderau eich dysgwyr, a'r meysydd mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw fel eu bod, gyda'ch cymorth chi, yn medru datblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth wneud hynny, bydd modd iddyn nhw weld ble maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod targedau a gweithio tuag atyn nhw, a darganfod pryd neu os llwyddwyd i'w cyrraedd. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith dysgwr, fel y nodir mewn adborth ffurfiannol, ac maen nhw felly'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid yw disgrifiadau lefel yn dargedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws ehangder y rhaglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Drwy nodi disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc, gall disgrifiadau lefel helpu i lywio eich gwaith cynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd tystiolaeth o waith asesu ar gyfer dysgu yn dangos ble mae angen mwy o amser i atgyfnerthu'r dysgu ac yn dangos pryd bydd dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Efallai y byddwch am gadw rhywfaint o dystiolaeth fel y gallwch drafod gwaith a dilyniant dysgwr gyda nhw a/neu gydweithwyr neu rieni/warcheidwaid. Er hynny, nid yw cadw cofnodion sy'n ddiangen o gymhleth neu gadw tystiolaeth fanwl am bob dysgwr yn ofyniad statudol.

Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw eich helpu i lunio barn grynodol a chytbwys am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Nid yw disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio i'w defnyddio i bennu lefel ar gyfer darnau unigol o waith nac i gynhyrchu data bob hanner tymor neu bob tymor. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod allweddol y byddwch wedi casglu digon o wybodaeth am berfformiad dysgwr ar draws ystod o waith, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'ch galluogi i lunio barn mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel.

Hwyrach y bydd rhai dysgwyr wedi cyrraedd lefel uwch mewn rhai agweddau ar y gwaith nag agweddau eraill, ac na fydd un disgrifiad lefel ar ei ben ei hun yn cyd-fynd yn union â'u perfformiad. Mae hynny i'w ddisgwyl, ac mae'r ystod o waith dysgwyr unigol sydd wedi ei gynnwys yn y deunyddiau hyn yn dangos sut i lunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr dan amgylchiadau o'r fath. I lawer o ysgolion/adrannau, mae datblygu eu proffiliau dysgwyr eu hunain wedi bod o gymorth i safoni barn ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r proffiliau hynny hefyd yn helpu i gynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau pan maen nhw'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddaru pan fo angen.

Pan fydd barn yn cael ei llunio ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, dylech benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n **cyd-fynd orau** â pherfformiad dysgwr. Y nod yw cael barn gytbwys:

- sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth am y modd mae'r dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu ym mherfformiad y dysgwr dan sylw
- a gaiff ei chymharu â disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel y tybir ei bod fwyaf priodol yw'r lefel sy'n cyd-fynd orau'n gyffredinol â pherfformiad y dysgwr yn y targed cyrhaeddiad.

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u hysgrifennu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1. Deilliannau anstatudol yw'r rhain, a bwriedir darparu arweiniad ar gyfer eu defnyddio.

# Defnyddio'r deunyddiau hyn

Mae'r deunyddiau yn cynnwys y llyfryn hwn a DVD. Mae'r DVD yn dangos dysgwyr Blynyddoedd 6 a 9 yn gweithio ar elfennau llafaredd ac ymateb llafar i ddarllen y rhaglenni astudio. Mae'r sylwebaethau yn y llyfryn.

Mae'r llyfryn hwn wedi ei rannu'n dair adran.

| | |
|---|---|
| Adran 1 | sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu'r Gymraeg. |
| Adran 2 | sy'n tynnu sylw at ddisgwyliadau a dilyniant yn y Gymraeg. |
| Adran 3 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd angen cyfeirio at y DVD yn ogystal â'r llyfryn. |

Gallwch gyfeirio at y llyfryn hwn a'r DVD pan fyddwch am:

- adolygu eich cynlluniau a'ch gweithgareddau dysgu
- ystyried y safonau a amlinellir yn y Gorchymyn Cymraeg diwygiedig
- cydweithio ag athrawon eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r disgrifiadau lefel
- paratoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- datblygu eich proffiliau dysgwr eich hun
- cynorthwyo'r gwaith pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 ceir proffiliau o'r un dysgwyr mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ceir proffiliau o ddysgwyr yn gweithio mewn Llafaredd a Darllen (ymateb llafar) a dysgwyr gwahanol yn gweithio mewn Darllen (ymateb ysgrifenedig) ac Ysgrifennu.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi'u cynnwys ar daflen gyda'r llyfryn hwn fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

Mae CD-ROM wedi ei ddarparu gyda'r llyfryn hwn hefyd. Mae'n cynnwys fersiwn PDF o *Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* a'r canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i roi'r cwricwlwm diwygiedig a'i drefniadau asesu cysylltiedig ar waith. Mae'r gyfres yn cynnwys:

- *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* – canllawiau cyffredinol ar roi'r cwricwlwm newydd ar waith
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – sy'n cynnwys arweiniad ynghylch dilyniant mewn sgiliau
- *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol*
- canllawiau penodol ar gyfer pob un o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a'r byd gwaith, ac addysg grefyddol.

# *Adran* 1

## Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu'r Gymraeg

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eich helpu chi i gynllunio ar gyfer addysgu'r rhaglenni astudio diwygiedig fel eu bod yn berthnasol ac yn ysgogol i bob dysgwr, hynny yw, canolbwyntio ar y dysgwr. Dylech chi gynllunio i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau trwy amrywiaeth eang o gyd-destunau a nodir o dan y pennawd Ystod. Dylech chi ddefnyddio'r Sgiliau a'r Ystod fel fframwaith hyblyg i ddewis cyd-destunau ac i ddatblygu gweithgareddau, a fydd yn berthnasol ac yn ysgogol i'ch dysgwyr.

Mae rhyddid gan ysgolion i drefnu a chyflwyno'r cwricwlwm mewn dull sy'n gweddu i'w hamgylchiadau a'u gofynion. Does dim cyfyngiadau amser, ac mae Cymraeg yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu a mireinio sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

## Datblygu ffocws ar Sgiliau

Dylai eich cynllun gwaith sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu'r tri sgìl iaith, sef Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu fel maen nhw wedi'u nodi yn y rhaglenni astudio ar gyfer Cymraeg. Dylai cynnydd mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu fod yn brofiad perthnasol a realistig, a thrwyddo dylai dysgwyr allu datblygu sgiliau iaith o'r crud i'r bedd.

**Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol ar gyfer arwain eich gwaith cynllunio ac i ddatblygu ffocws ar sgiliau:**

- Oes parhad a dilyniant ar gyfer sgiliau wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith?
- Ydy'r wers hon yn cynnig digon o gyfle i ddatblygu'r sgìl/sgiliau iaith y bwriedir ei/eu targedu? Ydy'r sgiliau'n cael sylw cytbwys? Oes cyfleoedd i integreiddio'r holl sgiliau iaith?
- Beth yw pwrpas y gweithgaredd hwn? Ydy'r gweithgaredd hwn yn cyflwyno sgìl newydd, yn atgyfnerthu sgìl neu'n cymhwyso ac yn ymestyn sgìl?
- Ydy'r ymagwedd yn caniatáu i'r dysgwyr adeiladu ar yr iaith a'r sgiliau sydd ganddyn nhw eisoes?
- Ydy'r ymagwedd yn hybu datblygu meddwl, yn caniatáu i'r dysgwyr feddwl drostyn nhw eu hunain, gan sicrhau eu bod yn deall yr hyn y maen nhw'n ei wneud ac yn ystyried sut mae'r iaith yn gweithio?

## Gweithredu'r Ystod

Dylai'r cyd-destunau a ddewisir ar gyfer eich cynllun gwaith gynnwys y rhai sydd wedi'u rhestru o dan y pennawd Ystod yn y rhaglenni astudio. Mae'r adran hon wedi'i chynllunio er mwyn sicrhau cydbwysedd ac ehangder i'r dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol. Wrth baratoi eich cynllun gwaith, dylech ganolbwyntio ar y dysgwr ac wrth ddethol y gwahanol gyd-destunau dylech ofyn 'Pa mor berthnasol yw'r cyd-destun hwn ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol hon?'. Mae'r Ystod wedi'i chynllunio i gynnig hyblygrwydd i chi ddewis topigau ac ymagweddau a fydd yn berthnasol, yn ysgogol ac yn ddiddorol i'ch dysgwyr. Felly, mae'n bosib i chi ymdrin â'r ystod mewn amrywiaeth o ffyrdd.

**Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r ystod:**

- Oes cyfleoedd priodol i ymdrin â'r ystod lawn o Lafaredd, Darllen ac Ysgrifennu ar bob lefel?
- Oes cyd-destunau sydd heb eu cynnwys?
- Ydy'r ymagwedd a'r dulliau cyflwyno yn annog y dysgwyr i drosglwyddo iaith, gwybodaeth a sgiliau o'r naill gyd-destun i'r llall?

## Yr amgylchedd dysgu

Bydd dysgwyr yn dysgu orau mewn awyrgylch sy'n cynnig cefnogaeth ac anogaeth. Fyddan nhw ddim yn dysgu os ydyn nhw'n ansicr neu'n ofni mentro a gwneud camgymeriadau. Maen nhw'n arbrofi â sgiliau a syniadau newydd, yn myfyrio ac yn cofio orau mewn awyrgylch cefnogol lle maen nhw'n teimlo'n hyderus bod eu syniadau a'u barn yn cael eu gwerthfawrogi a lle maen nhw'n cael eu hannog i fentro yn eu gwaith meddwl.

Mae tystiolaeth bod dysgwyr yn deall y gwaith ac yn gwneud gwell cynnydd wrth ymgymryd â rôl weithredol yn y dysgu yn hytrach nag un oddefol. Mae angen i'r dysgu fod yn gyffrous, yn heriol ac yn greadigol. Mae dysgwyr yn llwyddo'n well pan fyddan nhw'n deall beth y mae angen iddyn nhw ei wneud i wella a sut i wneud hyn.

**Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno'r sgiliau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau:**

- Oes cyfle i'r dysgwyr weithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn unigol, mewn grwpiau bach ac fel dosbarth cyfan, a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu?
- Ydy'r ymagwedd yn cynnwys pob dysgwr, gan ganiatáu ar gyfer anghenion y dysgwyr unigol? Oes cyfleoedd priodol ar gyfer gwahaniaethu?
- Fydd y gwersi'n ysgogi ac yn cadw sylw yr holl ddysgwyr? Oes digon o her i bob dysgwr?
- Ydy'r ymagwedd yn briodol i'r 21ain ganrif?
- Ydw i, fel athro/athrawes wedi rhoi cynnig ar rywbeth newydd yn y cynllun gwaith hwn?
- Oes cyfleoedd ar gyfer tasgau heriol, creadigol a chyffrous?
- Ydy'r dysgwyr yn cael eu cynnwys ym mhob cam o'r broses ddysgu?
- Ydy'r dysgwyr yn cael cyfleoedd priodol i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu gan gynnwys deunyddiau gweledol a TGCh?
- Ydy'r ymagwedd yn gwella hyder y dysgwyr?
- Ydy'r awyrgylch yn gefnogol?
- Ydy'r dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella, a sut i wneud hynny?
- Ydy'r ymagwedd yn caniatáu i'r dysgwyr bwyso a mesur eu gwaith nhw eu hunain a gwaith eraill a chytuno ar dargedau at y dyfodol?

Er mwyn cynllunio dysgu ac addysgu effeithiol, mae angen i gydweithwyr drafod ar draws y cyfnodau ac ar draws pynciau.

**Mae enghreifftiau o arferion da sy'n sicrhau dilyniant mewn gwybodaeth a sgiliau iaith ac sy'n osgoi ailadrodd a dyblygu diangen ar gael eisoes mewn rhai clystyrau. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- **pecyn o weithgareddau ar thema benodol a ddatblygwyd gan y clwstwr o ysgolion.** Bydd y dysgwyr yn dechrau'r gwaith yn ystod eu tymor olaf ym Mlwyddyn 6 ac yn gorffen y gwaith yn eu hysgol newydd ar ddechrau Blwyddyn 7
- **athrawon pontio'r ysgol uwchradd yn rhoi gwersi Cymraeg wythnosol i ddysgwyr Blwyddyn 6 yn ystod tymor yr haf.** Bydd yr athrawon uwchradd yn cydweithio gydag athrawon yr ysgolion cynradd a fydd yn parhau i roi gwersi Cymraeg gweddill yr wythnos. Mae'r trefniant hwn yn gyfle i'r athrawon a'r dysgwyr ddod i adnabod ei gilydd cyn i'r dysgwyr drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

## Cymraeg a sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 i 19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar sgiliau maen nhw wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd; ac o'r dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

### Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy brosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn Cymraeg, bydd y dysgwyr yn archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac yn ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill. Byddan nhw'n dadansoddi, yn strwythuro ac yn trefnu eu gwaith; yn defnyddio iaith yn greadigol; yn defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu; yn defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi; yn disgrifio cysylltiadau a'r hyn sy'n debyg mewn ieithoedd; yn adnabod patrymau ac yn ffurfio rheolau; yn trafod sut byddan nhw'n dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Ym mhroffil Lisa (CA2) fe'i gwelir yn cynllunio, ac yna'n actio mewn dramodig. Mae'n arwain y grŵp drwy awgrymu posibiliadau, ystyried y camau angenrheidiol, ac wrth actio mae'n ymateb i eraill gan bwyso a mesur ei rôl fel mam-gu. Yn ei hymateb i'r Navaho, mae Helen (CA3) yn mynegi barn ar y gerdd drwy ddadansoddi'r wybodaeth y mae wedi'i chywain ac adnabod cysylltiadau rhwng syniadau.

### Datblygu cyfathrebu



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn Cymraeg, bydd y dysgwyr yn cyfathrebu trwy llafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn drwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill. Wrth wneud hyn, byddan nhw'n dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd. Byddan nhw'n ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus. Bydd eu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg yn cefnogi ac yn hybu datblygiad sgiliau mewn ieithoedd eraill.

Mae Cymraeg yn datblygu sgiliau cyfathrebu dysgwyr, ar lafar, wrth ddarllen ac yn ysgrifenedig.

Mae Leigh (CA2) yn defnyddio sgiliau cyfathrebu ehangach drwy gynrychioli syniadau drwy ddrama. Mae'n flaengar yn rôl y bwli, ac yn ymateb yn ddeallus i adwaith ei phartner. Felly hefyd y gwna Gwilym (CA3) wrth iddo gyfathrebu syniadau aelod o'r cyngor, datblygu'r syniadau hynny yn greadigol a dangos emosiwn a hiwmor a fyddai, yn ei farn ef, yn nodweddiadol o'r cymeriad.

### Datblygu TGCh



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn Cymraeg, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh trwy gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, a thrwy ddefnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Mae Kyle (CA2) a Luke (CA3) yn gwneud defnydd o PowerPoint wrth gyflwyno gwybodaeth i weddill y dosbarth. Er mwyn casglu'r wybodaeth mae'r ddau wedi defnyddio'r we ac wedi cyfuno gwybodaeth o wahanol ffynonellau gan gynnwys testun, lluniau a delweddau.

### Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol**, **cyfrifo**, **a dehongli a chyflwyno casgliadau.**

Mewn Cymraeg, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif trwy weithgareddau sy'n cynnwys rhigymau rhif, defnyddio trefnolion a rhifolion, gosod digwyddiadau mewn trefn amser, defnyddio mesur, cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys holiaduron, cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

## Cymraeg a dysgu ar draws y cwricwlwm

Mae Cwricwlwm 2008 yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu polisïau a themâu trawsgwricwlaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis y Cwricwlwm Cymreig, addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a'r byd gwaith, sy'n cynnwys cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd a datblygiad cynaliadwy.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

### Y Cwricwlwm Cymreig

Bydd Cymraeg yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy roi cyfle unigryw i ddysgwyr i ddysgu iaith Cymru a dod yn ddwyieithog. Byddan nhw'n ymateb i ysgogiadau ac yn defnyddio'r Gymraeg fel dull naturiol o gyfathrebu.

Mae'r berthynas rhwng Cymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig yn amlwg, ac mae'r berthynas honno yn ymestyn y tu hwnt i'r iaith ac i'r testunau a astudir a'r gweithgareddau yr ymwneir â nhw.

Mae Leigh (CA2) yn datblygu ei gwybodaeth o chwedlau'r Mabinogi drwy astudio Branwen a Blodeuwedd er enghraifft, ac mae Taran (CA3) a James (CA3) yn trafod a dadansoddi lluniau o Dryweryn ac Aberfan, sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o hanes a diwylliant diweddar Cymru.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Bydd Cymraeg yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol y dysgwyr trwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth o rôl a gwahanol gyfraniadau ieithoedd lleiafrifol ac ieithoedd byd-eang mewn cymdeithas. Drwy ddatblygu eu gwerthfawrogiad o ddau ddiwylliant byddan nhw'n dod i ddeall diwylliannau eraill yn well a thyfu'n oddefol ohonyn nhw. Byddan nhw'n cydweithio ac yn parchu rôl pobl eraill. Drwy ymchwilio a gwerthuso testunau yn ymwneud ag ystod o themâu gellid annog datblygiad hunan-wybodaeth, aeddfedrwydd emosiynol ac empathi â'r cyflwr dynol.

Mae nifer o enghreifftiau ar y DVD o ddysgwyr yn cydweithio'n agos a'i gilydd, gan ddatblygu perthynas effeithiol ac adeiladol.

Mae Kyle (CA2) yn sôn am y ffrind sydd ganddo yn yr Eidal, ac am yr hyn mae wedi'i ddysgu am ardal arbennig o'r wlad honno drwy gysylltu â'r ffrind hwnnw. Mae James (CA3) yn ei waith ar Thomas Lloyd a Tyddyn y Gaseg yn dod i ddeall teimladau allfudwyr i wlad estron drwy gyfrwng eu llythyron. Mae natur emosiynol y dasg yn magu parch at gyflwr eraill ynghyd â dealltwriaeth, cydymdeimlad ac empathi tuag at eu sefyllfa.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Bydd Cymraeg yn cyfrannu at yrfaoedd a'r byd gwaith trwy alluogi dysgwyr i fanteisio ar y cyfleoedd cynyddol i weithio mewn meysydd lle mae angen sgiliau dwyieithog, a gwneud y mwyaf o'r twf yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Hefyd, bydd yn galluogi dysgwyr i ryngweithio â'r rhai sy'n ddwyieithog mewn lleoliadau gwaith.

Mae Helen (CA3) yn llunio cyfweliad gyda Bryn Williams. Mae'n gwybod bod y cogydd enwog hwn yn ddwyieithog, ac er ei fod yn datblygu ei yrfa yn Lloegr ar hyn o bryd, mae Helen yn gallu defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu ag ef.

# *Adran* 2

## Disgwyliadau a dilyniant yn y Gymraeg

Bwriad yr adran hon yw cynorthwyo athrawon i ddod i ddealltwriaeth gyffredin ynglŷn â'r safonau sydd ynghlwm wrth Lefelau 1 i Berfformiad Eithriadol yng nghyd-destun Rhaglenni Astudio Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Wrth nodi'r lefel mewn cromfachau isod, er enghraifft, (Lefel 3) golygir bod y datganiad yn cynnwys nodweddion o Lefel 3.

## Dilyniant mewn Llafaredd

Gwelir dilyniant eang yn y disgrifiadau lefel ar gyfer Llafaredd. I gychwyn, bydd disgyblion yn siarad am faterion cyfarwydd sydd o fewn eu profiad a'u diddordeb. Wrth i'w hyder gynyddu, byddan nhw'n fwyfwy parod i sgwrsio mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Byddan nhw'n dechrau ymateb i eraill gan gynnwys rhai manylion sy'n addas i'r testun dan sylw (Lefel 2) ac yna'n dechrau gofyn cwestiynau priodol (Lefel 3) a chynnig sylwadau (Lefel 4). Gwelir cynnydd pellach wrth i'r disgyblion ddechrau meddwl yn ofalus am yr hyn a ddywed eraill (Lefel 6), ystyried sut i ymateb a gwerthuso'r syniadau a gyflwynir (Lefel 7) gan ddangos meddwl annibynnol ac aeddfed (Perfformiad Eithriadol). Bydd disgyblion yn cyfleu gwybodaeth i gychwyn (Lefel 1), ac weithiau bydd angen cymorth arnyn nhw gyda'u sgwrs. Byddan nhw'n datblygu i gyflwyno gwybodaeth yn eglur (Lefel 3) ac yn effeithiol (Lefel 5) ac yn fwyfwy hyderus (Lefel 6). Wrth fynegi barn, mae datblygiad i'w weld yn y gallu i gynnig rhesymau (Lefel 4) ac yn y gallu cynyddol i ddethol tystiolaeth i gefnogi safbwynt (Lefel 6) a'i defnyddio'n gytbwys i gyfiawnhau barn (Lefel 8). Wrth eirio eu profiadau bydd disgyblion yn ymestyn eu defnydd o eirfa a phatrymau (Lefel 2) gan gynyddu yn eu gallu i siarad yn gywir (Lefel 4). Bydd eu gallu i ddefnyddio cystrawen naturiol Gymreig hefyd yn cynyddu (Lefel 6) nes iddyn nhw allu defnyddio iaith lafar gywir a chyfoethog (Lefel 8).

## Dilyniant mewn Darllen

Gwelir dilyniant eang yn y disgrifiadau lefel ar gyfer Darllen. Nodwedd arwyddocaol o gynnydd yn y lefelau cynnar yw'r gallu cynyddol i ymateb i'r hyn a ddarllenan nhw ac i wneud synnwyr o destun sy'n mynd y tu hwnt i ailadrodd y neges. Ar y lefelau isaf bydd disgyblion yn darllen geiriau ac yn pennu ystyr (Lefel 1). Byddan nhw'n dod i ddarllen ystod o destunau yn gywir, a chyda rhuglder a phwyslais cynyddol (Lefel 3) nes eu bod yn darllen yn glir ac yn llawn

mynegiant (Lefel 4). Wrth ymateb i destunau bydd disgyblion yn dechrau drwy fynegi barn ar destunau syml (Lefel 2). Gwelir cynnydd o hyn yn eu gallu i ddangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, (Lefel 4) a chyfeirio at gynnwys, themâu, adeiladwaith ac agweddau ar iaith ac arddull, ynghyd â dod i ddeall gwahanol haenau o ystyr mewn testunau (Lefel 6). O hyn, fe ddatblygir eu gallu i ddadansoddi (Lefel 7) a gwerthuso'r modd y cyflwynir ystyr mewn testunau (Lefel 8). Dod o hyd i wybodaeth yw'r her gyntaf (Lefel 3); ac yna rhaid cywain gwybodaeth o fwy nag un ffynhonnell brint (Lefel 4), galw i gof a threfnu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau (Lefel 5). Ar y lefelau uchaf, byddan nhw'n cyfuno a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol (Lefel 7) ac yn dadansoddi syniadau a gwybodaeth a thrafod y modd y caiff y syniadau hynny eu cyflwyno mewn gwahanol destunau (Lefel 8). Bydd lefel gynyddol anodd y gwaith a'r ystod o wahanol fathau o destunau yn cyfrannu ar yr her yn y lefelau uwch.

## Dilyniant mewn Ysgrifennu

Gwelir dilyniant eang mewn disgrifiadau lefel Ysgrifennu. Ar y lefelau isaf bydd disgyblion yn cyfathrebu drwy ysgrifennu geiriau, ymadroddion ac ambell frawddeg (Lefel 1) a byddan nhw'n dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth tuag at y darllenwyr a thuag at y ffurf (Lefel 2). Wrth ddatblygu fwyfwy bydd eu gallu i ysgrifennu ar amrywiaeth o destunau yn datblygu (Lefel 3). Byddan nhw'n dangos peth gwreiddioldeb wrth ddewis a dethol geiriau gan baragraffu i gyflwyno'u gwaith yn drefnus (Lefel 4) a byddan nhw'n ystyried pwnc, pwrpas, argraff a natur y gynulleidfa (Lefel 5). Erbyn cyrraedd y lefelau uchaf bydd disgyblion yn cynnal diddordeb y darllenydd (Lefel 6), yn ysgrifennu'n hyderus (Lefel 7) gan amrywio'r arddull a'r cywair yn ôl pwrpas y dasg (Lefel 8). O edrych ar y dechneg o ysgrifennu fe welir datblygiad amlwg hefyd. Ar y lefelau isaf (Lefel 2) bydd disgyblion yn ffurfio llythrennau sydd fel rheol wedi'u ffurfio'n gywir. byddan nhw'n defnyddio priflythrennau ac atalnodi llawn gyda pheth cysondeb. Bydd yr atalnodi yn gywir ar y cyfan (Lefel 3) a byddan nhw'n sillafu'r mwyafrif o'r geiriau strwythur yn gywir. Wrth wella'u sgiliau, byddan nhw'n dechrau atalnodi o fewn brawddeg (Lefel 4) a byddan nhw'n sillafu'r mwyafrif o'r geiriau sydd o fewn eu profiad yn gywir. Byddan nhw'n defnyddio'u gwybodaeth o reolau sillafu a bydd eu hatalnodi yn gywir fel rheol (Lefel 5). Bydd geiriau afreolaidd yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol (Lefel 6) a defnyddir ystod o atalnodi er mwyn egluro'r ystyr. Byddan nhw, erbyn y lefelau uchaf, yn sillafu geiriau cymhleth afreolaidd yn gywir (Lefel 7) a bydd ganddyn nhw afael dda ar ramadeg, atalnodi a sillafu (Lefel 8).

Gan edrych ar ddilyniant llawysgrifen, bydd disgyblion yn dechrau ffurfio llythrennau sydd yn mynd i'r cyfeiriad cywir (Lefel 1) ac yn ffurfio llythrennau'n gywir a chyson (Lefel 2). Bydd eu llawysgrifen yn ddarllenadwy (Lefel 3) ac yn glir (Lefel 4). Erbyn Lefel 5 a'r lefelau uwch bydd gwaith y disgyblion yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol.



# *Adran* 3

## Llunio barn ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Mae’r adran hon yn dangos sut y gellir defnyddio disgrifiadau lefel pan fyddwch yn llunio barn am y lefel sy’n cyd-fynd orau o safbwynt disgrifio perfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

## Lefel pwnc

Caiff targedau cyrhaeddiad Cymraeg, yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 eu pwysoli fel a ganlyn:

| Targed cyrhaeddiad | Pwysoli |
|---|---|
| Llafaredd | 4 |
| Darllen | 3 |
| Ysgrifennu | 3 |

Dylai ysgolion gofnodi data ar lefel targed cyrhaeddiad gan ddefnyddio eu systemau rheoli gwybodaeth (MIS). Yna bydd MIS yn cyfrifo’r lefel pwnc yn awtomatig.

**Dyma enghraifft:**

I gyfrifo’r lefel pwnc ar gyfer y dysgwr isod, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (47 ÷ 10 = 4.7). Talgrynnwch i’r rhif cyfan agosaf. Mae’r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 5.

| Targed cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysiad (b) | Lefel x pwysiad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd | 5 | 4 | 20 |
| Darllen | 5 | 3 | 15 |
| Ysgrifennu | 4 | 3 | 12 |
| **Cyfanswm** | | **10** | **47** |

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Er y byddwch am fedru esbonio pam yr ydych wedi dyfarnu lefel arbennig i ddysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol, nid yw'n ofynnol esbonio eich barn yn y modd hwn ac nid yw'n ofynnol i'ch barn gael ei hategu gan gasgliadau manwl o dystiolaeth am bob dysgwr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau a geir ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn esbonio'r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon o bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Byddwch yn llunio barn drwy ystyried cryfderau a gwendidau mewn perfformiad ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser. Bydd angen rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad ym mhob agwedd ar y disgrifiadau lefel.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

Cyfnod Allweddol 2 | # Kyle | **Lefel 2**



Mae Kyle yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Kyle nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Kyle ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Kyle o'r farn mai Lefel 2 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu.

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 1. Darllen ar goedd a thrafod | Stori

Er bod Kyle yn llwyddo i ddarllen testun gweddol syml yn gywir, mae'r darlleniad ychydig yn undonog. Wrth ateb cwestiynau'r athrawes, mae'n atgynhyrchu rhai o'r syniadau, yn manylu ychydig, ac yn codi rhai ffeithiau. Gwna hyn gan dangos peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth ddefnyddio 'a wedyn' ac 'a roedd' i gysylltu cymalau, er enghraifft:

> Wel roedd Cads Dids a Wilma[?] wedi gwneud fel music session a roedd nhw [ym] Dids wedi dweud mae pen-blwydd fi yn dod lan, wyt ti eisiau dod a wedyn roedd e a Mam, Dids a Mam wedi mynd i'r siopa a roedd pob un arall wedi dweud mae chwaer yn roi arno pan mae'n wneud e tacluso bedroom.

Er hynny, mae'n defnyddio nifer o eiriau Saesneg wrth drafod gyda'i athrawes. Wrth ymestyn y drafodaeth, mae Kyle yn sôn am gerddoriaeth ac mae'n siarad yn hyderus gan fod y maes hwn o fewn ei brofiad. Fodd bynnag, mae ei gystrawennau'n wallus, er enghraifft, 'Roedd nhw ddim cael . . . '. Mae hefyd yn camddefnyddio 'Ie' wrth ymateb i'r athrawes.

## Llafaredd

### 2. Trafod gyda'r athrawes | Porcari

Yn y gweithgaredd hwn, mae'r athrawes yn holi Kyle am y bartneriaeth sydd rhwng disgyblion y dosbarth a disgyblion o'r un oed mewn ysgol yn Yr Eidal.

Tuedda Kyle i ddibynnu ar gwestiynau'r athrawes. Er hynny, mae'n ceisio esbonio'r berthynas rhwng yr ysgol a'r ysgol yn Yr Eidal, ac mae'n cyfleu gwybodaeth yn syml. Ar adegau, mae'n siarad yn estynedig er nad yw'n gwneud hynny gan amrywio brawddegau'n bwrpasol. Mae iaith Kyle yn wallus ar adegau, er enghraifft, 'bontau' (pontydd), 'yn Cymru' – ac mae'n tueddu i ddechrau ei frawddegau gyda 'Mae'.

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 3. Cyflwyno gwybodaeth | 'Sitting Bull'

Yn sgil astudio'r testun, *Paha Sapa*, sef pecyn yn ymwneud â'r Indiaid Americanaidd, gofynnodd yr athrawes i'r dosbarth chwilio am wybodaeth bellach am un o'u harweinwyr ac yna cyflwyno'r wybodaeth o flaen y dosbarth.

Cafodd Kyle gymorth i drefnu'r wybodaeth a gasglodd a dewisodd ddefnyddio'r rhaglen PowerPoint i baratoi ei waith. Wrth wneud ei gyflwyniad, mae'n ddigon hyderus ac mae'n cynnwys manylion a chryn dipyn o wybodaeth am 'Sitting Bull'. Cyfyng yw ei batrymau brawddegol – 'Mae' a 'Roedd' a glywir gan amlaf, ac mae nifer o gystrawennau gwallus, er enghraifft, 'Mae enw fi yw Kyle' a 'Mae hwn yn beth nhw'n gwisgo . . . '

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 4. Chwarae rôl | Cyfweld Dave

Gweithgaredd arall a ddeilliodd o waith ar *Paha Sapa* yw hwn. Yma, mae Kyle yn ateb cwestiynau mewn rôl am brofiad a gafodd yn gwersylla yn y Bryniau Du un noson.

Mae ymateb Kyle yn awgrymu ei fod wedi deall y gofynion gan ei fod yn ceisio sôn am ei deimladau yn yr ogof mewn rôl, ac mae'n defnyddio 'Fi' wrth siarad. Ond nid yw ei adnoddau iaith yn caniatáu iddo fynegi ei hun yn rhugl ac o'r herwydd, daw'r holi i ben yn gyflym. Mae'n ymateb yn syml iawn ac mae ei batrymau brawddegol yn gyfyng.

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 5. Trafod mewn grŵp | *Tân ar y Comin*


*Tân ar y Comin* gan T. Llew Jones oedd y nofel a ddarllenwyd fel nofel ddosbarth yn ystod y tymor.

Ychydig y mae Kyle yn ei gyfrannu i'r drafodaeth ar y nofel, ond mae'n ateb cwestiynau'r athrawes gan fynegi hoffter o'r stori am ei bod yn 'drist a da'. Mae'n siarad gyda pheth hyder wrth ateb ei athrawes gan arddangos peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant: ' . . . ni wedi darllen llyfr o'r enw Tân ar y Comin. Mae e 'mbiti bachgen bach o'r enw Tim sy'n dair [ym] a mae dadcu wedi marw ac mae e trei a ffindio gartref achos mae o wedi [ym] roi carafan e ar tân'. Mae'n llwyddo i ddweud bod Tim yn 'neis' ac mai ei hoff gymeriad yw'r Cyrnol Phillips, gan ymhelaethu ychydig drwy gyfeirio, mae'n debyg, at y ffilm. Arwynebol yw'r drafodaeth.

## Darllen ac Ysgrifennu

### Gweithgaredd 1 | Adolygu llyfr: *Tân ar y Comin*

Bu'r dosbarth yn gweithio gydol y tymor ar y nofel *Tân ar y Comin*, a gofynnwyd i'r disgyblion adolygu'r llyfr.


Adolygiad Llyfr

Teitl — Tan ar y comin

Cynllun y clawr — Alan Howard

Awdur — T. Llew Jones

Gwasg — Llyfrau poced gomer

Cyhoeddiad cyntaf — 1975

Cymeriadau — Tim Boswell, Cownol. Powel, Mrs Ifans, Mr Ifans, Megan Ivans, Gwylym Ifan, Anti Edith

Crynodeb o'r stori

Roedd Tim wedi llosgi yr carafan e achos roedd eu tadcu wedi marw a roedd hyurma beth oedd digwydd yn neud pam mae rhywun yn marw a roedd rhaid Tim ffindio rhywle arall i byw a roedd e wedi dod y ceffyl gyda e a wedyn roedd e wedi mynd i'r siop i prynu pethau i bwto a wedyn roedd e wedi gofyn os mae e gallu cael cornbeef i cawl a bara so roeddd y person syn cael e siop ond roedd y person sydd cael y siop wedi rhoe bara sych i Tim a wedyn roedd e wedi mynd lawr i'r fferm a roedd e a y ceffyl gwawr yn byw mewn y fferm a roedd e Tim wedi bawu yn cart yr Ivans

Barn Personol am y nofel

Mae fi yn meddwl Mae y nofel yw yr un mwyaf boblogaidh pob yn sydd wedi darlln achos mae e'n gwych

Hoff ddigwyddiad a chymeriad

Y hoff ddigwyddiad i oedd pan roedd Tim wedi dod nol i y fferm ard ddwy flynedd achos roedd Tim wedi gwendl na am y arian a y palas roedd e'n nawr yn ffrindiau gyda Megan a anti Edith bod yn chwi a y hoff gymeriad I yw Cownol achos eiu llais yn doniol

Marc - 10/10

Llofnod - Kyle

Da iawn Kyle. Rwyt ti wedi sôn am yr hanes yn eithaf da.


Cofia – Rydw i nid Mae fi.

Y tro nesaf, cofia am frawddegau llawn.

Wrth ail-ddweud yr hanes mae Kyle yn nodi prif ddigwyddiadau dechrau'r stori yn fanwl, ond nid yw wedi crynhoi'r stori gyfan o bell ffordd. Mae'n rhoi ei farn yn fyr, mae'n nodi ei hoff ddigwyddiad ac yn enwi ei hoff gymeriad ond nid yw wedi gallu mynegi'i hun yn glir.

## Gweithgaredd 2 | Ysgrifennu llythyr: Mari Jones

Bu'r dosbarth yn siarad am Mari Jones a gofynnwyd i'r disgyblion ysgrifennu llythyr at ffrind yn dweud yr hanes. Ysgrifennodd Kyle y llythyr yn ddigymorth.



Mari Jones

Y Bwthyn
Cader Idris
Llanfihangel Pennant
Abergynolwyn
24 o Mai 1790

Annwyl Tim harris

Cefais i beibl wrth Tomos Charles wrth y babl a roedd en edrych fel tiaos yn reis fel ti ond bob amser mae fin lila darllen mae mam yn gwneud i fi neud eu chores a mae fi wedi cael e am 5 blwynod o'i o Mae a mae fi ddim wedi darllen un stori.


Oddi Wrth
Mari Jones

Mae trefn y llythyr yn dda. Rwyt ti wedi anghofio peth o'r hanes.
Y tro nesaf, rhaid ysgrifennu mewn brawddegau llawn.

Ychydig iawn o stori Mari Jones a geir yn y llythyr, ond mae cnewyllyn yr hanes yma, sef bod Mari wedi derbyn Beibl gan Thomas Charles a bod ei mam yn amharod iddi ei ddarllen. Mae rheolaeth Kyle ar y ffurf yn amlwg, mae gosodiad y llythyr yn gywir ac unwaith eto, mae'n llwyddo i gynnal y rôl. Er bod llythyren fawr ar y dechrau ac atalnod llawn ar ddiwedd y llythyr, un frawddeg hir sydd yma.

## Gweithgaredd 3 | Ysgrifennu stori: Begw

Yn sgil darllen addasiad o stori *Nadolig y Cerdyn* gan Kate Roberts, a'i thrafod fel dosbarth ac mewn grwpiau, gofynnwyd i'r disgyblion ysgrifennu'r stori o safbwynt Begw yn mynd ar y daith i dŷ Nanw Siôn ar ei phen ei hun, heb Rhys ei brawd bach.


Stori Begw


Un dydd roedd fi yn mynd i ty nanw a roedd amser nadolig a roedd eira a roedd lot o presents i mynd i't y nanw a roedd rhys brawd eisia dod gyda fi a roedd raid fi mynd a fe gyda fi A roedd mam wedi rôi pudin i rôi i nanw a roedd fi yn cario y pudin ion y tile Roedd ni gwisgo sgarff a dim clogsiau dim sgidie Aw roedd rhys yn gwneud fi wedi blino PWY SY NA mae nanw yn gweiddi NI a roedd fi gweid fin lico cerdded yn eira a nanw gweid ni ddim pod a roedd nanw wedi neud cawl a roedd ni wedi bita fe a roedd ni wedi mind i cysgu bws y tan a roedd rhys yn sharad am y parrot a roedd rhys bariod bach ofon a roedd amser mind gytre a roedd ni wedi mynd a roedd hi my or nawr a roedd ni gytre or diwedd a roedd fin falch bod gytre

roedd fi ×
roeddwn i ✓

Cofia: llythyren fawr i enwau
Rhys
Nanw.

Er bod Kyle wedi cymryd arno rôl Begw, gan lwyddo i'w chynnal drwy'r darn a chadw at y person cyntaf hyd y diwedd, nid yw wedi gallu dychmygu'r stori heb Rhys. Er hynny, mae'n dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau ac at ei gilydd, mae'r rhain mewn trefn, er bod llawer wedi'i adael allan. Er bod priflythrennau yn y darn, nid oes brawddegau clir; eto i gyd, pan ddarllenodd Kyle ei waith, canolbwyntiodd ar yr atalnodi gan fewnosod ambell atalnod llawn.

## Gweithgaredd 4 | Ysgrifennu portread: Fi fy hun


Portread

Kyle yr enw i.
Rydw i'n byw mewn 22 Morfa.
Mae gen i Mam, dad, 2 chwar.
Mae fy oed fi yw 11.
A yr ysgol i yw Ysgol y Sir.
A fi i cael dim anifeiliad anwes

Mae fy wyneb yn salw
Y gwallt i brown dowell.
A mae llygad yn brown dowell
A y croed fi yn gwyn.
Y seize corf yw medium.
A y dillad yn dillad nise.


Y cymeriad fi yw penwan.
A diddordeb i yw chwarae pel droed.
Atgofion i yw gweld Mamgu cyn mawr.
A dyfodol i yw bod gweithio galed.

Da iawn Kyle. Rwyt ti wedi llwyddo i roi llawer o wybodaeth yn y darn hwn.

Hunanbortread Kyle a geir yma. Mae'r testun yn awgrymu'r angen am ysgrifennu cryno a gwelir ymwybyddiaeth o hyn yn y modd y mae Kyle yn dechrau llinell newydd ar gyfer pob priodwedd newydd. Mae'n ysgrifennu'n uniongyrchol a does dim ymhelaethu, eto i gyd mae Kyle wedi grwpio'r priodweddau'n drefnus. Cyfres o frawddegau sydd yma, a phob un yn dechrau gyda phrif lythyren ac yn gorffen gydag atalnod llawn.

## Gweithgaredd 5 | Ysgrifennu cerdyn post: Cerdyn post o'r Eidal

Mae cysylltiadau rhwng ysgol Kyle ac ysgol yn Yr Eidal. Yma, mae'n esgus ei fod ar wyliau yn Porcari ac yn anfon cerdyn post adref.



Cerdyn Post

22 Morfa
Aberbont
Cymru

Annwyl Mam, dad a 2 chwaer

Rydw i yn cael lot o hwyl yn Yr Eidal, achos roedd i wedi mynd i'r y leaning tower a colysseam, a ~~roedd y hoff un fi wedi mynd~~ oedd factory ferrari, a roedd nw wedi gadael i mynd gyda nhw mewn ferrari, roedd en hwyl, yeah fin c'ael lluniau gyda camera, mam, fi wedi cael pizza, pasta a lasagnea pob dydd, mae y tywydd fyngn y dwym a fin eisiau pob un o ti fynyn, yeah fin cael gift i pob un Gweld chi wthnos nesaf

Oddi Wrth Kyle

(Cywiriadau'r athro: Roeddwn i; Fy hoff le oedd; Roedden nhw; fi; Roedd e'n; Mae lluniau gyda fi; Mae anrheg gyda fi)

Mae'n amlwg dy fod wedi mwynhau.
Beth am ailddrafftio'r cerdyn, a meddwl am frawddegau llawn?

Ceir ymdeimlad o'r gwyliau yng ngwaith Kyle, mae'n sôn am yr hyn mae wedi'i weld, mae'n sôn hefyd am y tywydd ac am y bwyd Eidalaidd. Mae'n cyfeirio at ddod adref ac am brynu anrhegion, sy'n brawf ei fod yn cadw pwrpas y cerdyn mewn golwg. Er iddo gadw at ffurf y cerdyn post, nid yw'n atalnodi.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 2 a 3 ac wedi pwyso a mesur barnwyd mai Lefel 2 oedd yn cyd-fynd orau, gan gydnabod bod elfennau o Lefel 3 yn ei waith.

Mae Kyle yn *dangos hyder* mewn rhai sefyllfaoedd, ond nid yw'n cynnig sylwadau na chwestiynau yn ddigymell. Mae'n gwrando yn hytrach na chymryd rhan yn y drafodaeth ar y nofel, a nodweddion o Lefel 2 a geir yma gan nad yw'n *ymateb* i ddisgyblion eraill yn y grŵp. Pan gaiff gyfle i siarad yn estynedig, fel yn y gweithgaredd ar 'Sitting Bull', mae'n dangos *peth ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant* sy'n nodwedd o Lefel 3, ac mae'n *cynnwys manylion addas* hefyd, sy'n arwydd o waith ar Lefel 2. Ond, nid yw'n *addasu ei siarad yn ôl gofynion y gynulleidfa*, sy'n arwydd o waith ar Lefel 3, a thraethu a wna mewn gwirionedd. Mae'n rhoi'r ffidil yn y to pan nad yw'n cofio'r drefn, a buan y daw'r chwarae rôl i ben hefyd am nad yw'n gallu cynnal y gweithgaredd. Mae'n *mynegi barn yn syml* iawn, pan yw'n sôn am y llyfr stori a hefyd wrth sôn am ei hoffter o'r nofel, *Tân ar y Comin*, ac eto nodwedd o Lefel 3 yw hon. Braidd yn undonog yw Kyle wrth siarad, ac mae ei adnoddau iaith yn brin. Er ei fod yn *ynganu'n ddealladwy*, sy'n nodwedd o Lefel 2 nid yw'n *amrywio geirfa a chywair*.

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 2 a 3 a barnwyd mai Lefel 2 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae'r casgliad hwn yn arddangos ystod o sgiliau Darllen. Mae Kyle yn *darllen testunau syml yn gywir* ac yn weddol rwydd, gan *ddangos dealltwriaeth o'r prif ddigwyddiadau* trwy atgynhyrchu rhai o'r syniadau – fel y gwelir yn ei drafodaeth gyda'i athrawes am y llyfr stori er enghraifft. Nodweddion o Lefel 2 a welir yma ac ni ellir dweud ei fod yn darllen gyda mynegiant na *rhuglder*. Mae'n *mynegi barn* ac yn gwneud sylwadau ar rai digwyddiadau hefyd, sydd eto yn arwydd o waith ar Lefel 2, ond mae'n dibynnu ar gefnogaeth. Wrth adolygu *Tân ar y Comin*, ac yn ei ymateb i Mari Jones, nid yw'n llwyddo i godi'r prif ffeithiau o'r testunau cyfan, sy'n nodwedd o Lefel 3, dim ond cyfeirio at rai digwyddiadau cychwynnol a wna, ac wrth ymateb i Begw nid yw wir wedi dangos dealltwriaeth o anghenion y dasg. Er ei fod yn mynegi barn ar y testunau syml, sy'n arwydd o waith ar Lefel 2, nid yw'n ymhelaethu, er enghraifft,

dweud bod *Tân ar y Comin* yn wych a wna, nid yw'n llwyddo i roi rhesymau pellach. Mae Kyle wedi gwneud cychwyn da fel darllenydd, ac mae'n amlwg ei fod yn gweithio y tu hwnt i Lefel 1. Er hynny, byddai angen iddo ddarllen gyda mwy o fynegiant, rhuglder a phwyslais a hefyd ymateb yn llawnach i'r hyn mae'n ei ddarllen cyn y gellid bod yn sicr ei fod yn gweithio ar Lefel 3.

**Ysgrifennu**

Ystyriwyd Lefelau 1, 2 a 3 ac er y gwelir nodweddion o Lefel 3 yma ac acw, barnwyd mai Lefel 2 oedd yn cyd-fynd orau.

Drwy gyfrwng yr adolygiad a'r llythyr yn arbennig, mae gwaith ysgrifennu Kyle yn cyfleu ystyr, sy'n arwydd o waith ar Lefel 2. Er hynny, nid yw'n ysgrifennu'n glir ac yn drefnus, a fyddai wedi bod yn arwydd o Lefel 3, ac mae diffygion o ran strwythur. Mae sillafu ac atalnodi Kyle yn anwadal iawn hefyd. Ond, mae'n symud y tu hwnt i'r defnydd o *eiriau ac ymadroddion* syml ac yn cyflawni'n uwch na Lefel 1. Lle mae'r ffurf yn gymorth iddo, er enghraifft y Portread, mae'n ysgrifennu'n drefnus, sy'n arwydd o Lefel 3, ond mae'n cael trafferth wrth geisio cyfansoddi darnau hir. Mae *ymwybyddiaeth o'r darllenydd a'r ffurf* i'w weld yn y llythyr, fel yn y Portread, sy'n nodwedd o waith ar Lefel 2, ond nid yw'n *datblygu syniadau'n synhwyrol*, a fyddai wedi bod yn arwydd o Lefel 3. Nid oes arwydd yng ngwaith Kyle ei fod yn rhoi sylw i gystrawen, er enghraifft, ei ddefnydd cyson o 'a roedd . . . ', ac er iddo ddefnyddio 'Mae gen i Mam . . . ' yn gywir yn Portread, nid yw'n llwyddo i ddefnyddio'r ymadrodd yn nes ymlaen yn y darn. Brawddegau syml iawn a geir, ac mae ei ddewis o eiriau yn elfennol iawn hefyd. Nid yw Kyle chwaith yn deall arwyddocâd atalnodi, yn wir, dim ond yn ei Bortread mae'n defnyddio atalnod llawn, heblaw am yr un waith ar ddiwedd Mari Jones, a nodweddion o Lefel 1 a welir yn yr agwedd hon o'i waith. Ond mae ei *lawysgrifen yn ddarllenadwy a chaiff y gwaith ei gyflwyno'n briodol*, sy'n arddangos nodwedd o Lefel 3.

Cyfnod Allweddol 2

# Leigh

**Lefel 4**



Mae Leigh yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Leigh nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Leigh ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Leigh o'r farn mai Lefel 4 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu.

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 6. Trafod gyda'r athrawes | Blodeuwedd

Roedd y dosbarth wedi bod yn astudio chwedl Blodeuwedd yn fanwl yn ystod y tymor ac roedd llawer o waith wedi deillio o'r stori. Yn y gweithgaredd hwn, mae'r athrawes yn holi Leigh am y chwedl.

Mae Leigh yn ymateb yn hyderus ac yn estynedig i gwestiynau'r athrawes ac mae ei brwdfrydedd ynghyd â'i gwybodaeth drwyadl yn amlwg. Mae mesur da o gywirdeb yn ei siarad, ond nid yw'n fyrlymus. Ar adegau, mae ansawdd yr iaith yn Seisnigaidd, er enghraifft 'Roedd e'n Gronw Pebr'. Mae adeiladwaith y brawddegau mae'n eu defnyddio yn syml ac mae'n gwneud defnydd helaeth o 'Roedd' a 'Mae'.

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 7. Holi disgyblion eraill | Blodeuwedd

Yma, mae Leigh yn holi disgyblion eraill am chwedl Blodeuwedd.

Mae Leigh yn holi'n gywrain ac yn fanwl, sy'n dyst i'w gwybodaeth o'r stori. Mae'n effro i atebion disgyblion eraill ac yn gofyn cwestiynau sy'n ymateb i'w cyfraniadau nhw, gan ddatblygu'r sgwrs yn effeithiol iawn. Yn wir, nid yw'n colli cyfle i holi ymhellach! Mae'n siarad yn rhwydd ac yn ddealladwy, ac mae'n hyderus iawn yn y sefyllfa hon.

## Llafaredd

### 8. Chwarae rôl | Y Bwli

Deilliodd y gweithgaredd hwn o drafodaeth am fwlian mewn gwers addysg bersonol a chymdeithasol. Mae Leigh yn chwarae rhan y bwli.

Yn y ddrama fach hon, mae Leigh yn cynnal ei rôl yn fywiog, gan ddangos ymwybyddiaeth o gynulleidfa. Mae blas Seisnig ar ei chystrawen, 'Bod yn dawel!', meddai, a 'Mae'n mynd i fynd i'r tân'.

## Llafaredd

### 9. Trafod mewn grŵp | Anifeiliaid

Yn y gweithgaredd hwn, mae Leigh a'i grŵp yn mynegi barn am gadw anifeiliaid ar gyfer adloniant.

Nid yw Leigh yn cyfrannu'n estynedig i'r drafodaeth hon am gadw anifeiliaid, ac mae'r drafodaeth drwyddi draw yn ddigyfeiriad. Pan fydd yn cyfrannu, mae'n mynegi barn yn glir, gan roi ambell reswm. Er bod Leigh yn siarad yn ddigon rhwydd, mae'n defnyddio nifer o idiomau Seisnig eu naws, er enghraifft, 'stuc mewn' a 'rhai weithiau'.

## Llafaredd

### 10. Cyflwyno gwybodaeth | Marchogaeth

Yn eu tro, mae'r disgyblion yn paratoi cyflwyniad ar bwnc o'u dewis ar gyfer aelodau eraill y dosbarth. Mae Leigh yn siarad am ei hoffter o geffylau a marchogaeth.

Mae Leigh yn siarad yn eglur ac yn gywir ac yn eithaf hyderus. Mae'n gaeth i strwythur ei chyflwyniad PowerPoint a dim ond ychydig o frawddegau estynedig a glywir. Er hynny, mae'n cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol, mae trefn a dilyniant i'r cyflwyniad, ac mae ymdrech deg i amrywio llais ac ystum yn ôl gofynion y gynulleidfa.

## Darllen ac Ysgrifennu

### Gweithgaredd 6 | Cywain gwybodaeth: Japan

Gofynnwyd i'r dosbarth ddewis gwlad, chwilio am wybodaeth a'i threfnu o dan y penawdau a roddwyd iddyn nhw gan yr athrawes.

Japan oedd dewis wlad Leigh. Chwiliodd am wybodaeth mewn llyfrau dosbarth a defnyddiodd y rhyngrwyd hefyd. Cyflwynodd y gwaith yn daclus o dan y penawdau a roddwyd iddi, ac mae'r wybodaeth mae'n ei chynnig yn ddigon diddorol.

## Y Wlad

Mae Japan ar ochr ddwyreiniol Asia. Mae Japan wedi ei wneud o 4 prif ynys sydd yn Hokkaido, Honshu, Shikoku a ~~Kay~~ Kyushu. Prif ddinas Japan yw Tokyo. Poblogaeth y wlad yw 125 miliwn, mae hynna bron dwbl poblogaeth prydain.

(yn sefyll ar) (set)

## Cartrefi a theulu

Mae tai Japan fel arfer yn fach ~~iawn~~ iawn. Os bydd y rhieni yn gweithio neu yn mynd mas bydd ~~[illegible]~~ y taid a nain yn edrych ar ôl y plant. Yn y dyddiau hen fydd ddim ond y tad yn gweithio ond erbyn hyn mae pawb yn gweithio. Mae cartrefi japan yn wahanol iawn i tai Cymru achos, bod na ~~[illegible]~~ ddim lawer o dodrefn gyda nhw a mae'r waliau yn ddrysau.

(Flynyddoedd yn ôl) (J) (C)

## Bwyd

Mae reis yn rhan bwysig o ei bwyd i ~~bo~~ pobl Japan. Rhan o bob pryd ~~yn~~ yw reis a mae rhai pobl yn bwyta fe o brecwast i de. Mae pobl yn credo bod pobl Japaneaid yn byw yn hyn na ni. Mae hyn y rheswm gyda o'r bwyd iach nhw'n fwyta.

o achos eu bod yn bwyta bwyd iach

## Gwyliau

Mae Japan yn cael mwy o wyliau na unrhyw man arall yn y byd. Y gwyl pwysicaf rhw yw Gwyl y golau ar Ionawr 1af. Bydd dim byd yn agos ar tua 3 diwrnod a bydd pawb yn mynd nol i ei teulu. Hanner nos bydd clychau yn y temlau a bydd

Bwdhaid yn canu i ddynodi bod y flwyddyn newydd wedi ei ddechrau.

## Fy Marn

Dwi ddim eisiau byw yn Japan, achos byddwn yn colli fy ffrindiau a teulu. Byddwn yn hoffi y bwyd dwi'n meddwl, achos mae e'n iach.

Gwaith da iawn Leigh. Mae llawer o bethau diddorol yma.
Cofia am y llythyren fawr ar ddechrau enw gwlad fel
Cymru, Japan, Prydain.

## Gweithgaredd 7 | Ysgrifennu stori gyfarwydd: Branwen

Roedd y dosbarth wedi bod yn astudio Blodeuwedd, ac roedd grŵp Leigh wedi dangos diddordeb mewn rhai o chwedlau eraill y Mabinogi. Buon nhw'n darllen addasiad o'r chwedlau, a phan ofynnwyd i'r dosbarth ysgrifennu stori gyfarwydd, dewisodd Leigh stori Branwen. Roedd yr addasiad ar gael iddi wrth ysgrifennu.

Mae'n gwbl amlwg bod Leigh wedi deall y stori, ac mae'n ei chofnodi'n fanwl. Mae gafael glir ar ddilyniant a thechneg adrodd stori yma, er enghraifft, 'Amser maith yn ôl . . . ', 'Yn sydyn . . . ', 'un dydd . . . ', er mae'n bosib ei bod wedi codi'r ymadroddion hyn yn uniongyrchol o'r testun. Mae'r paragraffu'n effeithiol ac yn fodd i symud y stori yn ei blaen ar ddechrau pob adran, er enghraifft, 'un diwrnod . . . ', 'ar ôl blwyddyn . . . '. Er hynny, mae ôl brys ar adegau, er enghraifft, yn y trydydd a'r pedwerydd paragraff wrth iddi bentyrru syniadau. Defnyddia Leigh ambell ymadrodd diddorol, er enghraifft, mae'n cyflwyno Efnisien fel dyn ' . . . hyll a fel pry cop blewog', ac wrth sôn am Matholwch, mae'n dweud bod ei galon yn 'rhedeg fel injan dân'. Dewisodd Leigh ddefnyddio'r cyfrifiadur.

Amser maith yn ol yn hen gogledd Cymru roedd cawr mawr o'r enw Bedigeidfran yn byw. Roedd y pobl yn hoffi Bendigeidran a chwaer e, Branwen ond roedd Efnisien ei hanner brawd yn hyll a fel pry cop blewog, a neb yn ei hoffi fe. Un dydd roedd Bendigeidfan yn edrych draw i Iwerddon o ei gastell brydferth, a weld llongau yn dod. Matholwch oedd e, brenin Iwerddon a roedd e eisiau priodi Branwen achos roedd rhywun wedi dweud wrtho fe bod Branwen yn bert iawn.

Roedd Bendigeidran yn bolon i Matholwch briodi Branwen, achos wedyn bydd Iwerddon a Cymru gyda un brenin. Ond roedd Efnisien yr hanner brawd yn gas fel teigr ac aeth e at ceffylau Matholwch a rhoi torri ei clustiau a cynffonau nhw bant. Roedd Matholwch yn grac a dweud bod e ddim yn mynd i briodi Branwen nawr Yn sydyn dyma Bendigeidfran yn ddefnyddio hyd a lledrith a roi cawg i Matholwch. Pan oedd rhywun yn marw, os oeddech chi yn dodi'r person yn y cawg wedyn byddaf ef yn dod yn fyw unwaith eto. Roedd Matholwch mor cyffrous, roedd ei galon yn rhedeg fel injan dan, a dywedodd bod e'n mynd i briodi Branwen gan fod y cawg gyda fe nawr. Priodon nhw yn Harlech ac wedyn mynd i Iwerddon i fyw.

Ar ôl blwyddyn roedd Branwen yn drist yn Iwerddon, achos roedd hi'n colli Cymru a colli Bendigeidfan. Roedden nhw wedi bod yn cael pob dydd gyda ei gilydd cyn hyn. Hefyd roedd pawb yn gas iddi a roedd hi;n gweithio galed yn y gegin a roedd y cigydd roedd yn gweithio yno yn bwlian hi. Un dydd daeth ffrind bach iddi y drudwy. Roedd Branwen yn rhoi bwyd i'r drudwy, a chyn bod hir roedd yr aderyn bach yn dechrau siarad gyda hi. Dododd hi neges rownd troed y drudwy bach a dweud, 'Cer di drudwy bach cer nol i Gymru a dweud i Bendigeidfran bod pawb yn gas i fi yn y castell'


Un diwnrod roedd Bendigeidfan yn eistedd wrth y mor yn Harlech ac welodd drudwy yn dod ato fe a dweud wrtho fe bod pawb yn gas i Branwen yn Iwerddon. Roedd Bendigeifran wedi cael sioc a dywedodde 'Mae rhaid i ni fynd i Iwerddon achos mae rhaid i ni achub Branwen'. Roedd rhaid i nhw croesi o Harlech i Iwerddon a roedd Bendigeidfran mor fawr a mor dal fel roedd e'n gallu cerdded dros y mor. Roedd pawb wedi cael ofn yn Iwerddon achos roedd nhw'n credu bod y mynyd yn symud ond roedd e'n y cawr Bendigeidfran. Bwys yr afon, roedd y milwyr ddim yn gallu croesi fel Bendigeidfan a gorweddodd Bendigeidfan lawr a cerddodd y dynion drosto fe.

Roedd pawb yn ymladd yn gas yn Iwerddon. Ond roedd Bendigeidfran wedi gwneud camgymeriad, achos roedd e'n cofio nawr bod fe wedi rhoi y cawg i Matholwch. Pan oedd y milwyr o Harlech yn marw, roedd nhw'n marw yn iawn, ond roedd y milwyr o Iwerddon yn cael mynd i mewn i'r cawg ac roedden nhw yn byw eto. Yn y diwedd aeth Efnisien i'r cawg a torrodd e'r cawg. Ond roedd Bendigeidfran wedi cael dolur mawr a cyn hir roedd e wedi marw. Aeth rhai o'r dynion a pen Bendigeidfran nol i Harlech. Roedd Branwen yn trist iawn achos roedd hi'n meddwl taw bai hi oedd e bod Bendigeidran wedi marw. A mae hi yn marw hefyd.

## Gweithgaredd 8 | Mynegi barn: Rhagfarn

Gwaith yn sgil darllen a thrafod hanes Anne Frank a Rosa Parks oedd hwn. Gosodwyd dwy dasg: gofynnwyd i'r dosbarth feddwl am y modd y portreadir y Cymry, ac yna gofynnwyd iddyn nhw gofnodi prif bwyntiau hanes Rosa Parks a mynegi barn am y digwyddiad.

Unwaith eto dewisodd Leigh ddefnyddio'r cyfrifiadur. Mae'n nodi pwyntiau diddorol am y Cymry ac mae'n amlwg ei bod yn deall ystyr y gair 'ystrydeb'. Mae'r crynodeb o hanes Rosa Parks wedi'i ysgrifennu'n glir ac mewn modd uniongyrchol, adroddiadol, sy'n gweddu i'r testun. Mae ei hymateb personol i'r digwyddiad wedi'i strwythuro o amgylch yr ymadrodd, 'Dwi'n meddwl . . . '.



Rhagfarn

**Gyda'ch partner dysgu, trafodwch y ffordd mae pobl yn ystradebu pobl o Gymru. Tynnwch lun o berson ystradebol Cymreig ac ysgrifennwch ddisgrifiad ohono/ohoni.**



Bod pawb yn gallu canu.
Bod pawb yn byw mewn ogofau.
Bod pawb yn mynd lawr y pwll glo.
Bod gyd o y ferched yn wisgo hetiau
Bod ni'n siarad iaith wahanol a bod y iaith yn mambo gambo.
Bod pawb tipyn bach yn dwp.

**Mae rhagfarn yn aml wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ein meddyliau.**
**Rhagfarn sy'n arwain at agwedd hiliol.**
**Ysgrifennwch stori Rosa Parks a rhowch eich barn am yr hyn a ddigwyddodd.**

Rhagfyr 1af 1955 wnaeth ferch o'r enw Rosa Parks sefyll i fyny am pobl croen ddu. Roedd pobl croen gwyn yn y dyddiadu hynny yn well na pobl croen ddu. Doedd pobl croen ddu ddim yn gallu cael swyddi pwysig na ynrhyw beth fel na. Doeddwn nhw ddim hyd yn oed yn gallu eistedd ar blaen y bws. Roedd hi yn teithio ar bws un tro a a roedd rhaid iddo hi symud i rhoi lle i person croen wyn. Ond doedd hi ddim wedi symud wnaeth hi ddim gweiddi ynrhywbeth. Ffonion nhw y heddlu a gaeth hi ei arestio. Roedd pobl croen ddu wedi dechrau sefyll lan am ei hunan ar ol hyn. Roedd y protest mor fawr roedd rhaid iddo nhw newid y gyfraith am byth. Dwi'n feddwl bod hi'n ferch ddewr iawn i sefyll lan am bobl croen ddu fel i hunan. Dydw i ddim yn meddwl bod y gyfraith yn y dyddiau hynna yn deg o gwbl a bod e wedi bod yn peth ardderchog bod hi wedi sefyll lan. Dwi'n meddwl bod hi'n bryd i pobl deall bod pawb yn yr peth.

## Gweithgaredd 9 | Ysgrifennu dyddiadur: Dyddiadur profiad

Yn sgil gwaith ar ragfarn, rhannwyd y dosbarth i ddwy garfan am ddiwrnod cyfan. Roedd y mwyafrif o'r disgyblion yn rhydd i wneud yn ôl eu harfer, ond roedd chwech yn gorfod cadw at reolau tynn ac roedden nhw'n cael eu gwahanu oddi wrth y gweddill yn y dosbarth ac ar yr iard. Roedd rhaid i'r rhain wisgo Seren Dafydd. Roedd Leigh yn un ohonyn nhw a gofynnwyd iddi ysgrifennu am ei phrofiadau.

Yn y darn hwn, mae Leigh yn myfyrio ar ei theimladau o gael ei gwahanu oddi wrth y lleill am ddiwrnod. Mae'n canolbwyntio ar y negyddol, er enghraifft, 'Doeddwn i ddim yn gallu . . . ' ac yna, 'Doeddwn hyd yn oed . . . '. Bron y gellid teimlo'i siom wrth iddi ddweud, 'Doeddwn i ddim yn hoffi amser cinio o gwbl'. Nid yw'n uchelgeisiol yn ei dewis o eirfa ac ymadroddion, mae'n cadw at yr hyn sy'n gyfarwydd, ond mae'r sillafu, ar y cyfan, yn gywir.

Ar Chwefror 26ed 2007 fe wisgodd chwech o plant
seren Dafydd ~~am~~ ar ei jumper. Roeddwn i yn un o nhw.x
Doeddwn i ddim yn gallu siarad a neb, a neb yn gallu
siarad gyda ni. Doeddwn ni ddim yn gallu cael y
teganau a roedd thaid chwarae ar be nein hun mewn
cornel y iard. Yn gyntaf roeddwn in meddwl bod e'n
gem bach, ond amser cinio roedd gyda o'r menywod
cinio yn neid e hefyd. Doeddwn i ddim yn hoffi
amser cinio o gwbl. Roedd ffrind fi, Kathryn yn poeth a
roeddwn i yn oer felly roeddwn i ar ben fy hun
yn cinio lan am ginio. Doeddwn hyd yn oed ddim
yn gallu eistedd ar bwys ~~ein~~ ein ffrindiau, ddim ond
y pobl oedd yn wisgo seren Dafydd. Teimlais i tipyn bach yn
drist achos roeddwn i eisiau chwarae ac eistedd ar bwys
fy ffrindiau.

x Un ohonyn nhw
x ar ben ein hunain

Da iawn. Dyma waith da. Rwyt ti wedi llwyddo i ddangos
dy deimladau yn dda. Gallet ti fod wedi defnyddio
paragraffau yma.

## Gweithgaredd 10 | Ysgrifennu llythyr: Llythyr at Nannie a Gramps

Yn y llythyr hwn at Nannie a Gramps, mae Leigh yn trefnu ei hysgrifennu mewn dull sy'n addas ac i'r pwrpas. Mae Leigh yn rhoi ychydig o hanes y penwythnos ac mae'n gwneud hynny'n drefnus ac yn fywiog. Mae'n defnyddio brawddegau a chystrawennau amrywiol yn y darn, er enghraifft, 'Pan byddwch chi . . . ', 'Aeth Kathryn a fi . . . ', 'O'r diwedd . . . ', ac mae'n cadw diddordeb y darllenydd wrth amrywio'i hysgrifennu a chyflwyno'r gwaith mewn paragraffau trefnus. Mae'r nodyn personol am Blacky, y ci, ar y diwedd yn ychwanegu at y diddordeb.

25 Rhodfa Allard
Tremawr
27 Mai, 2007

Annwyl Nannie a Gramps

Gobeithio bod chi yn iawn. Dydw i ddim wedi gweld chi am sbel, a rydw i'n disgwyl mlan i'r haf fel bod ni yn dod i aros gyda chi. Mae mam a dad yn dda, a James a Christopher hefyd. Dwi wedi bod brysur yn yr ysgol, mae lot o waith, achos fel chi'n gwybod dwi i'n mynd i'r Ysgol Uwchradd yn mis Medi. Dwi'n ~~disg~~ disgwyl mlan i honna hefyd! Ond bydd e'n gwahanol iawn.

Pan byddwch chi'n weld fi, byddwch chi'n cael sioc! Dydd Sadwrn, roeddwn i'n mynd i'r siop trin gwallt. Aeth Kathryn a fi i'r ~~dref~~ dre, ac yn y diwedd ffeidion ni un siop ~~trin~~ oedd yn cael rhai lle ar ôl. Rethon ni ti mewn a gofyn pethau fel faint bydd a beth roeddwn i moyn. Roeddwn i'n cael bob a roeddwn i'n nerfus iawn achos roedd gen i wallt hir. Roedd y siop yn brysur roedd pawb yn cerdded o gwmpas ac yn neud wallt pob. O'r diwedd gofynnodd y ferch iddo ni dod lan a bydd hi'n torri wallt ni mewn munud. Dywedodd y ferch roedd bob yn gwahanol iawn i styl fi ond e'n iawn. Daeth dad i pigo fi lan, cafodd ef sioc hefyd! Felly byddwch chi yn siŵr o cael sioc mawr!

Dydd Sul, roedd dair o fy ffrindiau yn cysgu lan fy rhŷ i, felly roedd rhaid pigo nhw lan. ~~Enwau'r~~ Enwau'r ffrindiau oedd Kathryn, Paris a Casey. Cafodd nhw sioc yn gweld fy ngwallt hefyd. Rethon ni mas i chwarae achos bod e ddim yn bwrw glaw. Cerddon ni i'r siop i prynu losin a DVD. Roedd e'n amser da.

Rhaid i fi fynd nawr. Byddaf yn ysgrifennu eto cyn hir. Gobeithio bod ~~Blacky~~ yn Blacky yn iawn, a bod e'n ~~[illegible]~~ bwyta digon o bwyd. Wela i chi yn yr haf.

Gwela chi cyn hir
Leigh

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Pan fydd strwythur y gweithgaredd yn glir, mae Leigh yn gwneud cyfraniadau hyderus mewn cyd-destunau amrywiol, ffurfiol ac anffurfiol. Nodweddion Lefel 4 a welir yma. Mae'n holi'r ddwy arall yn y grŵp yn effeithiol iawn, ac mae elfennau o Lefel 5 yn y modd y mae'n arwain y sgwrs, *gan roi sylw manwl i gyfraniadau eraill*, ac yn manylu ar elfennau o'r stori. Wrth gyflwyno gwybodaeth, mae'n cadw diddordeb disgyblion eraill yn ddigon effeithiol, gan *amrywio llais a goslef* ac, wrth chwarae rôl, mae'n defnyddio ystum yn effeithiol. Unwaith eto nodweddion o Lefel 4 yw'r rhain. Wrth drafod gyda'i hathrawes mae'n *ymateb yn fanwl*, sydd hefyd yn nodwedd o waith ar Lefel 4 ac mae'n *mynegi barn yn glir*. Ar adegau eraill, mae ei chyfraniad yn llai rhesymegol ac yn aml yn fyr. Nid yw Leigh bob amser yn fyrlymus, ac nid yw bob amser yn siarad yn rhwydd, sy'n un o nodweddion Lefel 4. Gwelir hyn wrth iddi drafod gyda'i hathrawes, ac weithiau wrth iddi holi eraill. Mae ei phatrymau brawddegol yn tueddu i fod yn gyfyng ac yn syml o ran adeiladwaith, ac ar adegau mae natur Seisnig i'w hiaith, er enghraifft, 'Dydw i ddim yn cael hoff rhan . . . '.

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae'r gyfres hon o weithgareddau, gan gynnwys ei hymateb llafar i ddarllen, yn dystiolaeth o hyder Leigh mewn darllen. Er bod y dosbarth wedi gwneud llawer o waith ar chwedl Blodeuwedd, mae gwaith Leigh yn dangos gafael drylwyr ar blot a *dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau*, sef nodweddion o waith ar Lefel 4, fel y gwelir yn y ffordd y mae'n ateb cwestiynau'r athrawes. Mae ganddi'r math o berthynas â thestun sy'n ei galluogi hefyd i ddod i farn am gymeriad, ac mae'n *cyfeirio at y testun* wrth fynegi'r farn honno, a hefyd mae'n holi disgyblion eraill yn fanwl ynghylch teimladau'r cymeriadau. Mae nodweddion sicr iawn o waith ar Lefel 4 yma, gydag ambell nodwedd o waith ar Lefel 5, er enghraifft, ei dealltwriaeth o'r testun a'r modd *mae'n cyfeirio at blot a chymeriadau*. Mae arwyddion ei bod yn deall *yr hyn sydd ymhlyg* mewn testun, wrth iddi sôn am angen Blodeuwedd i fod y tu allan yn yr awyr agored er enghraifft, sy'n arwydd pendant o Lefel 4, ond nid yw eto yn *tynnu casgliadau*, a fyddai wedi bod yn arwydd o Lefel 5.

Mae'n mynegi barn syml am hiliaeth yn ei darn ar Rosa Parks, ond yma eto nid yw'n dod i gasgliad. Yn ei gwaith ar Japan a Rosa Parks mae'n dangos ei bod yn gallu dod o hyd i *wybodaeth o fwy nag un ffynhonnell brint a'i defnyddio'n briodol*, sydd yn arwydd o Lefel 4, ac yn Rosa Parks yn arbennig, mae'n defnyddio'r wybodaeth wrth fynegi barn bersonol. Nid oes tystiolaeth ei bod wedi *trefnu'r wybodaeth o amrywiol ffynonellau*, gan mai dilyn trefn a roddwyd iddi y mae. Byddai gosod trefn wedi bod yn arwydd o waith ar Lefel 5. Serch hyn, mae digon o nodweddion Lefel 4 i allu dweud i sicrwydd ei bod yn gweithio y tu hwnt i Lefel 3. Mae cyfeiriadau manwl Leigh at stori Blodeuwedd a Branwen yn nodweddion o waith ar Lefel 5, ond o ystyried ei gwaith yn ei gyfanrwydd gellid lleoli Leigh yn gadarn ar Lefel 4 mewn Darllen.

**Ysgrifennu**

Ystyriwyd Lefelau 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Leigh yn ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau, ac mae ganddi afael eithaf sicr ar ffurf, sy'n arwydd o waith ar Lefel 4. Mae ffurf y stori yn gadarn ganddi ac mae nodwedd o Lefel 5 i'w gweld yma. Mae'n dangos hefyd ei bod yn deall bod y ffurf yn newid yn ôl gofynion a phwrpas y darllenydd. Mae ei gwaith ar Japan, er enghraifft, yn cynnwys nifer o frawddegau byrion, sy'n addas i'r pwrpas, ac mae ei hysgrifennu personol yn fywiog, fel yn ei llythyr at ei rhieni-cu. Yma, mae'n *ysgrifennu'n feddylgar*, sy'n un o nodweddion Lefel 4. Mae'n brawddegu'n gywir, ond mae rhai darnau nad ydyn nhw'n ramadegol goeth, ac ychydig iawn o *atalnodi* a geir *o fewn brawddeg*, sy'n un o nodweddion Lefel 4. Er bod enghreifftiau o ddewis *geiriau ac ymadroddion i greu effeithiau*, sydd eto yn un o nodweddion Lefel 4, er enghraifft, 'roedd ei galon yn rhedeg fel injan dân', mae'n cadw at yr arferol fel arfer. Mae'n paragraffu'n effeithiol, yn enwedig yn y stori, ac eto, yn nodweddiadol o waith ar Lefel 4, mae'n *cyflwyno'i gwaith yn drefnus ac mewn dilyniant i bwrpas y darllenydd*. Mae ei sillafu yn gywir ar y cyfan, ond nid yw'n gyson, ac mae tuedd ganddi i sillafu geiriau ac ymadroddion fel y mae'n eu clywed, er enghraifft, 'ynrhywbeth felna' a 'pawb yn weithio', 'yn un o nhw'. Mae'n *treiglo'n gywir ar adegau*, sydd fel ei sillafu, eto yn nodweddiadol o Lefel 4. Mae'n defnyddio ystod o atalnodi, gan gynnwys dyfynodau a chollnod, ac ar adegau mae tystiolaeth o arddull rwydd, lithrig. Mae ei hymgais i amrywio'i harddull a'r defnydd o atalnodi mwy uchelgeisiol ar adegau yn nodweddion o Lefel 5, ond byddai angen tystiolaeth fwy cyson cyn dyfarnu cyflawniad ar y lefel honno.

Cyfnod Allweddol 2 | **Lisa** | **Lefel 5**



Mae Lisa yn ddysgwr 11 oed yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Lisa nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Lisa ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Lisa o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn Llafaredd, a Lefel 5 mewn Darllen ac Ysgrifennu.

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 11. Cyflwyno gwybodaeth | Y Titanic

Yn y gweithgaredd hwn, mae Lisa'n cyflwyno gwybodaeth am y Titanic, sef un o themâu'r dosbarth yn ystod y flwyddyn.

Mae Lisa'n hyderus iawn wrth annerch ei chyd-ddisgyblion. Mae trefn i'r cyflwyniad ac mae'n egluro'n ofalus, er enghraifft, wrth iddi sôn am deithwyr y dosbarthiadau gwahanol. Mae'n hoelio sylw'r disgyblion eraill ac mae'n llwyddo i gadw rheolaeth pan fydd pethau'n mynd o chwith. Mae ei hadnoddau iaith yn aeddfed, er enghraifft, 'danfon negeseuon i'r llongau eraill' meddai. Weithiau, er hynny, mae blas Seisnig ar ei siarad, 'faint oed oedden nhw' (how old were they).

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 12. Trafod mewn grŵp | Paratoi drama

Mewn grwpiau, gofynnwyd i'r disgyblion baratoi drama fer seiliedig ar ddigwyddiad yn ymwneud â'r Titanic. Dewisodd grŵp Lisa bortreadu'r cyfnod paratoi.

Mae Lisa'n hyderus iawn o fewn y grŵp – yn wir, hi yw'r arweinydd. Mae'n arwain y drafodaeth ac yn rhoi syniadau i ddisgyblion eraill, er enghraifft, 'Pwy sy eisiau? . . .', 'Byddet ti'n gallu . . .', ond nid yw'n ymwthiol wrth wneud hyn ac mae'n derbyn syniadau gan aelodau eraill y grŵp. Mae'n siarad yn naturiol Gymreig ac mae ganddi afael dda ar gystrawen naturiol yr iaith. Mae'n goslefu'n effeithiol ac mae ystum corff yn cyfoethogi'r mynegiant.

## Llafaredd

### 13. Chwarae rôl | Cyflwyno'r ddrama

Yn y gweithgaredd hwn gwelir y cyflwyniad dramatig.

Mae yma gryn aeddfedrwydd yn y ffordd mae'n chwarae rôl yr hen wraig, neu'r 'old lady'. Mae'n amrywio'i llais a'i hystum yn effeithiol iawn. Pan yw'r lleill yn chwilio am gymorth, mae Lisa'n hunanfeddiannol, ac yn aml mae'n cyfarwyddo disgyblion eraill yn y grŵp. Dydy hi ddim yn atal Megan rhag ffonio ar ei ffôn symudol chwaith, a hithau yn 1912! Mae'n ymateb i'r hyn mae disgyblion eraill yn ei ddweud ac mae'n ymestyn ei rôl o fewn y ddrama fach.

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 14. Trafod gyda'r athrawes | Y wefan

Yma, mae Lisa'n egluro wrth yr athrawes sut aeth ati i lunio'i gwefan.

Ceir cyflwyniad eglur ac effeithiol gan Lisa wrth iddi ymateb i gwestiynau'r athrawes. Mae'n gwbl hyderus ac mae'n cadw diddordeb gweddill y dosbarth. Mae ei gafael ar yr iaith yn sicr, ac wrth iddi siarad am y wefan, mae'n amlwg bod ganddi ddigon o afael ar yr iaith i siarad am bethau technegol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfeirir at y wefan ganlynol ar y DVD:

www.bbc.co.uk/cymru/gogleddorllewin/enwogion/llen/pages/bethangwanas

## Llafaredd a Darllen (ymateb llafar)

### 15. Trafod mewn grŵp | *Ta-ta Tryweryn!*

Mae Lisa a'r grŵp yn trafod y nofel, *Ta-ta Tryweryn!* gan Gwenno Hughes, sy'n adrodd stori'r genhedlaeth olaf o blant a fynychodd Ysgol Capel Celyn.

Ychydig yn arwynebol yw'r drafodaeth hon. Mae'n ddi-gyfeiriad ar adegau ac nid yw'r grŵp yn llwyddo i drafod y testun mewn unrhyw ddyfnder. Maen nhw'n sôn am eu hoff gymeriadau a'r darnau maen nhw'n eu hoffi. Er hyn, mae Lisa'n cyfeirio at un agwedd ar arddull y nofel – mae'n dweud bod Gwenno Hughes yn ailadroddus wrth ddefnyddio'r gair 'Na' pan fydd yn sôn am yr hyn sydd wedi'i golli trwy foddi Tryweryn, a bod yr ailadrodd hwn yn atgoffa'r darllenydd o'r ailadrodd sydd yn y teitl 'Ta-ta . . . '

## Darllen ac Ysgrifennu

### Gweithgaredd 11 | Mynegi barn: Ymateb i nofel

Ar ôl darllen diweddariad o'r nofel *William Jones* gan T. Rowland Hughes, gofynnodd yr athrawes i'r dosbarth ystyried y penodau cyntaf a phenderfynu a fydden nhw wedi gwneud yr un penderfyniad â William Jones, sef symud i'r De.

Er bod Lisa'n mynegi ansicrwydd ar ddechrau'r darn, mae'n penderfynu'n fuan mai mynd i'r De y byddai. Mae'n cyfeirio'n fanwl at y testun wrth roi nifer o resymau dros ei phenderfyniad – mae Leusa'n ddiog, mae'n anniben o amgylch y tŷ a dydy hi ddim yn coginio. Wrth sôn am Leusa'n gwerthu canwyllbrennau ei fam, mae Lisa'n tybio bod William Jones yn hiraethu, arwydd ei bod yn tynnu casgliadau o'r hyn mae'n ei ddarllen.

William Jones.

Ar ôl darllen dechrau William Jones, dwi i ddim yn siâr os byddwn i yn mynd i'r De. Efallai bod William Jones yn meddwl bod gweithio yn y pwll glo yn haws na gweithio yn y chwarel, ond dydy hanw ddim yn wir, oherwydd roedd gwaith dan ddaear yn anodd iawn hefyd.

Ond, dwi'n meddwl efallai byddwn i wedi mynd os mai fi oedd William Jones, achos tydi William ddim yn hapus. Mae llawer o bethau yn y stori sydd yn dweud hyn. Mae gwraig William, o'r enw Leusa ddim yn llnau y tŷ, ond mai gwraig ffrind William Jones yn gwneud hyn. Mae William yn dweud bod llwch dros y lle i gyd, ac doedd dim llwch pan oedd mam William Jones yn byw yno. Hefyd, ac mae hyn yn ypsetio William yn fawr, mae Leusa wedi gwerthu canwyllbrennau ei fam, ac efallai bod hyn yn gwneud i William gofio mwy am ei fam a pa mor dda roedd hi yn cadw'r ty. Efallai bod hiraeth ar William am ei fam o..

Ar y dechrau'r stori mae William yn breuddwydio am ddynes hardd, ac yn nes ymlaen rydym yn gweld nad ydi Leusa yn hardd, mae gen hi ddannedd gosod. Pe'sai fi yn gweithio'n galed yn y chwarel a Leusa yn mynd i siopa, efo fy arian i, a chael gwneud ei gwallt, a ddim yn gwneud bwyd, rwyn meddwl basai hyn yn gwneud i fi fynd i'r De. Dwi'n meddwl hefyd byddai cywilydd am nad ydi Leusa yn rhoi digon o fwyd i fi i fynd i'r chwarel a bod fy ffrindiau yn gwybod. Efallai byddwn yn mynd i'r De o achos hyn. Mae Leusa hefyd yn betio, a basai hwn yn gwneud fi'n ddig os dwi'n gweithio'n galed a'r arian yn cael ei fetio, yna byddwn yn mynd i'r De.

## Gweithgaredd 12 | Ateb cwestiynau: Ffermio yn yr oesoedd cynt

Deilliodd y dasg hon o waith darllen mewn gwers hanes a oedd yn seiliedig ar ffermio yn yr oesoedd cynt.

Mae Lisa'n ateb y cwestiynau'n llawn ac yn gywir, sy'n dangos ei bod wedi deall y prif syniadau, er ei bod wedi codi ambell ymadrodd air am air o'r testun. Yn ei hateb olaf, mae'n mynegi ei barn yn aeddfed, yn pwyso a mesur yr wybodaeth ac yn cyfosod rhesymau dros weithio ar fferm heddiw a chynt. Yn yr ateb, mae'n mynd y tu hwnt i'r hyn y gofynnir iddi ei wneud, gan ei bod yn adnabod gwahanol haenau o ystyr.

Ffermio Cynnar
Disgrifiwch fywyd y ffermwyr cynnar?
Roedd y bobl yn pysgota ac yn hela anifeiliaid y goedwig, a chasglu planhigion gwyllt er mwyn cael bwyd. Roedd y ffermwyr yn defnyddio bwyelli wedi'u gwneud o gerrig i lanhau a chlirio'r fforestydd. Roeddent yn plannu haidd a gwenith a chadw geifr a defaid ar y caeau yn pori.

Beth oedd cynnyrch y ffermwyr Cynnar?
Roedd llefrith, menyn a chaws yn gynnyrch pwysig i'r ffermwyr. Roedd llaeth yn dod o'r geifr, a hefyd y defaid. Roedd Bara yn cael ei wneud efo breuan gyfrwy. Roedd y grawn yn cael ei falu'n flawd efo'r breuan gyfrwy. Byddai'r gwlân yn cael ei nyddu a'i nyddu a'i wehyddu'n frethyn i wneud dillad ar y gwŷdd Sythlin. Roedd y cynnyrch hwn yn cadw'r teulu mewn popeth bron.

Pa fath o offer roedden nhw'n ei ddefnyddio wrth eu gwaith?

Roedd nhw'n defnyddio cyllyll, ysgrafelli a blaenau saethau wedi eu gwneud allan o gerrig. Byddent yn torri tir gan ddefnyddio ffurf gyntefig o aradr a elwid – gwŷdd. Byddent hefyd yn defnyddio'r breuan, a'r gwŷdd sythlin

Nodwch un peth sy'n debyg, ac un peth sy'n wahanol am fywyd ffermwyr heddiw?

Mae gwartheg yn bwysig i ffermwyr heddiw achos maen nhw yn gwerthu nhw i gael arian ac yn yr oesoedd cynnar roedd gwartheg yn gallu talu dyledion. Hefyd roedd y gwartheg yn rhoi bwyd a diod a heddiw rydym yn prynu cig gwartheg yn y siopau a hefyd y llaeth yn y siopau. Rydw i yn credu bod y ffordd o weithio ar y tir yn wahanol. Heddiw mae ffermydd yn defnyddio peiriannau i aredig, ond yn yr hen amser roedden nhw'n defnyddio aradr gyntefig.

Fyddech chi'n hoffi bod yn byw ar fferm heddiw, neu yn yr oesoedd cynnar? Cofiwch roid rhesymau

Hoffwn i ddim byw ar fferm yn yr oesoedd cynnar achos rydw i'n meddwl bod bywyd yn galed iawn. Rwan rydym ni yn siopa am bwyd a diod ond yn yr oesoedd cynnar roedd rhaid i chi wneud y gwaith i gyd eich hunain i gael y bwyd, ac efallai eich bod yn poeni weithiau na fyddai digon o fwyd i'r teulu, Rwan, rydym ni'n gwybod bod digon o fwyd i ni oherwydd mae o yn y siopau, Roedd rhaid i chi yn godro a chasglu grawn a aredig y tir eich hunain hefyd. Doedd dim peiriant i gael i wneud y gwaith caled, dim ond y gwŷdd, roedd hwn fel hen aradr, a heddiw mae peiriant i gael i wneud y gwaith, heddiw rydych chi gallu codi yn gynnar i wneud y gwaith, heddiw rydych chi gallu codi mwy hwyr, achos mae mwy o help ar y fferm. Hefyd roedd rhai pobl yn gorfod gweithio bob dydd fel y gwas fferm. Heddiw rydych chi yn gallu cael gwyliau.

## Gweithgaredd 13 | Ysgrifennu llythyr: *Ta, ta Tryweryn!*

Yn sgil darllen y nofel, *Ta-ta Tryweryn!*, gofynnwyd i'r disgyblion gymryd arnyn nhw rôl person a oedd yn byw yng Nghwm Celyn ac ysgrifennu llythyr ffurfiol at Gyngor Lerpwl yn mynegi barn ar y mater.

Mae'n amlwg bod Lisa wedi deall y stori a thrwy gyfres o baragraffau mae'n llwyddo i fynegi ei barn fel awdur y llythyr yn glir, gan gynnwys rhesymau dilys sy'n codi o gynnwys y nofel. Mae'n defnyddio technegau addas megis cydbwysedd yn ei chystrawennau, er enghraifft, 'Rydw i wedi cael fy ngeni yn y cwm a rydw i yn dymuno marw yma hefyd', a gofyn cwestiynau rhethregol. Mae'n llythyr diddorol ac addas i'r pwrpas.

Llythyr Ffurfiol

Bryn Glas
Cwm celyn
Gwynedd
Tachwedd 15, 1955

Cyngor Lerpwl
Stryd Fawr
Lerpwl

Annwyl Syr neu Fadam

Rwyf yn ysgrifennu atoch i ymateb i'r ffaith eich bod eisiau boddi Cwm celyn. Rydw i yn erbyn boddi'r cwm oherwydd rydw i wedi cael fy ngeni yn y cwm a rydw i yn dymuno marw yma hefyd.

Mae'n syniad erchyll! Meddyliwch sut y byddai os fyddai yna rywun yn dod i Lerpwl ac yn dechrau boddi'r lle i gyd! Sut byddech chi yn teimlo? Mae'r plant wedi dod i arfer gyda'i hysgol. Ac wrth gwrs, meddyliwch am y capel. Lle Sanctaidd, lle mae llawer o bobol wedi eu bedyddio a wedi cael eu cnebrwn hefyd.

OS y byddech chi yn boddi'r pentref hwn mi fydd cymuned gyfan yn colli cymdeithas draddodiadol Gymreig. OS gwelwch yn dda, a wnewch chi ail feddwl am foddi Cwm Celyn, gan fod fy nheulu wedi byw yma ers cenedlaethau?

Yn gywir
L. Jones

## Gweithgaredd 14 | Ysgrifennu stori: Y Fodrwy Hud

Mae Lisa wedi saernïo stori hynod o gelfydd. Mae trefn i'r mynegiant ac mae'n llwyddo i ddefnyddio technegau adrodd stori yn llwyddiannus, er enghraifft, 'Amser maith yn ôl', 'Bu farw yr hen ddyn yn ei gwsg', 'Y bore wedyn'. Mae'n ysgrifennu'n ddiddorol gan ddangos sylwgarwch a dychymyg. Mae gan Lisa iaith gyfoethog ac mae'n llwyddo i bortreadu cymeriadau yn effeithiol drwy gyfrwng sgwrs, er enghraifft, 'Fy ngwas annwyl i'. Mae Lisa'n atalnodi'n gywir fel rheol er bod yma fân wallau sillafu, er enghraifft, 'ddoth', 'cyrheuddodd', 'ohonunt'.

Y Fodrwy Hud

Amser maith yn ôl roedd yna fachgen ifanc a'i fam weddw yn byw mewn bwthyn bach yn y wlad. Ieuan oedd enw'r bachgen, ac roedd yn gweithio i hen ddyn sâl. Un noson gweithiodd yr hen ddyn ar Ieuan a daeth i eistedd wrth ei ymyl;
"Ieuan, fy ngwas annwyl," dechreuodd, "Rwyf eisiau i chdi gymryd y fodrwy yma fel diolch am dy holl waith. Ond mae'r fodrwy yma yn wahanol iawn i'r arferol. Modrwy hud yw hi. Ond, cofia di un dymuniad cei di. Dim mwy. Dim llai."

Bu farw yr hen ddyn yn ei gwsg y noson yma. Roedd llawer o bobol yn ei alw yn ddewin. Y bore canlynol aeth Ieuan at ei fam a dywedodd am y fodrwy hud. Roedd ei fam wrth ei bodd! Roedd y ddau ddim yn siŵr beth i wneud efo'r dymuniad. Penderfynodd y ddau i beidio defnyddio y dymuniad tan roedd wir ei angen.

Un diwrnod roedd Ieuan eisiau mynd i'r dref, roedd y dre agos i
milltiroedd i ffwrdd. Ar ôl cerdded am amser maith, cyrhaeddodd y
dre. Roedd rhywbeth wedi tynnu ei lygaid. Roedd yna siop gemwaith
yn y dre, ac yna oedd llawer o fodrwyau a oedd yn edrych yn
un peth â'i fodrwy aur hud o. Safodd am dipyn a wedyn ddoth
y siopwr allan a gofyn
"Fedra i eich helpu chi?", gofynodd
"Wel, y peth ydi mae gennych chi yr un fodrwy a mi yn y
ffenest", dywedodd Ieuan.
"Wel oes, Mae gen i llawer ohonynt yn y siop.
"O na! Dydy hi ddim yn meddwl. Mae y fodrwy yma yn wahanol iawn!"
"Pam hynny?", Gofynodd y siopwr
"Wel mae y fodrwy yma yn un hud Dymuniad am Rhywbeth a'r fodrwy
yma ar eich bys fe gewch chi y dymuniad. Roedd y ddau wedi bod yn
siarad am gymaint o amser roedd wedi dechrau nosi.
"Bysa ti yn dymuno aros am y noson?" Gofynodd y Siopwr

"Wel, ie os gallwch yn dda"

Arhosodd Ieuan yn y'r stafell wrth ben y siop gemwaith. Rhoddodd
y fodrwy wrth ochor ei wely. Ac buan yn union yna aeth i gysgu.
Yn ganol y nos daeth y siopwr i'w ystafell, cyfnewid y fodrwy hud
efo yr fodrwy aur ac i ffwrdd a fe.

Y bore wedyn diolchodd i'r siopwr a dechreuodd ar ei ffordd adre. Aeth
y siopwr i lawr i'r seler, Meddyliodd, rhoddodd y fodrwy hud
ymlaen. Dymunodd am llond lle sofren aur. Mewn chwinciad,
Bang, Bang, Bang! I lawr ddaeth y sofrenni aur. A bu farw y
siopwr. Pan gyrhaeddodd Ieuan adre sylwodd o ddim bod y
modrwy wedi ei chyfnewid. Gweithiodd Ieuan a'i fam yn ddigon caled
i gael cae a wedyn fferm newydd sbon. Felly doedd dim angen
y modrwy hud prun bynnag!

Y Diwedd

## Gweithgaredd 15 | Ysgrifennu portread: Fi fy hun

Mae Lisa'n ysgrifennu'n fywiog ac yn ddiddorol, ac yn sicr mae hi'n ymwybodol o'i chynulleidfa. Mae'n defnyddio hiwmor wrth sôn am ei rhieni-cu, er enghraifft, 'Mae'r ddau wth eu bodde mynd ar ei gwyliau!', ac eto yn yr ail baragraff, 'Yn y bore, rwyf yn gallu bod yn hen wrach blin, oherwydd fy mod yn flinedig'. Mae'r ail baragraff hwn, fodd bynnag, ychydig yn gymysglyd, felly hefyd y trydydd paragraff, ac mae ôl brys yma. Mae'r sillafu'n gywir ar y cyfan, ac mae'r cystrawennau a'r ymadroddion yn Gymreig eu naws.

Portread

Fy enw i ydy Lisa. Rydw i yn byw yn Brynmawr, mewn ty Pine. Rwyf fi yn 10 oed. Mi fyddaf yn 11 ar yr 7 mai, 2007. Mae gen i dwy chwaer / a brawd un chwaer hŷn ac un chwaer hynaen. Enw mam yw Elinor ac mae'n athrawes mewn ysgol uwchradd. Mae hi'n dysgu mathemateg. Enw dad yw peter, mae'n actor, ac yn mae'n dreifio tacsi yn ei amser sbâr. Enid a Cliff yw enwau nain a taid. Mae'r ddau wrth eu bodde mynd ar ei gwyliau!

Mae gennyf fi wallt brown tywyll tywyll, Mae yn mynd yn greasy reit aml, felly mae rhaid i mi edrych ar ei ôl yn reit aml wrth ei lanhau. Gwyrdd-las yw lliw fy llygaid. Un metr a hanner yw fy uchdra. Mae fy nhad yn fy mhoeni i wrth ddweud bod fy nghlustiau yn sticio allan. Yn y bore, rwyf yn gallu bod yn ben wrach blin, oherwydd fy mod yn flinedig. Un tro codais a mynd i stafell mam a dad. Edrychais yn y drych, roedd fy ngwallt yn sticio i fyny. Rydw i yn hoff o o ddadlau gyda fy mrawd, a ei gael yn flin.

Mae gennyf llawer o ddiddordebau dyma'n rhai, rwyf yn hoff o ddarllen llyfrau, mynd i nofio a actio; ar y tedyn gym. Pan oeddwn yn fach roeddwn yn wych am cerdded o gwmpas stafelloedd yn posh. Recordiodd Taid fi yn cerdded o gwmpas ond disgynnais ar fy wyneb ôl! Codais a cario ymlaen, Fy hoff tîm pêl-droed ydi Manchester united! Rwny Rwny!

Rwyn edmygu Jonhy Depp oherwydd mae'n ddel, cool, actor da ac yn gwisgio fel hippy. Mae fy chwaer hyn yn mynd am dano! Mae ganddi posteri ohono fo ar ei waliau. Sad!

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Lisa'n *sgwrsio'n hyderus* ym mhob un o'r sefyllfaoedd, sy'n nodwedd o waith ar Lefel 5, ac fe'i gwelir yn *addasu ei sgwrs yn ôl gofynion y* dasg wrth iddi gyflwyno gwybodaeth i'w chynulleidfa am y Titanic, ac wrth iddi chwarae rôl hen wraig yn y ddramodig. Nodwedd o Lefel 6 a welir yma. Mae'n *cadw diddordeb* eraill, sy'n nodwedd o Lefel 5, wrth siarad am y Titanic a gwefan Bethan Gwanas, ac mae'n *ennyn* eu diddordeb drwy ddangos llyfrau perthnasol iddyn nhw ac egluro sut yr aed ati i ddefnyddio'r dechnoleg. Lefel 6 a welir yn yr agwedd hon o'i gwaith. Wrth iddi siarad â'i hathrawes am wefan Bethan Gwanas, mae'n *rhoi rhesymau'n gyson* dros ei dewisiadau, sydd eto yn nodwedd o waith ar Lefel 5. Mae Lisa'n arweinydd naturiol, fel y gwelir wrth baratoi ar gyfer drama'r Titanic, ond nid yw'n ymwthiol ac mae'n *ystyried safbwynt eraill* cyn ymateb, sy'n arwydd o waith ar Lefel 5. Ar draws yr ystod o weithgareddau mae'n llwyddo i *amrywio'i geirfa* a mynegiant yn ôl y cywair, sy'n nodwedd o Lefel 6, ac yn yr un modd mae'n *dangos gafael eithaf sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar*. Mae nifer o nodweddion Lefel 5 yng ngwaith Lisa, ond, o ystyried ei hyder a'i hadnoddau iaith, penderfynwyd ei bod yn gweithio ar Lefel 6 mewn Llafaredd.

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Lisa'n ddarllenwraig hyderus. Yn ei gwaith ar Bethan Gwanas a'r Titanic mae hi wedi *cywain gwybodaeth o amrywiol ffynonellau* – llyfrau a gwefannau – a'i *threfnu'n* daclus a phwrpasol, sy'n arwydd o waith ar Lefel 5. Nid oes arwyddion, er hynny, ei bod wedi *crynhoi'r wybodaeth*, a fyddai wedi bod yn arwydd o Lefel 6. Yn sicr, mae'n *dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau*, sy'n nodwedd o waith ar Lefel 5. Mae'n amlwg o'i hymateb i *William Jones*, er enghraifft, ei bod yn deall digwyddiadau cychwynnol y stori, ac mae'n pwyso a mesur y sefyllfa yn effeithiol dros ben, gan *ddethol . . . gwybodaeth berthnasol i gefnogi safbwynt*, sydd eto yn nodwedd o waith ar Lefel 5. Mae'n dangos dealltwriaeth o'r hyn *sydd ymhlyg* yn yr hanes wrth sôn am y gwahaniaeth rhwng Leusa a'i mam-yng-nghyfraith, sy'n un o nodweddion Lefel 4, ond mae'n mynd ymhellach na hyn wrth *dynnu casgliadau*, a dweud y gallai William fod yn hiraethu am ei fam.

Mae hyn yn arwydd pendant o waith ar Lefel 5. Mae'n gwneud rhywbeth tebyg yn 'Ffermio yn yr oesoedd cynt' hefyd, trwy ystyried a oedd y ffermwyr cynnar yn poeni am fethu â bwydo'u teuluoedd. Wrth drafod *Ta-ta Tryweryn!*, mae'n nodi ei hoff gymeriad, a hefyd yn *dethol ymadroddion . . . i gefnogi safbwynt* am arddull y nofel, er enghraifft, wrth iddi sôn bod ailadrodd y gair 'na' yn ei hatgoffa o deitl y nofel, ac mae hyn eto yn arwydd o waith ar Lefel 5. Er hynny, nid yw'n sôn am y themâu gwahanol nac am adeiladwaith y nofel, sef un o nodweddion Lefel 6. Wrth gynnal rôl un o drigolion Cwm Tryweryn mewn llythyr at Gyngor Lerpwl, mae'n amlwg bod Lisa wedi deall prif ddigwyddiadau'r stori, gan iddi roi rhesymau dros beidio â boddi'r cwm yn seiliedig ar ddigwyddiadau'r stori. Ar adegau mae nodweddion Lefel 6 yng ngwaith Lisa, ond does dim tystiolaeth ddigonol o'r lefel honno.

### Ysgrifennu


Ystyriwyd Lefelau 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae ysgrifennu personol Lisa yn fywiog ac yn hyderus, ac mae'n cyflwyno gwybodaeth yn gryno ac yn effeithiol. Mae'n ysgrifennu mewn nifer o wahanol ffurfiau – portread, stori, llythyr – ac mae ganddi *afael sicr ar ffurf*, sy'n un o nodweddion gwaith ar Lefel 5. Mae'n *ysgrifennu'n glir, yn amrywiol ac yn ddiddorol, ac at amrywiaeth o bwrpasau*, sydd oll yn nodweddion o Lefel 5. Mae ei gwaith yn *cynnwys paragraffau*, sydd eto yn arwydd o Lefel 5, ac ar y cyfan mae'r rheiny wedi'u saernïo'n effeithiol, ac mae Lisa'n datblygu ei disgrifiadau a'i syniadau yn feddylgar ac yn sylwgar ar y cyfan. Nid yw'n gwbl gyson, er hynny, fel y gwelir yn Portread, lle mae'r ail a'r trydydd paragraff yn troi yn eu hunfan braidd, ac mae'r trydydd paragraff yn gymysglyd. Er hynny, mae'n cynnal diddordeb y darllenydd ym mhob un o'r gweithgareddau. Mae iaith Lisa yn Gymreig ac yn gywir, ac mae'n defnyddio *ystod o gystrawennau ac ymadroddion* gydag ambell wall treiglo a sillafu. Mae agweddau o Lefel 6 yn ei gwaith, er enghraifft ei hidiom Gymreig, yr atalnodi a'r sillafu, ond does dim tystiolaeth ddigonol ar draws y casgliad hwn o weithgareddau i gyfiawnhau Lefel 6.

Cyfnod Allweddol 3

# Luke

**Lefel 5**



Mae Luke yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro yn gwybod llawer mwy am berfformiad Luke nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion yng ngwaith Luke ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Luke o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn Llafaredd.

## Llafaredd

### 16. Cyflwyno gwybodaeth | Y gitâr

Yn y gweithgaredd hwn, mae Luke yn cyflwyno gwybodaeth am ei gitâr. Gwnaeth ymdrech i ymchwilio i eirfa dechnegol addas sy'n gydnaws â'i bwnc ac mae'n cyflwyno gwybodaeth yn hyderus ac yn naturiol, er nad yw bob amser yn gydlynus. Mae'n ymwybodol o'i gynulleidfa ac yn defnyddio hiwmor a goslefu amrywiol i gadw diddordeb ei gyfoedion. Mae ganddo afael gweddol dda ar gystrawen er nad yw'n treiglo'n briodol bob tro. Gwelir enghreifftiau ohono yn gor-dreiglo o dro i dro, er enghraifft, 'Rydw i'n ddysgu', 'sef y ddarn'. Yn sgil y cyflwyniad, mae ei gyd-ddisgyblion yn gofyn cyfres o gwestiynau iddo ac mae'n ymateb yn dda gan amrywio'i lais a'i oslef er mwyn amrywio'r mynegiant.

### 17. Chwarae rôl | Henaint a ieuenctid

Yma, mae Luke a Gruffydd yn chwarae rôl. Mae Gruffydd yn cynrychioli'r genhedlaeth iau a Luke y to hŷn. Mae Luke yn gwneud cyfres o ddatganiadau am y to iau, er enghraifft, 'yn dda i ddim byd . . . a gwastraffu'r palmant . . . a gwneud i'r byd edrych yn hyll'. Mae'n llwyddo i amrywio goslef ei lais er mwyn hoelio'i ddadleuon, gan gynnig dadleuon ystyrlon o ongl wahanol. Dengys y drafodaeth ei fod yn gallu meddwl am wrthddadleuon effeithiol: 'ydych chi byth wedi gweld dad-cu yn graffïtio?'.

## 18. Trafod nofel mewn grŵp | Gwirioni

Ar ddechrau'r drafodaeth, mae Luke yn llwyddo i fynegi ei farn am glawr y llyfr yn eithaf effeithiol, gan drafod addasrwydd y lliwiau, er enghraifft, 'falle fydde fe'n gallu cael gwyrdd o'r goedwig neu o'r gwair', ac mae ei bwynt bod y clawr yn un 'unig' yn bwynt arbennig o sensitif. Er hynny, nid yw'n mynd yn ei flaen i ymhelaethu a thuedda i golli llinyn ei ddadleuon o dro i dro. Mae'n gwrando ar ei gyfoedion ac mae'n cynnig sylwadau sy'n berthnasol wrth ymateb iddyn nhw.

## 19. Trafod mewn grŵp | Alcohol

Mae Luke yn sgwrsio'n hyderus ac yn mynegi ei farn yn glir, gan roi rhesymau, ond nid yw'n llwyddo bob amser i drosglwyddo'i bwyntiau'n eglur, er enghraifft:

> Dwi'n credu taw bod e'n pwysig i'r plant gael eu hadnabod fod alcohol yn peth drwg ym byth cyffwrdd . . . achos os bydde'n nhw'n gweud y pethe dda bydd yr plant yr plant yn anwybyddu'r pethe drwg ac yn ddilyn eu arwyr fel y sêr, pobol enwog.

Er hynny, mae'n cyfrannu'n dda at fwrlwm y drafodaeth ac mae'n defnyddio nifer o gymalau cyswllt i symud y drafodaeth yn ei blaen, er enghraifft, 'Dwi'n anghytuno', 'fel y dywedais'. Mae ganddo bwyntiau gwerthfawr, er enghraifft, y pwynt fod pobl sy'n yfed yn fwy tebygol o ysmygu hefyd.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd


Ystyriwyd Lefelau 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Wrth drafod alcohol mewn grŵp, mae cynnwys ei ddadleuon yn aeddfed ac mae'n llwyddo i fynegi barn yn effeithiol. Mae'n *rhoi rhesymau'n gyson i gefnogi'r farn honno* (nodwedd o Lefel 5). Gall uniaethu â phroblemau'r henoed wrth chwarae rôl ac mae'r perfformiad hwn yn dangos rhai nodweddion o Lefel 6 wrth iddo *addasu ei sgwrs yn ôl gofynion amrywiaeth eang o gyd-destunau*. Wrth gyflwyno gwybodaeth a thrafod pynciau mewn grŵp serch hynny, amlygu nodweddion Lefel 5 y mae ei berfformiad at ei gilydd. Mae'n *cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac effeithiol* sy'n nodwedd o Lefel 5. Mae gan Luke eirfa eithaf eang ac mae'n amrywio patrwm ei frawddegau'n weddol gyson. Er hynny, mae'n cael trafferth gyda'i dreigladau ac mae ei gystrawen yn reit herciog o bryd i'w gilydd. Llwydda i gadw *diddordeb gwrandawyr drwy amrywio'i sgwrs at y diben gan ddefnyddio llais, goslef ac ystum*. Dyma un nodwedd o ddisgrifiad Lefel 5.

Cyfnod Allweddol 3

# Gwilym

**Lefel 6**



Mae Gwilym yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Gwilym nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion yng ngwaith Gwilym ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Gwilym o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn Llafaredd.

## Llafaredd

### 20. Cyflwyno gwybodaeth | Saith rhyfeddod

Mae Gwilym yn cyflwyno gwybodaeth am saith rhyfeddod y byd hynafol ond nid trafodaeth mewn grŵp a geir yma ond yn hytrach sgwrs un-i-un â'i athrawes. Rydym yn clywed Gwilym yn trafod tri o'r rhyfeddodau hynny ar y DVD. Mae'n trafod ei bwnc yn hyderus iawn ac mae'n ymateb yn aeddfed i gwestiynau'r athrawes. Mae ei gyflwyniad yn drefnus ac yn naturiol ac er nad yw ei afael ar gystrawen yn hollol gadarn bob amser, mae'n amrywio'i eirfa a'i fynegiant yn effeithiol.

### 21. Trafod mewn grŵp | Teithio i'r ysgol

Yma, mae'r grŵp o bedwar yn trafod cerdded a theithio i'r ysgol. Mae Gwilym yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio technegau fel ailadrodd, er enghraifft, 'mwy iach iddyn nhw, mwy iach i'r amgylchedd' i bwysleisio'i bwyntiau. Mae'r grŵp yn fyrlymus a phawb yn awyddus i gyfrannu i'r drafodaeth. Mae Gwilym yn ymateb i syniadau a phwyntiau disgyblion eraill ac mae'n defnyddio tystiolaeth i gefnogi'i farn ar adegau. Mae'n dangos gafael eithaf sicr ar gystrawen er bod mân wallau yn ei fynegiant o bryd i'w gilydd, er enghraifft, 'mae o ddim yn ddiogel', 'Mae'n gormod i ofyn'. Mae'n llwyddo i amrywio'i fynegiant a'i eirfa er mwyn cynnal diddordeb.

## 22. Trafod nofel mewn grŵp | Creadyn

Mae Gwilym yn dangos ei fod yn gallu cyd-adweithio'n dda mewn grŵp, gan bwyso a mesur cyfraniadau ei gyfoedion. Mae'n gallu cyfathrebu'n glir ac yn hyderus er bod tueddiad i rai o'i ymatebion fod ychydig bach yn 'stacataidd' a phytiog eu naws. Nid yw'n ymhelaethu'n ddigonol ar bwyntiau bob amser. Er bod ganddo eirfa gyfoethog ar y cyfan, mae'n defnyddio ambell air neu ymadrodd Seisnig ei naws o bryd i'w gilydd.

## 23. Chwarae rôl | Tryweryn

Yn y gweithgaredd hwn, mae Gwilym yn chwarae rôl Owain Williams adeg boddi Cwm Tryweryn. Ar y dechrau, mae'n siarad yn hyderus ac yn amrywio'i lais a'i oslefu. Mae'n defnyddio hiwmor yn ei ymatebion, er enghraifft, 'don i ddim yn disgwyl cael fy nal', ac mae'n amrywio hyd ei frawddegau er mwyn creu effaith. Mae'n llwyddo i fachu ar ambell air yn y cwestiynau sy'n cael eu taflu o'r gynulleidfa yn hynod o effeithiol, 'fel y dudoch chi 'dwyn' ydy o'. Mae hyn yn dangos ei fod yn gwneud defnydd o'r hyn sydd ymhlyg yn yr hyn a ddywedir. Tuag at ddiwedd y clip, mae'n cloffi ychydig ac nid yw ei ymatebion mor hyderus ond mae'n llwyddo i gadw at ei gymeriad drwy'r gweithgaredd.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Drwy'r pedwar gweithgaredd, mae Gwilym yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus mewn modd sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa a'r pwrpas. Mae'n ennyn diddordeb disgyblion eraill drwy *amrywio'i fynegiant a'i eirfa* sy'n nodwedd o Lefel 6. Mae'n dangos cryn aeddfedrwydd wrth gyflwyno gwybodaeth ac mae ei berfformiad yn y gweithgaredd hwn yn dangos peth blaengaredd sy'n nodwedd o Lefel 7. Ar draws yr ystod o weithgareddau mae'n llwyddo i amrywio'i eirfa a'i gystrawennau ac mae'n dangos *gafael eithaf sicr ar gystrawen naturiol yr iaith lafar* (nodwedd o Lefel 6). Mae mân wallau yn britho'i fynegiant o bryd i'w gilydd. Mae ei berfformiad ar draws y gweithgareddau eraill, sef y trafodaethau mynegi barn mewn grŵp a'r chwarae rôl, yn dangos llawer o nodweddion disgrifiad Lefel 6.

Cyfnod Allweddol 3

# Taran

**Lefel 7**



Mae Taran yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Taran nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion yng ngwaith Taran ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Taran o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn Llafaredd.

## Llafaredd

### 24. Trafod mewn grŵp | Henaint

Mae'r grŵp yn trafod henaint a chartrefi hen bobl. Mae'r aelodau'n cyd-adweithio'n arbennig o dda ac mae Taran yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau'r ddau arall ac yn ymateb yn briodol iddyn nhw. Mae'n cyfathrebu'n hyderus ac yn gwneud cyfraniadau sensitif a meddylgar. Mae'r drafodaeth yn aeddfed iawn ac mae Taran yn defnyddio tystiolaeth i gyfiawnhau ei farn, er enghraifft, mae'n cyfeirio at raglen deledu Bethan Gwanas, sy'n sôn am agwedd y trydydd byd tuag at yr henoed. Mae'n dangos gafael gadarn ar gystrawen yr iaith lafar.

### 25. Trafod lluniau | Tryweryn

Mae grŵp o dri yn trafod lluniau sy'n darlunio Tryweryn ac maen nhw'n ymateb yn bersonol i'r delweddau. Mae Taran yn dangos ei ddawn i ddehongli llun ac mae'n sylwi ar arwyddocâd y llun, 'Cofiwch Dryweryn'. Mae'n cyfeirio at y ffaith fod yr arwydd ar ffurf graffiti a bod y digwyddiad yn dal i fod yn berthnasol i'r Cymry hyd at heddiw. Mae'n defnyddio ystum a goslef ei lais yn briodol. Er nad yw ei iaith bob amser yn berffaith gywir – nid yw bob amser, er enghraifft, yn sicr o genedl enwau – mae gan Taran adnoddau iaith cyfoethog ac mae ganddo eirfa eang a chystrawen Gymreig ei naws.

### 26. Chwarae rôl | Efnisien

Mae'r tri disgybl yn chwarae rôl gweithwyr cymdeithasol yng nghyfnod y Mabinogi, gan drafod gweithredoedd Efnisien. Maen nhw'n trafod a ydyw'n llofrudd neu a oes modd cyfiawnhau ei weithredoedd. Mae Taran yn cyfrannu'n dda ac yn llywio'r drafodaeth yn hyderus. Mae'n defnyddio'i wybodaeth o'r chwedl er mwyn ffurfio barn am gymeriad Efnisien. Gall resymu a chyfiawnhau ei osodiadau gyda thystiolaeth hefyd. Er mai Saesneg yw iaith cartref Taran, mae ganddo doreth o ymadroddion naturiol Pen Llŷn, er enghraifft, 'cau dod ato fo', 'cogio', 'taflyd'.

### 27. Trafod mewn grŵp | Cerddi

Mae'r grŵp yn trafod dwy gerdd, sef englyn Alan Llwyd, 'Taid', a'r gerdd 'Hen Daid' gan Emrys Roberts. Yma eto, mae Taran yn cyfathrebu'n rhwydd ac yn hyderus, gan lywio'r drafodaeth a'i symud yn ei blaen. Mae'n gorfod dal ei dir yn erbyn dau aelod arall y grŵp sy'n dadlau mai'r gerdd gaeth sy'n rhagori. Mae'n cadw at ei safiad, gan gyfiawnhau mai'r gerdd benrydd sydd orau ganddo ef. Mae'n mynegi ei hun yn drefnus ac yn dangos blaengaredd wrth drafod.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 7 ac 8 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Taran yn gyfathrebwr hyderus sy'n gwrando'n ofalus ar ei gyfoedion ac yn ymateb yn briodol ac yn sensitif iddyn nhw. Gall lywio trafodaeth yn drefnus, ac wrth fynegi barn mae'n gallu cyfiawnhau'r farn honno drwy ddethol a *dewis tystiolaeth i gefnogi safbwynt* (nodwedd o Lefel 7). Yn y drafodaeth ar yr henoed yn ein cymdeithas, mae'n *dangos blaengaredd* ac mae hon yn nodwedd o Lefel 8. Defnyddia *amrywiaeth eang o adnoddau iaith* ac mae ganddo *afael gadarn ar gystrawen yr iaith lafar* sy'n nodweddion Lefel 7. Mae yna fân wallau yn britho'i waith o dro i dro.

Cyfnod Allweddol 3

# Helen

**Lefel 5**

Mae Helen yn ddysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Helen nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion yng ngwaith Helen ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Helen o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad mewn Darllen ac Ysgrifennu.

## Darllen ac Ysgrifennu

### Gweithgaredd 16 | 'Y Navaho'

Gwnaed y dasg hon yn sgil astudio thema sy'n ymwneud â phobl dan warchae. Fel rhan o'r gwaith, darllenwyd am gefndir hanes llwyth Americaniaid brodorol y Lakota yn y pecyn *Paha Sapa*. Yn ogystal, roedd y dosbarth wedi gweld clip o'r rhaglen *Byd Pws* ar y DVD cyn mynd ati i ddarllen y gerdd 'Y Navaho' gan Tecwyn Ifan, sy'n seiliedig ar hanes llwyth y Navaho. Gofynnwyd i'r disgyblion weithio'n unigol gan fod y cwestiynau'n strwythuredig.

Taflen ateb

1. Rhowch deitl y gerdd ac enw'r bardd.

Teitl y gerdd yw Navaho a bardd y gerdd yw Tecwyn Ifan.

2. Beth yw thema'r gerdd? Pwy yw'r "milwyr gwyn"?

Thema'r gerdd yw Indiaid Americanaidd yn gorfod gadael tiroedd achos bod y bobl wyn wedi dod yno a dwyn y tir. Mae'r bardd yn gweld fod y bobl yma wedi colli eu tai a'i tir a nawr does dim tir ar ôl da nhw. Manuelito sydd yn adrodd y stori a mae e nawr yn y gwersyll yn hiraethu am y pethe ma fe wedi colli.

Y milwyr gwyn yw'r Americanwyr.

3. Beth yw ystyr y geiriau hyn? Cofiwch chwilio yn y geiriadur.

Machlud = Sunset
carcharor = prisoner
gwersyll = Campo – gwersylla fyddau hynny
ymgeledd = gofalu am rywbeth.
diffodd = dim golau, switcho off.

4. Mae'r bardd yn defnyddio'r gair "machludodd" yn y 3ydd llinell oherwydd ........ roedd y pobl wedi colli ei cartrefi a'r tir ac mae'r dydd yn dod i ben i'r Navaho. Mae machlud wedi dod ar ôl y haul.

ateb da iawn Helen

5. Pa fath o dir rydych chi'n meddwl oedd yn Bosque Redondo? Pam rydych chi'n dweud hyn? Disgrifiwch y daith.

Rydw i yn meddwl bod tir yn Bosque Redondo yn dir diflas gyda dim amgylchedd achos roedden nhw ddim yn mynd i'r Bosque Redondo i joio. Roedde nhw wedi cael taith hir drwy'r eira a roedd [roedden] nhw wedi blinor [blino'n] lân ar y [ei] diwedd hi. [redacted] Wedin [Wedyn] fe gysgon nhw dan y lleuad a roedden nhw'n yn teimlon drist achos doedd dim byd ond eira amby ti'r lle.

6. Pam mae'r bardd yn dweud "a charchar mwy i'r Navaho yw y byd"?
Mae'r bardd yn dweud "a charchar mwy i'r Navaho yw y byd", achos roedd yna dim rhydid i gael i'r Navaho. Bydd [Bydden] nhw yn styc yn y gwersyll na.

7. Ydy'r bardd wedi defnyddio berfau pwersus [redacted] neu ansoddeiriau diddorol? Pa rai?
Gwnaeth y bardd defnyddio Berfau pwersus fel machludodd cerddasom, Diffoddwyd....

8. Sut mae'r bardd eisiau i chi deimlo wrth i chi ddarllen y gerdd?
Mae'r bardd eisiau i ni teimlo trieni a tristwch dros y Navaho. Mae e yn drist bod nhw [eu bod nhw] wedi colli ei cartrefi.

9. Beth rydych chi'n hoffi am y gerdd?

Rydw i'n hoffi bod y bardd wedi wedi troi'r gerdd mewn i gân achos roedd yn llawer mwy diddorol gwrando ar y cerdd na darllen hi! Mae'r odl yn dda a mae e'n gwneud chi i gofio yn well y geiriau.

atebion da iawn Helen. Llwyddaist i fynegi barn am y gerdd a dyfynnu'n bwrpasol hefyd.

Mae Helen wedi ateb y cwestiynau cychwynnol i gyd yn gywir, gan ddangos ei bod wedi deall cynnwys y gerdd. Mae'n llwyddo i fynegi barn bersonol am y gerdd ac mae hi wedi deall yr hyn sydd ymhlyg yn y gerdd drwy ddweud nad oes rhyddid yn y byd i'r Navaho bellach. Mae'n dweud, 'mae'r dydd yn dod i ben i'r Navaho', gan nodi'n ogystal fod y bardd am i'r darllenydd deimlo tristwch. Mae'n dangos dealltwriaeth o'r hyn sydd ymhlyg yn y gerdd ac mae'n tynnu casgliadau wrth ddweud, 'Mae'r bardd yn gweld fod y bobl yma wedi colli eu tai a'i tir a nawr mae dim tir ar ôl da nhw'. Yn ogystal, mae'n llwyddo i feithrin empathi tuag at y Navaho drwy ddweud, 'Mae e yn drist bod nhw wedi colli ei cartrefi'.

## Gweithgaredd 17 | Ateb cwestiynau ar stori: ‘Y Llaw’

Gwnaed y dasg hon ar ôl i’r athrawes ddarllen y stori ‘Y Llaw’ gan Guy De Maupassant gyda’r dosbarth. Roedd y disgyblion wedi trafod y stori mewn parau ar ôl y darlleniad a’u tasg ysgrifenedig oedd ailadrodd cynnwys y stori yn y cwestiwn cyntaf a nodi eu barn yn yr ail. Roedd yr athrawes wedi gofyn iddyn nhw ddyfynnu eu hoff ddisgrifiad o’r stori gan nodi pam ei fod yn effeithiol.

Mae Helen wedi llwyddo i godi gwybodaeth o’r stori er nad yw bob amser yn ei fynegi’n gydlynus, er enghraifft, ‘Roedd y ddau wedi cwrdd pan oedd nhw yn saethu ffesants a roedd e’n cwrtais iawn.’ Mae’n cyfeirio at y prif ddigwyddiadau ac yn mynegi barn am y math o stori ydyw, er enghraifft, ‘Rydw i’n hoffi storriau sydd yn hela chi feddwl beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen ac mae hon wedi gwneud fi i feddwl am y llaw’. Yn y trydydd cwestiwn, mae Helen wedi dewis dyfyniad pwrpasol a chyfeirir at yr ansoddeiriau sydd yn y frawddeg, ond nid yw’n cyfeirio at eu perthnasedd. Er hynny, mae yma ddealltwriaeth o elfennau arddull ac mae’n ceisio nodi beth yw eu heffaith, er enghraifft, ‘mae e’n rhoi llun yn eich meddwl o’r dyn mawr ma gyda gwallt fel tan’.

Y Claw – Gwaith dosbarth

1. Ar ddechrau'r stori mae dictectif yn chwilio beth sydd yn digwydd pan mae pethau dydy e ddim yn deall. Mae e'n dweud yn y stori am ddictectif o'r enw Mr Barnutier yn byw mewn bwthyn bach yn Ajacco, Corsica. Roedd e wedi cwrdd â dyn a oedd aelod seneddol oedd yn ddyn od iawn. Roedd y ddau wedi cwrdd pan oedden nhw yn saethu ffesants a roedd e'n cwrtais iawn. Wedyn mae'r stori'n mynd mlaen i sôn am y drylliau (guns) oedd da fe yn y tŷ a pethe eraill fel pethe yn hongian ar y walydd. Mae llaw du ar y wal mewn ffrâm. Ei elyn mwyaf fe yw e ac mae e wedi torri ei law i ffwrdd ac wedi ei sticio ar y wal. Mae e'n edrych yn erchill ewinedd hir melyn a gwaed wedi sychu hefyd. Wedyn ar ôl amser fe gafodd Syr John ei ladd gyda'r llaw achos roedd ewille yn ei waddu fe a roedd y llaw wedi mynd o'r wal a gwaed mor yn gwaed i gyd. Roedd y dyn odd bia'r llaw wedi dod nol ac wedi lladd y dyn a wedi mynd â'r llaw.

*(margin: ? — ychydig yn ddryslyd fan hyn ✓ ✓✓)*

2. Roedd y stori yn dda iawn achos chi ddim yn gweld yn iawn beth sydd wedi digwydd a mae e'n erchill yn y diwedd pan ma fe'n cael (eu) ladd. Rydw i'n hoffi storiau sydd yn helpu chi feddwl beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen ac mae hon wedi gwneud fi i feddwl am y llaw. Roedd y llun o'r llaw yn dda iawn hefyd.

*(margin: Da ✓✓)*

3. Fi'n hoffi'r frawddeg "Roedd yn ddyn mawr cryf gyda barf a gwallt fflamgoch ac yn atgoffa rhywun o Hercules," achos mae e'n rhoi llun yn eich meddwl o'r dyn mawr gyda gwallt fel tân. ✓✓ Mae tri ansoddair yma – cryf a mawr a fflamgoch i ddisgrifio'r dyn. Mae'r dyn yn gryf hefyd achos mae e fel Hecules yn ddyn cryf iawn ac yn fawr iawn."

*(margin: ydyn nhw'n ansoddeiriau sydd yn effeithiol fan hyn?)*

*Ymgais dda Helen. Mae'n amlwg dy fod wedi mwynhau'r stori yn dy ateb i'r ail gwestiwn.*

## Gweithgaredd 18 | Darn ffeithiol/mynegi barn: Tyllu corff

Roedd y gweithgaredd hwn yn seiliedig ar erthygl i'w rhoi ar wefan 'Cadw'n Iach'. Roedd yr athrawes wedi rhoi'r erthygl ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol ynghyd â'r cwestiynau.

Mae Helen wedi llwyddo i ateb y cwestiwn cyntaf ar addasrwydd y dudalen wefan gan fynegi ei barn yn glir. Mae'n cyfeirio at nifer o dechnegau sy'n ymwneud â ffurf gwefan megis pwyntiau bwled, pwysigrwydd lluniau a hyd testun, er enghraifft:

> Mae e'n ddarn eithaf byr a ma hwnnw'n beth da i fod ar wefan achos dydych chi ddim eisiau darllen gormod o flaen y sgrin. Rwy'n hoffi'r ffordd mae pobl wedi dweud ei barn ar y diwedd ond allen nhw wedi rhoi mwy o liniau yn y dudalen.

Nid yw Helen wedi llwyddo i gadw at ofyniad Cwestiwn 3, sef cofnodi'r peryglon mwyaf 'yn ôl y darn'. Er ei bod wedi nodi beth yw'r peryglon mwyaf, er enghraifft, 'rydych chi'n gallu cael sist, haint . . . os nad ych chi'n ofalus', mae'n mynd yn ei blaen i nodi'r hyn ddigwyddodd i'w ffrind pan oedd ei 'chlust hi wedi mynd yn wael'. Mae'n llwyddo i fynegi barn ar sylwadau pobl eraill, gan fynegi ei barn ei hun yn ogystal, ond braidd yn ddryslyd yw ei dadansoddiad o farn Menna.

**Taflen Waith Blwyddyn 9**

**Darn darllen – Tyllu'r Corff**

*1.Beth yw eich barn am y darn hwn? Ydy hi'n dudalen wefan dda?*

Mae'r darn yn un diddorol achos mae llawer o bobl wi'n nabod yn mynd i gael tyllau yn ei clustiau a rhai wedi i cael nhw ers Blwyddyn 6. Mae e'n ddarn eithaf byr a ma hwnnw'n beth da i fod ar wefan achos dydych chi ddim eisiau darllen gormod o flaen y sgrin. Rwy'n hoffi'r ffordd mae pobl wedi dweud ei barn ar y diwedd ond allen nhw wedi rhoi mwy o liniau yn y dudalen. Mae'n bwysig iawn cael lluniau achos rydych chi'n gallu gwled y peth yn syth ac mae llai i ddarllen. Mae e'n edrych yn bach yn boring fel hyn. Mae pwyntiau bwlet hefyd yn gwneud i'r wybodaeth i sticio allan yn gloiach.

Sut mae llun yn dweud mwy na geiriau?

*2.Rhowch ychydig o hanes yr arferiad.*

Mae'r darn yn dweud fod e'n peth eithaf hen i fod yn tyllu'r corff. Roedd hyd yn oed yr Eifftiaid wedi gwneud e ac roedd milwyr Rhufienig yn 'rhoi pigau yn eu bronnau'. Roedd nhw'n meddwl ei fod e'n edrych yn bert.

Roedden nhw / Roedd ef/hi

*3.Yn ôl y darn, beth yw'r peryglon mwyaf?*

Mae'r darn yn dweud ei fod e'n beryglus yn gallu bod achos rydych chi'n gallu cael sist, haint bacteria a dematitis a hepatitis B a C os nad ydych chi'n ofalus. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio nodwyddau wedi ei steryllu. Mae ffrind fi wedi gorfod mynd at y doctor achos roedd ei chlust hi wedi mynd yn wael ac roedd e wedi whyddo i gyd. Doedd hi ddim wedi bod yn glanhau eu chlustiau yn ddigon da.

chwyddo

ei – un / eu – mwy na gwn

yn ôl y darn

*4.Ydych chi'n cytuno gyda'r tri sydd yn mynegi barn ar ddiwedd y darn? Nodwch beth yw eu barn a dywedwch a oeddech chi'n cytuno â'r farn honno.*

**Menna**

Mae Menna wedi cael lot o dylle - 6 i gyd a dim ond 15 oed yw hi. Mae hi'n dweud fod pobl yn edrych arni hi o hyd ond mewn ffordd ei bai hi yw hyn i gyd. Mae hi'n iawn yn dweud fod tatws yn fwy perylglis achos ma tyllau yn gallu cau.

tatŵs / tatws – mae gwahaniaeth mawr!

**Grace**

Mae hi'n credu dylse pobl sydd yn cael babis a rhoi tatws iddyn nhw gael dirwy a ma hi'n dweud ei bod nhw yn 'edrych yn gomon' Rwy'n meddwl bod hi'n iawn.

**Bleddyn**

Rwy'n cytuno gyda Bleddyn a gweud y gwir mae e yn dweud fod e ddim yn becso lot amdanynt nhw ac mae e'n gofyn cwestiwn doniol fel ' Beth mae'n nhw'n ei wneud pan ma'n nhw'n cael annwyd? Mae e'n disgrifio nhw fel tarw a thylla yn eu drwyn.

Mae'n amlwg dy fod wedi deall y darn ac rwyt ti wedi llwyddo i fynegi dy farn di hefyd.

Ymdrech dda iawn Helen – yn enwedig y cwestiwn cyntaf.

## Gweithgaredd 19 | Ysgrifennu Portread: Nana

Gosodwyd y dasg hon i waith cartref. Roedd y disgyblion wedi cael canllawiau ar ffurf portread mewn gwers flaenorol.

Mae Helen yn y dasg hon yn dangos fod ganddi afael reit dda ar ffurf y portread a disgrifir cefndir Nana i'r darllenydd yn effeithiol. Mae'n ddarn diddorol o ran cynnwys a llwyddir i ddefnyddio paragraffau'n briodol yma. Nid yw'n amrywio llawer ar ei brawddegau er hynny a cheir nifer o ymadroddion Seisnig ei naws yn ei gwaith er enghraifft, 'dydy hi ddim gyda gwaith' a 'fi yn gallu siarad i hi'. Er hynny, mae'n dangos cryn synwyrusrwydd o bryd i'w gilydd, 'Mae Nana dal heb ddod dros hwnna', wrth sôn am farwolaeth ei gŵr yn yr Ail Ryfel Byd. Mae'n ceisio defnyddio cymariaethau yn ei gwaith i ddal sylw, 'llygaid glas gwyrdd fel y mor', 'cerdded yn gloi fel mellten rownd y lle'. Mae hwn yn ddarn effeithiol sy'n cyflwyno gwybodaeth ond eto'n mynegi profiadau personol.

## Portread o Nana

Enw iawn Nana yw Cathrerine Enoch ond mae pawb yn galw hi yn Katy yn y stryd. Sain gwbod pam fod hyn wedi digwydd ond mae Katy yn hawddach i ddweud siŵr o fod. Mae hi'n 76 mlwydd oed, dydy hi ddim gyda gwaith - dim ond helpu rownd y tŷ. does dim llawer o hobiau gyda Nana dim ond mynd i whist a'r bingo. Mae hi'n hoffi darllen papurau fel y Western Mail a papur bro ond so hi'n darllen lot fawr o llyfre.

Mae fy nain yn special i fi oherwydd fi yn gallu siarad i hi am bethau ac ma hi'n sorto pethe mas. Os chi mewn trafferth, chi'n gallu mynd at hi am help. Dyw hi ddim yn gweud popeth wrth mam a ma hwnna'n beth da iawn. Mae hi'n dda i gadw cyfrinach. Mae hi yn sôn am y ail ryfel byd o hyd ac o hyd a mae e'n drist iawn bod hi'n sôn am hwnna achos roedd hi wedi colli ei gŵr – Tommy – fy tad-cu yn y rhyfel. Roedd e yn henach na hi ac roedd e wedi cael ei ladd yn Ffrainc yn y 1940s. Mae Nana dal heb ddod dros hwnna. // Paragraff da.

Mae hi gyda gwallt gwyn fel y eira a croen llyfn fel sidan. Mae hi yn fach fel fi o ran uchtra ond ma hi'n gallu cerdded yn gloi fel mellten rownd y lle. Mae gyda hi llygaid glas gwyrdd fel y môr a ma hi wastad yn bwyta Extra Strong o hyd ac o hyd. Mae hi byth wedi trial bwyd indian achos mae hi ddim yn hoffi pethe cryf a spicy. Mae hi'n bwyta lot o gig moch a wy. Mae hi'n cael mwy o ffwdan nawr i gerdded achos mae ei penglin hi'n wael ond mae'n mynd mas rownd y dre gyda' ... ?

* Gofala Helen nad wyt ti'n ysgrifennu'n rhy dafodieithol – fel yr wyt ti'n siarad
* Gwylia ddechrau gormod o frawddegau gyda 'Mae hi...'

OND

Portread hynod o sensitif a chynnes. Da iawn ti

## Gweithgaredd 20 a 21 | Cyfweliad a rysáit: Cyfweliad dychmygol gyda chogydd (tafodiaith y De a'r Gogledd) ac ysgrifennu rysáit

Roedd y dosbarth wedi gweld clip o raglen *Chez Nous* ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol ac yn dilyn hyn roedden nhw wedi bod yn trafod eu hoff fwydydd. Wedyn, gofynnwyd i'r dosbarth gyflawni dwy dasg ysgrifenedig – un dasg fer, sef cynnal cyfweliad gyda'r cogydd, Bryn Williams, a'r dasg arall oedd llunio rysáit y gallai cyngor yr ysgol roi gerbron staff y ffreutur. I gyflawni'r dasg gyntaf, darllenodd y dosbarth wybodaeth am y cogydd oddi ar y wefan Gymraeg www.s4c.co.uk/chezdudley/c_judges_bryn.shtml. Ceisiodd yr athrawes annog y disgyblion i ddefnyddio tafodiaith a oedd yn addas i'r holwr ac i'r sawl oedd yn ateb. Tasg a wnaed yn yr ysgol oedd y cyfweliad, ond gwaith cartref oedd y rysáit.

Gwaith dosbarth     Cyfweliad gyda chogydd enwog.

Helen: Ble wyt ti'n byw nawr?

Bryn: Yn Llundain ond rwy'n wreiddiol o Ddinbych.

Helen: Sut ddechreuodd y diddordeb mewn bwyd.

Bryn: Pan oedd fi yn ddeg oed, ar ôl fe es i bakery Alwyn Thomas yn Ninbych. Fe ges i wersi ar sut i wneud bara ac wedyn fe ddechreues i weithio yno.

(wn) (hynny)

Helen: Ble es ti i'r ysgol?

Bryn: Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy.

Helen: Beth wnes ti ar ôl gadael yr ysgol?

Bryn: Ges i waith yn bwyty Marco Pierre White yn Llundain a wedyn i "Le Gavroche".

Helen: Beth wnes ti wedyn?

Bryn: Symudes i i Lundain a bues i'n llwyddiannus iawn yn y gyfres Great British Menu, i wneud bwyd i'r frenhines pan oedd hi'n wythdeg.

Helen: Odd e'n sbort. ?

Bryn: Oedd.

Helen: Beth wnes ti goginio?

Bryn: Wnes i iwso pethe o Gymru - biff o Gymru a bara brith.

Helen: Pam?

Bryn: Achos mae nhw yn fwy ffresh achos mae nhw yn lleol. Wi'n hoffi defnyddio pethe sydd i gal yn yr ardal.

Helen: Diolch yn fawr.

Bryn: Diolch.

Efallai mai (rydw) a (cael) fyddai rhywun o Ddinbych yn ei ddweud

maen nhw   cofia

Cwestiynau da Helen.

Yn y cyfweliad, mae Helen yn llwyddo i ofyn llawer o gwestiynau perthnasol, gan ddefnyddio'r daflen wybodaeth yn effeithiol. Mae'r atalnodi a'r treiglo'n gywir ar y cyfan. Mae ambell lithriad gyda'r berfau, er enghraifft, 'pan oedd fi yn ddeg oed', ond mae'n debyg mai gorddefnydd o'r daflen sy'n gyfrifol am hyn. Dydy hi ddim bob amser yn chwilio am y gair Cymraeg am bethau, er enghraifft, 'iwso', 'bakery', 'fresh', ac yn aml nid yw Helen yn llwyddo i ddefnyddio tafodiaith y Gogledd pan fydd Bryn yn siarad, er enghraifft, 'pan odd hi'n', 'Wi'n hoffi defnyddio pethe sydd i gal yn yr ardal'. Defnyddia Helen y ffurf 'ti' ac nid 'chi' yn y cyfweliad.

Wrth lunio'r rysáit, mae Helen yn llwyddo i ddefnyddio ffurfiau gorchmynnol y ferf yn effeithiol. Mae hi'n sillafu y mwyafrif o'r geiriau'n gywir ond mae'n cael trafferth gyda'r rhagenw unigol, 'ei', a'r lluosog, 'eu'.

## Gwaith Cartref

Rysait - rwyf yn hoffi cawl orau a dyma beth rwy'n credu y dylai menwod y gegin wneud i ni amser cinio.

**Rysait Cawl**

**Cynwysion**

Pys wedi ei socian y noson gynt
1½ pwys o gig oen Gymreig - wedi'i dorri'n sgwariau bach
700 g/1½ pwys o datws - wedi'i dorri'n ddarnau bach
225 g/8 owns o bannas - wedi'u torri'n fân
225 g/8 owns o foron - wedi'u dorri'n fân
225 g/8 owns o swêdj - wedi'u dorri'n fân
½ bresych - wedi shreddo
2 genhinen - wedi'i dorri'n fân
1 winwnsyn - wedi'i torri'n fân
4 peint o ddwr
4 llwy bwrdd o bersli ffres - wedi'i dorri'n fân
halen a phupur

gan fod llawer ohonynt – eu



**Dull**

- Browniwch y cig yn ysgafn mewn padell ffrio a chewch wared y saim.
- Berwch y dwr a ychwanegwch y cig ato.
- Ar ôl ½ awr ychwanegwch y llysiau.
- Coginiwch yn araf am tua 2 awr neu fwy yn dibynnu pwy mor galed yw'r llysiau.
- Blaswch y cawl cyn eu weini rhag ofn bod angen mwy o halen a pupur.
- Rhowch bersli ar ben y cawl cyn ei roi yn y bowlenni.

Da iawn ti. Mae'n swnio'n flasus iawn!

**Helen** 9T

## Gweithgaredd 22 | Adroddiad papur newydd: Deillion yn chwarae pêl-droed

Fel rhan o'u gwaith ar drafod y synhwyrau, roedd y disgyblion wedi bod yn trafod y problemau yr oedd plant a phobl yn eu cael os nad oedd pob un o'r synhwyrau ganddyn nhw. Gofynnwyd i'r disgyblion lunio adroddiad papur newydd ar gamp neu chwaraeon lle yr oedd pobl wedi goresgyn eu problemau. Roedd yr athrawes wedi cynnig nifer o syniadau i'r dosbarth.

Penderfynodd Helen ysgrifennu'r darn hwn ar ôl i'r athrawes gynnig y syniad iddi. Aeth hi i ymchwilio ar wefan www.news.bbc.co.uk/1/hi/world/americas/6179458.stm ac yna aeth ati i drawsieithu er mwyn llunio'r adroddiad. Defnyddiodd 'CysGair' i ganfod ambell air fel 'dyfarnwr' a 'gôl geidwad'.

Cafodd wybodaeth ychwanegol o'r gwefan hyn:

www.thefa.com

Mae'n ddarn cydlynus a threfnus. Mae Helen wedi llwyddo i lunio penawdau addas, ac mae hi wedi defnyddio dyfyniadau i fywiocáu'r mynegiant a dewis delweddau addas i gyd-fynd â'r naratif. Er ei bod yn sillafu'r rhan fwyaf o'r geiriau sydd o fewn cylch ei phrofiad yn gywir, nid yw'n sillafu geiriau afreolaidd fel 'enillodd' a 'cystadleuaeth' yn gywir bob amser.

# Buenos Aires!

## Dim cwpan y byd cyffredin

## Cwpan y byd i'r dall

Does neb yn cael gweiddi yn rhy uchel!

Mae pob un o'r chwaraewyr yma yn ddall, hyd yn oed y gôl geidwad! Pob pedair blwyddyn, mae chwaraewyr yn cystadlu am y cwpan mewn cystadleiaeth yn Buenos Airies, Ariannin. Mae'r cystadlu yn gallu bod yn gas iawn hyd yn oed mewn gêm i bobl ddall.



Ennillodd Brasil 4-1 yn erbyn Ffrainc dydd Gwener wrth i'r cystadleiaeth ddechrau ar gwrt syment llai na cae pêl-droed cyffredin. Mae'r cae yn mesur 22x42 metr.

Does dim porfa yn gallu bod achos mae'n rhaid iddynt chwarae ar gwrt caled.
Sut ma nw'n gwybod ble mae'r bel rydych chi'n holi? Mae'r chwaraewyr dall yn clywed sŵn metel tu mewn i'r bel ac yn mynd ar ôl y swn.

Mae nhw yn gwisgo'r chwaraewyr gyda pads ar eu braich fel bo nhw ddim yn cael dolur a hefyd yn gwisgo masgiau llygaid i amddiffyn.

Mae e'n od fod nhw yn gwybod ble mae'r bel ac yn gwybod ble mae'r chwareuwyr eraill ar y maes ond dywedodd un dyn ." Mae eu clustiau yn llygaid iddin nhw" " Maent ambell waith yn cicio'r bêl yn galed i mewn i'r goliau.

Mae y dyfarnwr ambell waith yn stopio'r dyrfa achos eu bod nhw'n gwneud gormod o sŵn a dyw'r chwareuwyr ddim yn gallu clywed y bel fach yn canu!

Problem arall yw fod traffordd a maes awyr ar bwys y cae.
Roedd un bachgen o'r enw Sebastian Acminit yn chwarae dydd Gwener ac mae e wedi bod yn ddall ers ei fod yn ddouddeg oed. Dywedodd e,

'Ar y dechrau on ni'n becso am redeg yn gyflym heb allu gweld dim ond nawr rwy'n becso dim'



Arddechog Helen. Erthygl hynod o ddiddorol.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Cafodd Helen gyfle i ddarllen symbyliadau llenyddol ac anllenyddol, gan ystyried y sefyllfaoedd y darllenir amdanyn nhw. Mae hi'n ymateb i gân a cherdd Tecwyn Ifan yn eithaf llwyddiannus a cheir ganddi ambell sylw aeddfed, er nad yw'n ymhelaethu ar rai pwyntiau. Er hynny, mae'n llwyddo i fynegi barn bersonol yn y dasg hon, gan *ddangos dealltwriaeth o'r hyn sydd ymhlyg* yn y gerdd a dod i gasgliad priodol sy'n un o nodweddion Lefel 5. Mae ei pherfformiad wrth drafod y llinyn storïol neu'r plot mewn testunau ar y cyfan yn llawer gwell na'i sgìl o ddadansoddi arddull. Gall gyfeirio at nodweddion arddull a'u labelu o dro i dro, ond nid yw'n cyfeirio at berthnasedd yr elfennau hyn a'r effaith maen nhw'n eu cael ar y darllenydd. Dydy hi ddim yn cyfeirio at y technegau hyn i *gefnogi safbwynt* sef un o nodweddion Lefel 5.

Wrth ymateb i ddarnau anllenyddol, mae Helen yn llwyddo i gywain gwybodaeth o'r darnau, gan ddewis a dethol y ffeithiau mwyaf perthnasol. Mae'n llwyddo i ddwyn i gof sylwadau disgyblion eraill, gan ymateb yn eithaf aeddfed i'w barn.

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Helen wedi ysgrifennu mewn nifer o wahanol ffurfiau, gan gynnwys portread, cyfres o gyfarwyddiadau, erthygl i bapur newydd a chyfweliad. Mae'n dangos ei bod yn gyfarwydd â'r ffurfiau hyn a'i bod yn ysgrifennu'n hyderus. Mae ganddi *afael sicr ar ffurf* sy'n nodwedd o Lefel 5. Mae hi wedi datblygu arddull bersonol wrth lunio disgrifiadau ac mae'n dangos peth *gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion* sydd eto yn nodwedd o Lefel 5. Mae ei hysgrifennu'n ddiddorol, er enghraifft, y portread o Nana a llwyddodd yn sicr i ddal sylw'r darllenydd yn yr erthygl. Gall felly *ysgrifennu'n glir, yn amrywiol ac yn ddiddorol* sydd oll yn nodweddion o Lefel 5.

Ar y cyfan, mae trefn ac adeiladwaith yn ei gwaith a llwyddodd i *baragraffu'n* reit llwyddiannus sy'n nodwedd o berfformiad ar Lefel 5. Mae'n llwyddo i wahaniaethu rhwng ffurfiau ysgrifenedig yr iaith safonol a ffurfiau tafodieithol er nad yw'n gyson bob tro.

Mae Helen yn sillafu'r rhan fwyaf o'r geiriau sydd o fewn cylch ei phrofiad yn gywir ond nid yw bob amser yn defnyddio'r gair Cymraeg – mae'n troi i'r Saesneg am eiriau megis 'special' a 'bakery'. Mae ei defnydd o ferfau yn eithaf sicr ar y cyfan ac mae'n ceisio amrywio ei chystrawennau; er hynny, mae'n cael trafferth gyda'r rhagenw unigol, 'ei', a'r lluosog, 'eu'. Gwelir rhai elfennau o Lefel 4 yng ngwaith Helen o dro i dro, yn enwedig yn ei defnydd o iaith. Mae'n *ysgrifennu geiriau yn eu ffurf ysgrifenedig safonol lle bo'n briodol a threiglo'n gywir ar adegau* (nodwedd o Lefel 4). Nid yw'n *treiglo'n gywir fel rheol* (nodwedd o Lefel 5). Nid yw bob amser yn ymwybodol o natur ei chynulleidfa ychwaith – defnyddia ffurf yr ail berson yn y cyfweliad er nad yw'n gyfarwydd â'r cogydd, Bryn Williams.

Mae'n bosib mai'r darn gorau o waith Helen yn y proffil hwn yw'r adroddiad papur newydd ar y deillion yn chwarae pêl-droed. Dewisodd ffurf addas i'r pwrpas ac mae'n *ymwybodol o natur ei chynulleidfa* (nodwedd o Lefel 5). Mae'n ddarn cydlynus a threfnus a llwyddodd i lunio penawdau addas a defnyddio dyfyniadau er mwyn cyflwyno gwybodaeth a bywiocáu'r mynegiant. Mae ei gwaith yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n effeithiol (nodwedd o Lefel 5).

Cyfnod Allweddol 3 | # Jac | **Lefel 6**

Mae Jac yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Jac nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion yng ngwaith Jac ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Jac o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn Darllen ac Ysgrifennu.

## Darllen ac Ysgrifennu

### Gweithgaredd 23 | 'Y Plas Gwag'

Bu'r dosbarth yn astudio thema 'Ias a Chyffro' ar ddechrau Blwyddyn 9 ac fe ddarllenwyd cerdd 'Y Plas Gwag' gan Emrys Parry, fel rhan o'r thema honno. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau ar y gerdd – rhai ohonyn nhw'n gwestiynau ar y cynnwys a'r lleill yn gwestiynau ar arddull a thechneg y bardd.

Mae Jac yn dangos dealltwriaeth o'r gerdd yn y cwestiynau cychwynnol, er enghraifft, 'mae'r bardd yn dweud wrthym fod y plentyn wedi cael her gan un o'i ffrindiau' ac 'Roedd hi'n noson gymylog a gwyntog a'i unig gwmpeini oedd golau'r lleuad a thylluan', ond yn aml, mae'n tueddu i ailadrodd y cynnwys heb lwyddo bob tro i fynd o dan groen y gerdd. Er i Jac fedru adnabod rhai nodweddion arddull gan gyfeirio at y testun, nid yw'n llwyddo bob amser i egluro effeithiolrwydd rhai o'r technegau yn llawn, er enghraifft, 'fel speit gwarchod sy'n ddisgrifiad da o'r drws yn agor'. Mae'n cefnogi ei safbwynt gyda thystiolaeth a dyfyniadau, er enghraifft, 'Lleiain ddwys a llonydd wedd yn welw wen o'm blaen' oedd fy hoff ddisgrifiad oherwydd ei fod yn codi ofn arnaf'.

Gwaith Dosbarth 15 o fawrth 2006

Y plas Gwag gan Emrys Roberts

1. Mae'r gerdd yn agor wrth ddisgrifio'r tywydd yn gymylog ac yn wyntog. Mae'r bardd hefyd yn dweud bod yr hogyn ar ben ei hun. Mae'n dangos hwn wrth ddweud "Lleuad a thylluan unig oedd fy nghwmpeini".
2. Yn y ail gerdd mae'r bardd yn dweud wrthym bod y plentyn wedi cael her gan un o'i ffrindiau wrth ddweud "Fentri di ddim yna, betia i di bunt!" Mae o hefyd yn dweud bod y geiriau yn "eco" yn ei feddwl ac ei fod yn cychwyn cerdded tuag at y tŷ.
Pennill fer iawn ywr trydydd. Mae'n dweud fod yr hogyn wedi agor y drws gan roddi "hir wich fel sgrech gwrachod". Mae hyn yn effeithiol am ei fod wedi defnyddio cymhariaeth.
Yn y pedwerydd pennill, mae'r plentyn yn "ymgwisgli" cyn crwydro o amgylch y plas. Mae yna "gyrten o we pry cop" ar y tŷ. Mae hyn yn dangos does neb wedi bod yno ers oesoedd.
Yn y pumed bennill, mae'r bachgen yn clywed sŵn "llusgo cadwyn". Ar ôl hyn mae'n gweld "llygaid llwyd a llonydd".
Yn y bennill olaf. Mae'r bardd yn disgrifio faint o ofn roedd y plentyn wrth ddweud "Fel ci gwyllt y ffoais". Mae'r clo yn effeithiol iawn gan bod ychydig o hiwmor ynddo.
3. Roedd hi'n noson gymylog a gwyntog a'i unig gwmpeini oedd golau'r lleuad a thylluan. Roedd cerrig oer, sgrech arswydus. Mae rhai penillion yn fer a rhai yn hir mewn cerdd penrhydd.
4. Mesur y gerdd yw penrhydd, does dim maint angenrheidiol i bob pennill, mae ychydig o iaith lafar, does dim odl ynddi, mae'n defnyddio ansoddeiriau da e.e tylluan unig, plas bwganllyd, cerrig oer, sgrech arswydus. Mae rhai penillion yn fer a rhai yn hir mewn cerdd penrhydd.
5. Mae llawer o gymhariaethau yn y gerdd e.e fel sgrech gwrachod sy'n ddisgrifiad da o'r drws yn agor. Mae'r gymhariaeth "fel ci gwallgo ffoais" yn dangos ei fod yn rhedeg yn gyflym.
6. Mae'r cyflythrennu yn y gerdd yn ei wneud yn effeithiol oherwydd ei bod yn creu awyrgylch e.e tywyllwch tamp "y wyllt gan gyfarthiad y gwynt" "Llygaid llwyd a llonydd wedd yn wely wen o'm blaen" oedd fy hoff ddisgrifiad oherwydd ei fod yn codi ofn arnaf. Ysbryd oedd y lleian.

## Gweithgaredd 24 | Darllen anllenyddol: Iach yw Croen Pob Cachgi

Darllenodd Jac y darn anllenyddol hwn yn unigol yn y dosbarth. Fel gwaith cartref, roedd disgwyl iddo nodi beth oedd agwedd yr awdur tuag at y testun. Roedd yr athrawes wedi pwysleisio wrth y disgyblion fod angen iddyn nhw ddyfynnu a chefnogi barn gyda thystiolaeth o'r darn yn eu hymatebion.

Mae Jac yn dehongli barn yr awdur yn gywir – mae'n llwyddo i nodi fod yr awdur 'braidd yn snobyddlyd' gan 'edrych i lawr ei thrwyn' ar bobl sy'n mynd ar y reidiau cyflym yma. Mae'n cefnogi ei farn gyda thystiolaeth o'r darn ac mae'n dyfynnu'n bwrpasol ac yn gyson. Mae'n mynegi ei farn bersonol am y darn: 'a galla i weld pam y basen nhw'n deud hyn'. Mae'n llwyddo i grynhoi barn yr awdur ar y diwedd: 'Ar y diwadd mae hi'n cyfaddef fod y peiriannau hyn yn ddiogel ond wedyn mae hi'n meddwl y bysa well iddi ddeud rhywbath arall cas'.

Gwaith cartref

Trafodwch agwedd yr awdur yn y darn 'Iach yw croen pob cachgi'

Agwedd braidd yn snobyddlyd sydd gan y ddynes yma at y parciau antur yma. Mae hi'n edych i lawr ei thrwyn ar bobl sydd yn mynd i'r ffasiwn lefydd. Dydy hi ddim yn gallu dallt pam mai'r bobl yma yn hoffi cael ei dychryn. Mae hi'n mynd ymlaen i ddeud nad ydy hi'n meddwl bod nhw'n gall o gwbl. Mae'n amlwg yn ddynes dramatig iawn achos mae hi'n disgrifio'r profiad o 'gael eich hyrddio i'r awyr fel mellten, cael ei taflu o ochr i ochr a'ch taflu ben i waered.' Mae hi'n gweld y bobl yma yn 'wirion' ddim yn gall ac yn dwp. Dim ond unwaith mae hi wedi bod ar y reids yma felly mae rhywun yn meddwl a ydy hi wedi cael digon o experience yn y petha yma. ~~Mae ei ffr~~

Mae ei ffrindiau hi hefyd yn meddwl ei bod hi'n 'gachgi' a galla i weld pam y basen nhw'n deud hyn. Chwarae teg mae hi wedi bod yn darllen amdan y pethau hyn. Mae llawer o wybodaeth ganddi am y egni cinetig yn cael eu rhyddhau a'r disgyrchiant sydd 'yn peri i'r cerbyd ddod i lawr yn gyflym'. Mae'n eithaf diddorol hefyd pan mae hi'n dweud am y reids hyn yn cael eu 'cynllunio i edrych yn fwy bregus nag y maen nhw mewn gwirionedd' ei bod nhw'n gwneud iddynt nhw gwichian a ballu er mwyn dangos po mor hen ydan nhw. Mae hi'n eithaf 'boastful' hefyd pan mae hi'n dweud 'Rhag ofn i chi feddwl fy mod i'n gwybod ~~dy~~ dim amdanyn nhw, dyma rai ffeithiau i chi' sydd yn gwneud i ni deimlo'n reit dwp. Mae hi fel athrawes yma yn dweud 'Blant, rydach chi'n dwp.'

Ar y diwedd mae hi'n cyfaddef fod y peiriannau hyn yn ddiogel ond wedyn mae hi'n meddwl y bysa well iddi ddeud rhywbeth arall cas - 'alla i ddim llai na meddwl fod y peiriannau hyn yn gwneud ~~d~~ich cefn ac ich gwddf.' bod

Rwyt ti wedi dehongli barn awdur yr erthygl yn [illegible] iawn a [illegible] dyfyniadau o'r darn gwreiddiol yn gryno.

## Gweithgaredd 25 | Cymharu dwy stori feicro

Roedd yr athrawes wedi trafod crefft ysgrifennu'n gynnil gyda'r disgyblion ac wedi dewis y ddwy stori hyn i'w trafod. Gwnaed y dasg hon yn hwyr ym Mlwyddyn 9.

Mae Jac wedi ymateb yn bositif iawn i'r dasg ac wedi llwyddo i ddeall cynnwys y ddwy stori yn llwyr. Ceir trafodaeth aeddfed ar gynnwys ac arwyddocâd y stori feicro gyntaf ac mae Jac wedi llwyddo i adnabod elfennau tafodieithol, er enghraifft, 'Mae'r iaith yn ogleddol yma 'Fedar hi ddim disgwyl', ond ddim o hyd achos mae 'clustiau' yma ac nid 'clustia' '. Mae'n llwyddo i fynegi barn yn bersonol, er enghraifft, 'Mae'r diweddglo yn drist iawn yn fy marn i ' . . . ond yma Mari yw'r ddeilen ac mae wedi troi yn hen cyn pryd.' Mae'n llwyddo i gymharu'r ddwy gerdd yn effeithiol er nad yw'n ymhelaethu bob amser a rhoi rhesymau digonol dros ei farn.

Gwaith Dosbarth    Chwefror 22 2006

Cymharu dwy stori feicro

Mae'r ddwy stori yn trafod ieuenctid. Mae 'Hi Hen Eleni Ganed' yn dangos beth mae Mari yn ei ddymuno cael - bra, sodlau uchel a sgert ffri ddu a gwyn. Mae hi eisiau efelychu Madonna a Britney Spears ond y peth fwyaf erchyll am y peth yw mae dim ond saith ydy hi. Dydyn ni ddim yn cael gwybod hyn tan y diwedd ac mae'r peth yn dod yn sioc i chi. Mae'r stori yn eich gwneud chi i feddwl am bobl ifanc heddiw yn swnian am bethau ac yn tyfu cyn eu bod nhw'n gall. Mae'r diweddglo yn drist iawn yn fy marn i. Mae'r awdur wedi defnyddio teitl da i'r stori hefyd - mae'r dyfyniad wedi dod o gerdd hen Cerdd Llywarch Hen, ac mae'n cyfeirio at ddeilen ond yma Mari yw'r ddeilen ac mae wedi troi yn hen cyn pryd. Mae'r iaith yn ogleddol yma 'fedar hi ddim disgwyl' ond ddim o hyd achos mae 'clustiau' yma ac nid 'clustia'. Mae llawer o ailadrodd 'Mae' ar ddechrau brawddegau yma.

Mae'r ail stori yn hollol wahanol i Hi Hen Eleni Ganed. Mae ychydig o ansicrwydd yma eto beth sy'n digwydd yn y diwedd ond rydyn ni'n deall wedyn mae chwarae rygbi mae Gwawr yn y stori ac mae'r lleill yn methu ei thaclo hi achos mae hi'n gorwedd ar y llawr fel pelen. Mae'r awdur yn galw'r bel yn 'wy' sydd ddim yn wir newydd o ran disgrifiad. Yn y canol mae hi'n cymharu'r gem gyda byddin. Mae mwy o ddisgrifiadau yn hon na sydd yn y stori

arall ac mae fwy o ~~ddisgrifiadau~~ drosiadau 'Miloedd o gywion bach gwyrdd' ac enghraifft o gymhariaeth 'fel fflach o fellten'. Mae sgwrs yma ar y diwedd yn iaith y de sydd yn wahanol i'r gyntaf.

Mae'n well gin i yr un cyntaf achos mae hi'n fwy syml ac mae'r neges yn well. Does dim llawer o neges yn yr ail un. Mae teitl yr un gyntaf yn well na'r teitl yma hefyd.

## Gweithgaredd 26 | Cerdd yn seiliedig ar 'Mewn car drwy gawod'

Roedd y dosbarth wedi darllen y gerdd, 'Mewn car drwy gawod' gan John Gwilym Jones. Gofynnwyd iddyn nhw sylwi ar dechneg y gerdd – ei hadeiladwaith, y defnydd o gyflythreniad, o bersonoli ac ailadrodd. Tasg Jac a'i gyd-ddisgyblion oedd creu cerdd gan ddefnyddio'r arddodiaid, 'mewn . . . ', 'drwy . . . ' fel sbardun i'w cerddi nhw Roedd yr athrawes wedi dweud wrth y disgyblion am feddwl am ddigwyddiad oedd wedi creu argraff arnyn nhw. Tasg i'w chwblhau yn y dosbarth oedd hon.

Dewisodd Jac lunio cerdd am drychineb 9/11 a gwelir isod drydydd drafft ei gerdd.

Mae Jac yn llwyddo i efelychu adeiladwaith cerdd John Gwilym Jones ac mae'n personoli'r awyren fel eryr. Mae'n llwyddo i lunio trosiad estynedig o'r aderyn hyd nes iddo farw yn y diwedd: 'ac ambell aderyn swnllyd', 'eryr urddasol', 'yr eryr yn farw'. Mae Jac yn dangos fod ganddo ddychymyg byw a chryn wreiddioldeb, gan ddefnyddio iaith briodol i ddisgrifio'r gyflafan. Mae'n llwyddo i ddewis a dethol geiriau yn ofalus er mwyn cynnal diddordeb y darllenydd: 'sgrechfeydd ffiaidd yn deffro Efrog Newydd'.

**Mewn awyren drwy dyrau**

*I ddechrau dim ond sŵn y ddinas*

*Ac ambell aderyn swnllyd*

*oedd yn Efrog Newydd.*

*Daeth yr eryr urddasol o rywle,*
*yn gwibio ac yn hofran wrth godi,*
*Tarodd ei adenydd yn erbyn y tŵr,*
*Y twr oedd yn ymestyn a chyffwrdd â'r cymylau.*

*Ffrwydriad.*

*Cymylau duon yn codi i guddio'r aderyn,*
*Sgrechfeydd ffiaidd yn deffro Efrog Newydd,*
*Llwch.*
*Lludw.*

*Roedd yr eryr yn farw fel y bobl.*



*Jac*

Campus! Roedd hi'n werth mynd yn ôl i ail-ddrafftio.
Mae hon yn gerdd urddasol Jac. Da iawn ti!

## Gweithgaredd 27 | Cyflwyniad: Sgïo

Gofynnwyd i'r dosbarth baratoi cyflwyniad ysgrifenedig ar bwnc o'u dewis. Yna, roedd yn rhaid iddyn nhw berfformio'r cyflwyniad ar lafar. Sgïo oedd pwnc Jac ac roedd e wedi paratoi cyflwyniad PowerPoint ar wahân i gyd-fynd â'i gyflwyniad.

Mae Jac yn defnyddio hiwmor i ddechrau ei gyflwyniad, er enghraifft, 'Y peth pwysicaf o bosibl yw tocyn awyren i fynd i rywle oer!' Mae'n hoelio sylw ei ddarllenydd, gan fanylu wrth ddisgrifio'i bwnc a chyflwyno gwybodaeth, er enghraifft, 'Oeddech chi'n gwybod fod y rhain wedi lladd 43 o bobl y llynedd yn yr Alpau. Cafodd 63 eu lladd y llynedd i gymharu â 25 y flwyddyn cynt'. Mae'n cyfarch ei gynulleidfa, er enghraifft, 'Rwy'n awgrymu eich bod yn llogi helmed hefyd' ac 'Ar y nodyn hyn mae'n bwysig sôn am inswrans'. Mae'n defnyddio technegau pwrpasol yn ei gyflwyniad fel cwestiynau rhethregol ac mae'n amrywio hyd brawddegau. Mae Jac yn sillafu'r rhan fwyaf o'r geiriau yn y testun yn gywir ac mae ei gystrawennau'n amrywiol.

## Cyflwyniad i Sgïo

I mi, sgïo yw un o chwaraeon gorau'r byd ond cyn i chi fynd lawr y llethrau mae angen llawer o bethau arnoch. Y peth pwysicaf o bosibl yw tocyn awyren i fynd i rywle oer! Eleni ni gafon nhw llawer o eira yn yr Alpau – mae cnesu byd eang yn cael ei feio am hyn hefyd.

Reit – os llwyddoch chi i gyrraedd yno byddai'n rhaid i chi fod wedi pacio cwpwl o betha cyn mynd – dillad cynnes a chot drwchus. Beth sy'n bwysig yw eich bod chi'n gwiso llawer o hainau achos mae'r tymheredd yn gallu amrwyio'n fawr. Rydw i wedi sgïo mewn tymheredd o -24 cyn heddiw. Does dim llawer o bwynt prynu sgis ac esgidiau sgïo gan fydd eich traed siŵr o dyfu. Gallwch chi logi rheiny mewn siopau wrth ymyl y llethrau.

Rwy'n awgrymu eich bod yn llogi helmed hefyd – dydy o ddim yn edrych yn ddifyr iawn ond rydw i wedi cael tipyn o ofn sawl gwaith wrth syrthio ac mae'n arbed i chi gael poen ddifrifol i'r pen. Coed, ia, creigiau, sgiwyr eraill – dyna'r rheswm pam y mae'n hanfodol i chi wisgo helmed.

Ar y nodyn hyn mae'n bwysig sôn am inswrans. Mae'n bwysig i chi gwneud y dewis yn ddoeth achos mae damweiniau yn medru digwydd ac mae'n ddrud iawn os oes rhaid eich llusgo i lawr y mynydd ar stretchar neu helicopter. Un peth arall i chi boeni amdano – avalacches neu eirlithriad. Oeddech chi'n gwybod fod y rhain wedi lladd 43 o bobl y llynedd yn yr Alpau. Cafodd 63 eu lladd y llynedd i gymharu â 25 y flwyddyn cynt. Pam? Wel mae pobl yn mynd o'r piste er mwyn sgïo mewn llefydd peryglus a chyffrous a wedyn mae'n rhy hwyr. Does neb yn gallu eu cyrraedd yn hawdd. Os ydych am fentro dylech sgïo gyda rhywun syn gwbod be ma mhw'n gneud a chario whistle sydd yn gallu cael ei chwythu pan fyddwch mewn perygl. Os byddwch yn cael eich dal, trïwch fynd i'r ochr i osgoi'r eira fel y gwnaeth James Bond! Os ydych wedi cael eich claddu trïwch wneud tyllau anadlu yn yr eira a gweddïwch y bydd rhywun yn dod yn o fuan!

Os ydych chi'n newydd i'r llethra, dewisiwch liw sy'n addas i'ch gallu. Glas yw'r hawsaf, wedyn gwyrdd, wedyn coch a wedyn du. Un peth sydd yn gallu bod yn dwyllodrus hefyd yw 'moguls' neu mynyddoedd bach o eira sydd wedi casglu yn y llethr. Mae'r rhain yn gallu bod yn anodd i'w sgïo ond yn dipyn o hwyl.

Dyna'r peth pwysicaf – mwynhewch! Mae llawer o beryglon wrth bob dim ond mae'n werth cael mynd a theimlo'r gwynt yn eich gwyneb wrth i chi lithro lawr y llethr!

*Mae hwn yn ddarn difyr Joe – yn llawn hiwmor a gwybodaeth. Defnyddiwyd ffeithiau diddorol a thechnegau perswadiol e.e. cwestiynau i hoelio eich sylw.*

## Gweithgaredd 28 | Ysgrifennu blog: Pethau bob dydd

Bu'r dosbarth yn trafod y math o gyfathrebu sy'n esblygu yn sgil technoleg newydd gan drafod hefyd y defnydd a wneir o fannau siarad fel U Tube a Bebo. Cafwyd trafodaeth am y mathau newydd o genres sy'n dod i'r amlwg gyda dyfodiad y rhyngrwyd i'n cartrefi a thrafodwyd yn fwyaf arbennig y blog. Roedd yr athrawes wedi dethol rhai o'r blogiau Cymraeg sydd ar gael ar y rhyngrwyd a bu'r disgyblion yn trafod beth oedd nodweddion y ffurf newydd yma. Tasg y dosbarth oedd creu blog am bethau bob dydd. Roedd yr athrawes wedi dweud wrthyn nhw y gallen nhw ysgrifennu'n dafodieithol am unrhyw bwnc. Gwnaed y dasg hon yn y dosbarth ar ddechrau Blwyddyn 9.

## ≤ BLOG JAC ≥

### Gwallt

Dydw i ddim yn gweld y gwerth mewn gwallt! Mae'n mynd yn y ffordd ac mae'n broblem i'w gadw'n lân. Mae angen shampw a conditioner a stwff arall iw roi ynddo os ydych isio edrych yn debyg i rwbath ond byddai'n well gin i ei siafio fel nhad Ma na reswm arall pam mae o yn ei siafio – mae o'n moeli ac mae Cheryl ei gariad wedi deud wrtho bod yn rhaid iddo ei siafio achos di hi ddim eisio cal i gweld gyda rwun sydd yn cael 'comb over' Mae o'n edrych braidd fel convict rŵan

Mae nain yn meddwl ei bod hi'n gallu torri gwallt yn dda a phan oeddam ni'n fach, hi oedd yn torri'n gwalltia ni i gyd. Mi weithiodd hyn yn iawn tan iddi dorri chunk mawr o ochr gwallt fy mrawd. Roedd o fel darn 50 pence ac rodd o yn edrych yn wael iawn. Ar ôl hynny roedd ym mrawd i'n yn crio yn cau mynd i'r ysgol ac ers hynny rydan ni wedi mynd i dre i'w dorri o.

Mae problem arall gyda gwalltia. Mae llai pen yn gallu mynd i wneud eu cartra ynddo a mae'n anodd cael nhw o na wedyn. Mae dad wedi gorrod gwneud hyn yn ddiweddar i'n chwaer fach. Roedd llythur wedi dod adra o'r ysgol yn deud fod y pethau anifyr yn ei dosbarth hi a bod angen checio yn ddyddiol i weld oedd y pethau yno. Dydy o ddim wedi cael hyd i rai eto ond rydw i eisiau iddo gael hyd iddyn nhw achos dwi eisio ei gweld nhw.

.......................................................................................................................................

*Os wyt ti eisiau ateb anfon neges!*

Enw

E-bost

Gwefan

Neges

Anfon

Dewisodd Jac ysgrifennu am wallt ac am yr helyntion mae'n ei gael. Darn byr yw hwn lle mae'n ysgrifennu'n fywiog er bod tuedd i'r brawddegau fynd braidd yn hirwyntog ac yn ddigyswllt, er enghraifft, 'Mae angen shampw a conditioner a stwff arall iw roi ynddo os ydych isio edrych yn debyg i rwbath ond byddai'n well gin i ei siafio fel nhad'. Mae ôl brys ar y darn ac o'r herwydd, mae yma fwy o wallau sillafu nag sy'n ei waith fel arfer. 'Roedd llythur wedi dod adra o'r ysgol yn deud fod y pethau annifyr yn ei dosbarth hi'. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o'r geiriau yn cael eu sillafu'n gywir ac mae'r atalnodi'n gywir fel rheol. Mae hiwmor yn nodweddu'r darn hwn eto: 'mae o'n moeli ac mae Cheryl ei gariad wedi deud wrtho bod yn rhaid iddo ei siafio achos di hi ddim eisio cal i gweld gyda rwun sy'n cael 'comb over'.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Jac yn llwyddo i ddod o hyd i wybodaeth benodol ac mae'n dehongli'r hyn mae'n ei ddarllen yn eithaf llwyddiannus. Mae'n bodloni'n aml ar ailadrodd cynnwys ac nid yw bob amser yn trafferthu i fynd dan groen darnau. O'r herwydd, mae ei berfformiad ar draws yr unedau yn eithaf anwastad a cheir cyffyrddiadau o Lefelau 5, 6, a 7 yn ei waith. Yn y darn ar 'Y Plas Gwag' dim ond cyfeirio at *ambell agwedd ar arddull* a wna (nodwedd o Lefel 5), dro arall bydd yn *cynnig rhesymau* drwy gyfeirio at arddull (nodwedd o Lefel 6) ac o dro i dro bydd yn *dadansoddi* technegau arddull (nodwedd o Lefel 7). Nid yw'n trafod nodweddion arddull yn ddigon manwl yn y gerdd 'Y Plas Gwag' gan Emrys Parry ac nid yw'n llwyddo i egluro effeithiolrwydd technegau arddull yn llawn bob amser. Teimlir o dro i dro y gallai Jac wthio'i hun i ateb yn fwy ymestynnol ond ei fod yn bodloni ar ysgrifennu'n gymharol fyr i gael gorffen y dasg. Mae'n ymateb yn dda i'r darn anllenyddol, 'Iach yw croen pob cachgi', gan ddehongli barn yr awdur yn grefftus a gofalus. Yma, mae'n dyfynnu'n bwrpasol a chyson ac yn *adnabod gwahanol haenau o ystyr* (nodwedd o Lefel 6). Mae Jac yn ymateb yn bositif iawn i'r dasg o gymharu dwy stori feicro ac yma fe geir trafodaeth aeddfed ar gynnwys ac arwyddocâd y straeon. Mae'n llwyddo hefyd i adnabod elfennau tafodieithol, ond nid yw'n dyfynnu'n ddigon cyson nac yn cyfiawnhau ei farn â thystiolaeth uniongyrchol.

Ceir elfennau o Lefel 7 yn ei waith, er enghraifft, yn ei ddadansoddiad o'r ddwy stori feicro mae'n *dangos dealltwriaeth o'r modd y cyflëir ystyr* ond i gyrraedd Lefel 7 yn gyson byddai angen iddo ddangos ei fod yn medru dadansoddi elfennau arddull yn llawnach a'u dadansoddi mewn mwy o ddyfnder a manylder. Llwydda i *gywain . . .* a *chrynhoi gwybodaeth berthnasol* (nodwedd o Lefel 6).

**Ysgrifennu**

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Jac yn llwyddo i ysgrifennu'n sylwgar ac yn synhwyrus, gan ddatblygu arddull bersonol. Yn y darnau a ddyfynnir yma, mae'n dangos ei fod yn rhoi sylw i drefn ac adeiladwaith yn ogystal â ffurf. Mae ei waith *yn denu ac yn cynnal diddordeb y darllenydd* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n amlwg fod y dasg ar sgïo wedi bod wrth fodd Jac a llwyddodd i baratoi cyflwyniad diddorol yn llawn hiwmor a bwrlwm. Gwnaeth gryn dipyn o ymchwil hefyd, gan wau'r ffeithiau i mewn i'r darn yn gelfydd drwy gyfres o gwestiynau gan *gyflwyno gwybodaeth at wahanol ddibenion* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n defnyddio paragraffau i bwrpas er mwyn cyflwyno'r gwahanol syniadau ac mae'r ysgrifennu drwyddo draw yn ddifyr ac yn hoelio sylw'r darllenydd.

Mae Jac yn ymwybodol iawn o'i gynulleidfa ac mae ei hiwmor a'i ffraethineb yn llinyn cyswllt trwy'r blog a'r cyflwyniad. Er hynny, mae'n gwybod pryd i ddifrifoli, fel mae'r gerdd, 'Mewn awyren drwy dyrau', yn dangos. Yma, mae Jac wedi llwyddo i efelychu adeiladwaith cerdd John Gwilym Jones, gan ddangos fod ganddo ddychymyg byw a chryn wreiddioldeb. Mae'n defnyddio iaith briodol i ddisgrifio'r gyflafan yn Efrog Newydd ac mae wedi dewis a dethol geiriau'n ofalus er mwyn cynnal diddordeb y darllenydd. Gwelir nodweddion o Lefel 6 yn ei waith yma wrth iddo ddatblygu disgrifiadau gan ddewis ei *eirfa . . . yn briodol*.

Mae Jac yn gallu ysgrifennu'n fywiog ond ar adegau mae tuedd i'w frawddegau fynd braidd yn hirwyntog a digyswllt. Ceir nifer o wallau sillafu yn ei waith o bryd i'w gilydd. Er hynny, mae'r *atalnodi fel rheol yn gywir* (nodwedd o Lefel 6).

Ar adegau, mae elfennau o Lefel 7 yng nghynnwys gwaith Jac gan ei fod yn *ysgrifennu'n hyderus ac yn dewis arddull briodol* wrth gyfathrebu ond, ar y cyfan, mae ei waith ysgrifennu yn cyd-fynd orau â Lefel 6. I gyrraedd Lefel 7, byddai gofyn iddo amrywio ei gystrawennau a rhoi mwy o sylw i gywirdeb. Nid yw, er enghraifft yn sillafu *geiriau cymhleth, afreolaidd yn gywir*, sef un o nodweddion Lefel 7. Nid yw ei afael ar ramadeg y Gymraeg ychwaith yn ddigon sicr i gyfiawnhau Lefel 7 ac nid oes digon o dreiddgarwch yn ei syniadau bob amser.

Cyfnod Allweddol 3

# James

**Lefel 7**

Mae James yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro yn gwybod llawer mwy am berfformiad James nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion yng ngwaith James ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro James o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad mewn Darllen ac Ysgrifennu.

## Darllen ac Ysgrifennu

### Gweithgaredd 29 | Cymharu llythyron

Tasg estynedig yn sgil astudio'r thema, 'Diwylliannau dan Warchae', oedd hon. Roedd y disgyblion wedi bod yn astudio hanes llwyth o Americaniaid Brodorol, y Lakota, yn y pecyn *Paha Sapa* cyn dechrau ar y dasg. Gofynnodd yr athro i'r dosbarth ddarllen llythyron Thomas Lloyd a Thyddyn y Gaseg cyn mynd ati i wrando ar Bryn Fôn yn canu'r gân, 'Tyddyn y Gaseg'. Rhoddodd yr athro daflen o gwestiynau seiliedig ar y llythyron i'r dosbarth er mwyn iddyn nhw drafod a gwneud nodiadau cyn mynd ati i gymharu'r llythyron.

**Cymharu llythyron Thomas Lloyd a Llythyron Tyddyn y Gaseg – Bryn Fôn**

Mae'r ddwy set o lythyron yn wedi cael ei hysgrifennu tua'r un adeg. Mae'r llythyr cyntaf yn y gyfres Tyddyn y Gaseg yn union yr un flwyddyn â llythyron Thomas Lloyd. Rydym yn gweld pa mor bwysig yw ysgrifennu llythyron yr adeg hon gan nad oedd ffordd arall o gysylltu â phobl ar ochr draw'r byd. Mae'nt yn cael eu hanfon i America ac o'r America ac mae'n reit ddiddorol bod Thomas Lloyd a Robin yn gallu ysgrifennu ond doedd eu tad a'u mam ddim. Ar ôl dweud hyn mae sôn bob perthnasau Thomas Lloyd wedi anfon llythyr yn ôl ond efallai mai'r gweinidog oedd wedi anfon hwn hefyd.

Mae sôn yn y ddau lythyr am bobl yn gadael Cymru ac mae rhaid mai tlodi oedd achos hyn – i chwilio am bethau gwell. Aeth Thomas Lloyd i Salt Lake City i ddechrau ac mae e'n dweud ei bod hi'n ddinas braf er gwaehta'r crefydd. Mae'n mynd ymlaen i ddweud nad y'n ddigon o Fethodist i drafod gyda nhw ond y byddai ei ewyrthr a'i dad yn medru gwneud hyn. Mae'n reit ddiddorol gofyn pam ei fod yn ysgrifennu at ei ewyrthr ac nid at ei dad. Efallai nad oedd ei dad yn medru darllen.

Mae'r llythyron yn cyflwyno gwybodaeth syml i ni - Sonia Thomas Lloyd, ' fy nghyflog yw tri doler y dydd a'm bwrdd' ac yn Llythyron Tyddyn y Gaseg nodir' mae Buddug dy chwaer di a Jac Tyddyn Isaf yn sôn am briodi'n yr haf'.

Pwrpas llythyr yw cyflwyno teimladau yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth ac mae'r ddwy gyfres yn reit emosiynol ac rydym fel darllenwyr yn gallu cydymdeimlo â'r bobl sydd yn byw ymhell o'u cynefin mewn gwlad ddiethr bell.

Mae'r llythyr cyntaf yn reit obeithiol – mae'n sôn am gyfoeth rhai yn y gweithfeydd arian ac mae e'n dweud ' Adios' sef gair Sbaeneg sydd yn awgrymu ei fod yn ceisio toddi i mewn i'r lle. Mae e'n sôn hefyd y bydd yn dod i edrych amdanyn nhw unwaith y gwneith e'i ffortiwn.

Mae llythyr cyntaf Tyddyn y Gaseg yn reit obeithiol hefyd ( i gymharu â'r gweddill) Mae sôn am briodi ond y tu ôl i'r llythyr mae tristwch hefyd gan fod y brodyr wedi gorfod mynd i Loeger i chwilio am waith a bod y fam yn hiraethu.

Dydy ail lythyr Thomas Lloyd ddim mor obeithiol oherwydd mae e wedi gorfod rhoi'r gorau i'w freuddwyd fawr o wneud ffortiwn ac mae wedi ymuno â'r fyddin. Yma mae'n sôn am y oerfel ac am hanes yr America a'r erlid fu ar yr Indiaid yn y cyfnod yma. Dim ond dwy flanced sydd ganddyn nhw ac mae rhai wedi rhoi'r gorau i fywyd ac eisho marw yn eu cwsg.

Mae'n rhan o'r frwydr ac mae e'n sôn am yr Indiaid yn ffou am eu bwydau Mae'r diwedd yn gorffen drwy iddo ddweud ' Felly gwelwch ei bod wedi bod yn haf prysur arnaf'

Mae yna helynt wedi bod yn Tyddyn y Gaseg hefyd achos mae Robin wedi mynd i helynt. Dydyn ni ddim yn cael gwybod llawer – dim ond nodi 'un byrbwyll y buodd o rioed' Mae 20 mlynedd wedi mynd heibio ers y llythyr cyntaf ac mae mam Sion Glyn wedi marw. Mae'n reit ddigalon bod y tad yn sôn am yr angladd mewn llythyr fel hyn. Mae llawer o hanes ar goll fan hyn a lot o gwestiynau heb ateb – Pam aeth Robin i America? Beth yw hanes yr arian?

y ddwy gyfres

Mae hiraeth yn y ddau set o lythyron ac mae Thomas yn gofyn am fechgyn Malltraeth a'r tad a'r fam yn colli Sion Glyn. Dydyn ni ddim yn gwybod a aeth Thomas na Sion yn ôl i Gymru ond yn bersonol dydw i ddim yn meddwl y buasai Sion wedi mynd yn ôl oherwydd gallasai fod wedi mynd yr un pryd â Robin. Roed pawb yn erfyn arno fynd ond mae'n rhaid fod ganddo reswm.

Mae'r llythyr Saesneg yn ddiddorol oherwydd yn hwnnw mae o'n siarad am bethau mwy milwrol ac yn siarad am y Summer Campaign a Rosebud a Sitting Bull. Mae e'n siarad am y 'horsemeat' y mae'n rhaid iddo fyw arno am wyth diwrnod ac yn cymharu hwnnw gyda'r bwyd adref. Dydy e ddim yn swnio fel petai o'n mwynhau ei hun yn fawr ac mae e'n edrych ymlaen at yr amser y bydd e'n cael dod allan o'r fyddin.

Mae ychydig o eiriau Saesneg yn llythyrau Thomas Lloyd tra bod llythyron Tyddyn y Gaseg wedi eu hysgrifennu mewn Cymraeg pur. Gwelir hyn wrth i Thomas Lloyd ddweud ' below zero am thirteen days'. Mae'n debyg ei fod wedi colli rhywfaint o'i Gymraeg ar ôl bod i ffwrdd gymaint. Mae'n ddiddorol serch hynny gweld fod rhai geiriau yn llawer fwy safonol na'n Cymraeg ysgrifenedig ni heddiw. e.e. 'chwi' ac 'ysbryd ymfudol' . Mae rhai geiriau wedi ei sillafu yn hen ffasiwn fel sydd yn y beibl ' yspryd' a 'tylawd' a defnyddia eiriau Saesneg am bethau reit cyffredin fel 'chances' 'fortune' a 'spring'. Gallaf ddeall pam mae'n defnyddio 'silver mines' gan mai dyma fyddai'r Americanwyr yn ei ddweud ond mae'r geiriau eraill yn awgrymu efallai does gan Thomas Lloyd ddim llawer o barch at ei wreiddiau. Mae iaith llythyron Tyddyn y Gaseg yn fwy Cymreig ac nid oes defnydd o'r Saesneg ydynt. Mae dweud 'fy annwyl fab hynaf' yn reit hen ffasiwn i ni heddiw ac mae'r awdur yn amlwg yn dod o'r gogledd gyda'r iaith lafar 'Loegar' a 'gorwadd'.

Mae llythyron Tyddyn y Gaseg yn odli ac mae hyn yn gwneud y neges yn fwy trist rywsut gan fod y cyfarchiad yn rhan o'r farddoniaeth 'Tyddyn y Gaseg.... Mae'r dyddiad sydd yn yn amrwyio yn ychwanegu at yr hiraeth gan ein bod yn gwybod fod y tad a'r fam yn marw a bod Sion ddim wedi bod yno iddyn nhw. Mae o'n drist iawn fod y tad wedi bod ' yn siarad amdanat tan y diwadd' a bod ynta ddim wedi dod yn ôl.

Llwyddais i gymharu'r ddwy gyfres o lythyron yn arbennig o dda. Dadansoddais yr iaith yn arbennig o effeithiol a mynegais fy farn yn ddeheuig am effaith yr ymfudo ar y llythyrwyr. Gwaith arbennig o dda.

Mae James wedi llwyddo i greu darn cydlynus sy’n cynnal diddordeb y darllenydd ac sy’n cymharu’r ddau ddarn yn effeithiol. Mae’n dangos fod y ddau lythyr yn dod o’r un cyfnod drwy godi’r ffeithiau perthnasol sy’n profi hynny, ac yn yr un modd, mae’n nodi’r gwahaniaethau rhwng y llythyron. Mae’n llwyddo i ddadansoddi teimladau’r ddau lythyrwr ac mae’n dod i gasgliadau ar sail y cynnwys: ‘mae’r ddwy gyfres yn reit emosiynol ac rydym fel darllenwyr yn gallu cydymdeimlo â’r bobl sy’n byw ymhell o’u cynefin mewn gwlad ddiethr bell’. Mae’n dadansoddi’r iaith, gan ddweud, ‘Mae’n ddiddorol serch hynny gweld fod rhai geiriau yn llawer fwy safonol na’n Cymraeg ysgrifenedig ni heddiw’, gan ychwanegu enghreifftiau.

Mae James yn dangos dealltwriaeth o’r modd mae’r awduron yn cyfleu ystyr ac yn cyflwyno gwybodaeth. Mae’n dadansoddi eu teimladau yn fanwl ac mae’n dod i gasgliadau aeddfed ar sail y cynnwys. Mae’n dod i gasgliadau ynglŷn â’r iaith hefyd. Mae’n egluro sut mae adeiladwaith yn cyfrannu at effeithiolrwydd darn o lenyddiaeth.

## Gweithgaredd 30 | Ffugio nwyddau

Tasg unigol oedd hon. Gofynnwyd i'r dosbarth ddarllen erthygl yn ymwneud â nwyddau ffug ac ateb rhai cwestiynau caeedig cyn mynd ati i fynegi barn am effeithiolrwydd yr erthygl a thrafod y technegau perswâd a geir ynddi.

Mae James wedi llwyddo i ateb y cwestiynau amlddewis i gyd yn gywir ac mae wedi nodi'n glir beth yw syniadau'r awdur yn y darn. Mae'n nodi nifer o enghreifftiau i ddangos effeithiolrwydd yr awdur wrth geisio perswadio'r darllenydd i beidio â phrynu nwyddau ffug, ac yn cyfiawnhau ei farn â thystiolaeth bob tro. Ar adegau, mae'n gwerthuso'r modd mae'r awdur yn cyflwyno'r syniadau drwy ddweud bod y defnydd o ffigurau yn dystiolaeth sy'n gymorth i berswadio, er enghraifft, a'i fod o'r farn bod cynnwys llun o Del Boy yn gamgymeriad am fod hyn yn ysgafnhau'r testun yn ormodol. Mae'n dod i gasgliadau hefyd am natur hunangyfiawn yr awdur.

Mae James wedi mynegi barn yn ddeheuig ar gynnwys, iaith ac arddull y darn. Mae e'n dadansoddi'n fanwl ddulliau perswadio'r awdur, gan ddyfynnu i gefnogi ei ddadansoddiadau a'i farn. Mae'n deall yn union yr hyn sydd ymhlyg yn y testun.

**Gwaith Dosbarth Blwyddyn 9** **Ffugio Nwyddau**

1. Tanlinellwch yr ateb cywir. Yn ôl y darn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf daeth swyddogion Safonau Masnach o hyd i;

   a) fagiau te oedd yn cynnwys soda cawstig
   b) persawr oedd yn cynnwys fodca.
   c) <u>cemegyn mewn fodca a allai achosi person i fynd yn ddall.</u> ✓
   Ch) powdwr golchi oedd yn cynnwys baw llygod

2. Yn y DU mae'r sector dillad yn gwneud colled o;

   a) £60 biliwn bob blwyddyn
   b) <u>£3 biliwn bob blwyddyn</u> ✓
   c) £3.29 biliwn bob blwyddyn
   ch) £120 biliwn bob blwyddyn



3. Mae'r awdur yn y darn yn dweud bod ffugio nwyddau

   a) <u>yn cynyddu</u> ✓
   b) yn lleihau
   c) yn gwneud ffafr â'r defnyddiwr
   ch) yn hawdd

4. Nodwch dair ffaith o'r darn.

   - Yn y flwyddyn ddiwethaf daeth swyddogion safonai masnach o hyd i fagiau te yn llawn o faw llygod.
   - Mae ffugio mwyddau yn costio £3 biliwn y flwyddyn i economi Prydain
   - Fel arfer mae'r pobl sydd yn cynhyrchu'r nwyddau ffug yn talu am gyffuriau a'r arian neu am droseddau eraill.

5. Beth yw barn yr awdur yn yr erthygl ?

Barn yr awdur yn yr erthygl yw ei fod yn lladd ar y bobl yma sy'n prynu nwyddai heb wybod ei bod nhw'n ffug ac mewn un man mae o'n ei galw nhw'n dwp. Mae o'n cyfaddef ei fod eisiau bargen achos mae Cardi ydy o. Mae e hefyd yn nodi fod pawb eisiau CDS rhad ac esgidiau Nike, Mae'n e'n rhybuddio pobl y byddan nhw helpu drwy beidio prynu. Byddan nhw'n cyfrannu at golledion siopau wrth wneud hyn ac mae'r pres yn aml yn mynd i fwydo eu habits cyffuriau.

6. Ydy'r erthygl wedi eich perswadio i beidio â phrynu nwyddau ffug? Trafodwch yr erthygl gan gyfeirio at y math o iaith a ddefnyddir gan yr awdur.

Dechreua'r awdur yr erthygl yn reit ddoniol a sôn mae Cardi yw e a bod hwnnw'n ynddo'i hun yn rhoi'r hawl iddo sôn am arian. Cadwa at yr hiwmor drwy ddefnyddio cwestiynau rhethregol fel ' Ydyn ni'n synnu eu bod nhw'n diflannu? sydd yn eithaf coeglyg a deud y gwir ac mae o fel petai o'n gweld bod pobl yn eithaf naïf. Mae o'n eithaf hunan gyfiawn mewn mannau. Defnyddia idomau fel 'achub mantais' ac mae o'n defnyddio ail-adrodd ar y diwedd ' dydyn nhw ddim yn gwneud ffafrau' dair gwaith er mwyn pwysleisio'i neges a hoelio'n sylw ni y darllenydd. *Mai* *darllenwyr*

Mae'r tabl yn eithaf brawychus ac yn eithaf perswadiol oherwydd mae swm y colledion yn enfawr. Mae defnyddio ffigurau fel hyn yn dechneg dda bob amser i berswadio pobl.

Mae'r llun o Del Boy yn gamgymeriad yn fy marn i achos mae o'n hel rhywun i feddwl bod Del Boy yn hoffus er ei fod o'n torri'r gyfraith ac nid dyma fwriad yr awdur yn y fan yma. *pwynt arbennig o dda*

Mae'r awdur yn reit eithafol yn y paragraff ola drwy ddweud ' os yw'n ymddangos yn rhad, yna mae'n ffug' Mae yma ddefnydd o farciau syndod hefyd i dynnu sylw at y pethau pwysig sydd ganddo i ddweud. Dim ond un gymhariaeth sydd ganddo – ' rhad fel baw' ac er y gallech ddadlau nad yw hon yn rhyw wreiddiol iawn – dan ni'n ei defnyddio hi bob dydd. Ar y llaw arall gallech chi ddadlau bod y dywediad yn addas iawn yma gan mai baw yw'n rhan fwyaf o bethau sydd yn y nwyddau ffug!

Rwy'n meddwl fod yr awdyr yn deall yn iawn sut i godi braw ar y darllenwyr –mae trafod pethau ffiaidd fel iwrin a baw llygod yn saff o godi ofn ar bobl. *da sylw aeddfed*

*Dadansoddiad hynod o graff*

## Gweithgaredd 31 | Dadansoddi lluniau

Rhoddwyd dau lun o Aberfan i'r dosbarth, un wedi ei dynnu cyn y drychineb gan y ffotograffydd o Efrog Newydd, I.C. Rapaport, a'r llall wedi'r drychineb. Gofynnwyd i'r disgyblion ystyried y ddau lun a nodi'r hyn oedd yn debyg ac yn annhebyg rhyngddyn nhw.

Ymatebodd James yn aeddfed i'r ddau lun, gan nodi nifer o ffeithiau a dadansoddi manylion. Mae'n dechrau ei ddarn yn effeithiol drwy sôn am y 'bygythiad' sydd yn y ddau lun. Yn ei drafodaeth, mae James yn cyfeirio'n fynych at y lluniau, nid yn unig i ddangos ei ddealltwriaeth o'r gwahaniaethau amlwg, ond hefyd i ddangos ei fod yn deall yr arwyddocâd dyfnach – 'Rydyn ni'n gwybod . . . fod bygythiad posibl o'r domen lo, ac rydym yn teimlo emosiwn wrth weld y fam yn ffarwelio â'i phlant, efallai am y tro olaf'. Mae ôl trefn ar y mynegiant ac mae'n cynnal ei ddadleuon yn drefnus, gan gynnig tystiolaeth o'r testun i gefnogi ei farn.

Gwaith Cartref                                        Hydref 27

Beth sy'n debyg ac yn annhebyg rhwng y ddau lun
o Aberfan?

mai
Mae'r ddau lun yma o Aberfan yn rhoi'r teimlad
o fygythiad i ni. Mae'r ffaith mae du a gwyn
yw'r lluniau yn ychwanegu at hyn hefyd. Mae'r
mynydd o wastraff glo fel cysgod i'r dros y pentref yma tra
yn yr ail lun rydym yn gweld yr trigolion y
pentref yn chwilio'n wallgof ac am blant yr ysgol
yn llawn gofid. Mae hyn yn wahanol i dlonyddwch
llun A.

Roedd y ffotograffydd I. C. Rapaport (oedd wedi tynnu
llun A) newydd ddod yn dad am y tro cyntaf ac o
bosibl ei fod yn ymateb yn llawn emosiwn i'r
dygfa erchyll. Rydyn ni'n gwybod o lun A fod
bygythiad posibl o'r domen lo, ac rydym yn teimlo
emosiwn wrth weld y fam yn ffarwelio â'i phlant,
efallai am y tro olaf. Ar ôl dweud hyn, efallai
mai nid ffarwelio mae'r fam yn y llun yn ei gwneud
ond edrych ar y stryd wag am ei phlentyn sydd
wedi marw – chwilio am rywun rywbeth sydd ddim yn
dod nôl. Sylw craff Mae ei chot yn wyn ac yn mae'r stryd yn
ddu a dywir stryd ddim yn arwain i nunlle, dim
ond troi'r gornel i fynyd'r cwm. Mae yna grŵp o blant
yng nghanol y llun ond dydyn nhw ddim yn
amlwg iawn.

Mae bywyd a chyffro yn yr ail lun (llun B) – nid
cyffro braf ond cyffro chwilio am blant bach wedi
eu claddu dan y rwbel. Mae'r pentrefwyr i gyd yno
sydd yn gwrthgyferbynnu â'r llun cyntaf yn llwyr.
Grŵp bach o blant sydd yn hwn a mam unig ond
does dim plant yn llun B. Maen nhw yn y llun
Sylw da iawn

roeddet ti'n iawn hefo'r 'maen nhw' cyntaf!
ond maen nhw wedi eu cuddio o'r golwg. Mae'r baw
a brynti yn llun B gyda'r prennau a'r dynion ymhobman
yn dangos y panig sydd wedi dod yn sydyn ar ôl
y drychineb. Mae'n rhyfedd ond mae rhyw deimlad o
lonyddwch yn llun A yn enwedig o ystyried cot
wen y fam – mae hwn yn symbol o ddiniweidrwydd
a phurdeb y plant bach gafodd eu lladd.

Dadansoddiad treiddgar a dealltwriaeth iawn

## Gweithgaredd 32 | Stori hunllef

Tasg i waith cartref oedd hon ac fe'i gwnaed ar ddiwedd Blwyddyn 9.

Mae James wedi defnyddio'r ffilm, *Rabbit Proof Fence* fel sail i'w stori a gwnaeth ymchwil amlwg i arferion y Mardudjara cyn mynd ati i'w llunio. Cawn ddisgrifiad arbennig o dda o'r cefndir yn y paragraff cyntaf. Mae'n llwyddo i gynnal diddordeb y darllenydd o'r cychwyn cyntaf ac mae trefn a strwythur amlwg i'r stori. Ceir disgrifiadau celfydd yn y stori, 'a roedden nhw'n gwled amlinelliad tywyll bygythiol', 'Caeodd y drws, y drws rhwng byd rhyddid a byd caethiwed'. Arbrofa â hyd brawddegau ac mae'r holl waith yn arddangos hyder. Unig wendid y stori, fel y cyfeiria'r athrawes yn y sylwadau yw'r diweddglo. Mae James ym mharagraff olaf ei stori wedi bodloni ar adrodd gweddill yr hanes yn gymharol frysiog. Mae gan James adnoddau iaith cyfoethog a mynegiant hynod o aeddfed.

**Hunllef**

( yn seiliedig ar ffilm a welais – Rabbit Proof Fencing)

Eisteddai Molly, Daisy a Katie wrth y tan yn gwrando ar sŵn dwfn y Digerydw . Roedd y Mardudjara yn eistedd yn un cylch. Roeddynt yn bwyta morgrug a mel a phryfed witchetti. Roedd un ohonynt yn dal y kakadu. Corn oedd hwn yn dweud fod perygl i gael.

**********************************************************************

Yn sydyn clywodd pawb y kakadu'n galw. Roedd ei swn yn aflafar ac yn codi ofn ar gwningod yr ardal ac ar y brodorion. Roedd y Mardudjara yn gyfarwydd a perygl ac ofn. Plant yn rhedeg, mamau yn sgrechian. Teimlai Molly law ei mam yn cydio ynddi nes yr oedd ei thraed oddi ar y ddaear.

"Cer yn gyflym Molly" gwaeddodd ei mam.
"Does neb i weld, mam" atebodd Molly.
" Mae'r kakadu wedi cael ei ganu" gwaeddodd ei mam.
Fe gafodd ei thaflu i mewn i gwt yn y drain. Yno roedd un o'i chwiorydd bach yn chwarae gyda doli bren. Roedd ei chyfnither yn eistedd ar lawr yn canu'n dawel.
"Peidiwch chi symud" gwaeddodd y fam.

Daeth swn o'r tu allan. Swn traed. Lleisiau od. Sŵn chwerthin. Agordd y drws pren gwan a roedden nhw'n gwled amlinelliad tywyll bygythiol. Llysgwyd nhw allan yn gyflym wedyn. Cydiodd y dyn gwyn yn Molly a'i gwthio i mewn i gar du. Caeodd y drws, y drws rhwng byd rhyddid a byd caethiwed.

"No walkabout for you any more little girls" chwarddodd un o'r dynion.
"Beth mae e'n dweud Molly?' holodd ei chwaer yn bryderus.
"Dweud wrthon ni am peidio poeni y mae e" atebodd Molly. Doedd hi ddim yn deall Saesneg chwaith ond roedd hi eisiau dangos bod hi.

Dringodd dau o'r dynion i'r blaen. Roedd Molly yn gweld cefn eu pennau moel a'r chwys yn diferu dan eu capiau. Caewyd y drws. Yna roedd swn gweiddi a sgrechian ac yn sydyn roedd wyneb mamgu yn gwasgu yn erbyn y gwydr.

"Dewch â nhw nol" Curodd y ffenest ac roedd ei hewinedd yn crafu'r gwydr.
"Does dim hawl 'da chi fynd a nhw. Mardudjara ydyn nhw a fan hyn mae nhw i fod.
"What the hell? Roedd y dyn pen moel yn chwerthin. "They'll be better off love with us than here in the wilderness. Poor things– they don't realize we're doing them a favour"
Pesychodd Daisy yn nerfus.
'Paid poeni" dywedodd Molly wrth y ferch fach.

Roedd y car yn symud. Edrychodd y dair allan o'r cefn, ond neb yn gallu gwneud dim. Yn sydyn daeth eu mamau i'r golwg. Rhedodd un at y cefn a thaflu'i hunan ato. Syrthiodd ar y llawr yn y llwch.

Diflannodd y Mardudjara. Diflannodd eu mamau. Teithiodd y car drwy ffens yr Aborigini.

*******************************************************************

Swatiodd y dair gyda'i gilydd. Roedd y flanced yn cosi a'r sŵn a oedd yn dod o'r ystafell yn ddieythr i'r merched. (handwritten above "a oedd yn dod o'r": a ddeuai)

"Peidiwch poeni. Y noson gyntaf yw'r waethaf' sibrydodd merch. " Fe gyfarwyddwch chi gyda Moore River.

"Byth" sibrydodd Molly i'r garthen.

"Faint o ferched sydd yma? Gofynnodd Molly yn sydyn.

"Silence girls. You will need your strenghth tomorrow" gwaeddodd llais o'r drws. ✓ Defnydd da o sgwrs.

Ar ôl cyfnod o dawelwch, sibrydodd Molly eto fel y gallai ei chwaer a'i chyfnither ei chlywed.

"Dianc. Bydd yn rhaid i ni ddianc yn ôl at mam ac at y Mardudjara"

"Ond sut? Gofynnodd Daisy yn anobeithol.

"Don't think about escaping girls. It's one thousand two hundred miles back to Jigalong and the dingos will get you before the trackers will" Daeth chwerthiniad cras arall o gyfeiriad y drws.

*******************************************************************

"Dydw i ddim yn gweld y pwynt" sibrydodd Daisy.

"Dim pwynt gweld mam a mamgu eto? Cwestiynodd Molly.

"Ise mam" dywedodd Gracie. Roedden nhw wedi bod yn dilyn y ffens ers pedwar diwrnod. Roedden nhw wedi llwyddo i ddwyn dillad o lein cyfagos ac wedi dwyn eu bwyd anifeiliaid ar ffermydd.

"Wrth gwrs bod pwynt' atebodd Molly yn gas. "Dydyn ni ddim yn mynd i aros yna yn cael ein troi yn bobl wynion a mam a mamgu yn aros gartref yn ein disgwyl"

"Roedd y bwyd yn Moore River yn well na hwn" cwynodd Daisy gan fwyta'r crwst o fara. " Beth wyt ti'n ddisgwyl fan hyn – gwledd??" gofynnodd Molly, ei llais yn filain.

Mae'r stori yn gorffen braidd yn sydyn fan hyn. Bechod na fyddet ti wedi cadw ati i ddisgrifio'r stori o safbwynt Molly a'r merched.

*******************************************************************

Gallaf [illegible] fod wedi darlunio'r olygfa pan gyrhaeddodd nhw yn ôl at y Mardudjara. Byddai hyn [illegible] clymu'r stori gyda'r dechrau

*Naw mis y buon nhw'n cerdded. Beth oedd yn eironig oedd mae y ffens a arweiniodd nhw yn ôl at eu teulu. Dilynon nhw'r ffens am 990 o filltiroedd yn ôl at y Mardudjara. Roedd Awstralia yn arfer cipio plant oddi wrth yr Aborigineaid a'u rhoi nhw i bobl wynion. Yr enw a roddwyd arnynt oedd ' Y genhedlaeth Goll ' Bob mis Mai, mae yna ddiwrnod i ymddiheuro i'r Aborigineaid am y plant a gafodd eu cipio.*

Mae'n amlwg dy fod wedi gwneud ymchwil manwl cyn ysgrifennu'r stori hon [illegible] ac fe lwyddaist i ddarlunio un o hanesion erchyll Awstralia yn y stori. Cer yn ôl ati i lunio diweddglo mwy [illegible] yn hytrach na dibynnu ar adrodd y stori i gloi. Gall y disgrifio adrodd y stori i [illegible].

## Gweithgaredd 33 | Mynegi barn

Tasg yn y dosbarth oedd hon. Roedd yr athro wedi sôn am hanes Johnny Owen, y paffiwr o Ferthyr, wrth y dosbarth ac wedi dangos lluniau ohono.

Darn yw hwn yn mynegi barn ar baffio. Ynddo mae James yn cyflwyno gwybodaeth am y pwnc yn ogystal â mynegi ei farn am y gamp ond nid yw'r farn honno bob amser yn gydlynus. Yn y paragraff cyntaf mae ei bwyntiau ar chwâl ac mae'n reit ysgubol yn ei ddatganiadau 'e.e yn yr ysgol os mae rhywun yn pigo arnynt, maent yn fwy na thebyg o roi ergyd iddynt'. Mae'n ystyried yr wrthddadl ac yn codi pwyntiau da o bryd i'w gilydd, er enghraifft, y pwynt fod pobl yn gwneud arian yn sgil y gornestau a bod posibiliad fod rhai yn achub mantais ar y paffwyr. Nid yw ei fynegiant gystal yma ag yn y darnau eraill – nid yw'n amrywio llawer ar ddechrau brawddegau ac mae'r brawddegau hynny yn tueddu i fynd yn aml gymalog ac yn ddigyswllt. Gwnaeth ymdrech i edrych yn y geiriadur am dermau priodol.

Gwaith Dosbarth          Teitl?          Rhagfyr 6

Yn fy marn i nid yw paffio yn gamp dderbyniol oherwydd ~~mae~~ dydyn ni ddim wedi cael ein ar y byd yma i ymladd. Ac ~~nid~~ yw'r corff dynol wedi ei greu i dderbyn anafiadau difrifol. *Dydy hon ddim yn cysylltu â'r frawddeg flaenorol.* Hefyd oes mae plant yn paffio maen ~~yn~~ fwy tebygol o effeithio *mynegiant* rhwng yn mywyd bob dydd ac hefyd yn yr ysgol oherwydd e.e. yn yr ysgol os mae rhywun yn pigo arnynt, maent yn fwy na thebyg o roi ergyd iddynt. *Braidd yn ysgubol?* ✓

Yn fy marn i, wrth baffio rydych yn gwneud niwed i'ch corff ac i gyrff eraill fel bod pawb sydd yn eich gwylio yn cael mwynhad ac adloniant, os rydych yn gwneud niwed i'ch hunain wrth baffio gall arwain at farwolaeth wrth i chi fynd yn hyn.

Mae doctoriaid yn dweud yn gwir fod taro'r pen yn gallu creu niwed hir a gall person ddiodde o glefyd Parkinsons a gallent fod mewn hunglwyf (coma) am gyfnod hir. Mae'n fwy tebygol i chi gael tolchen (clot) yn y gwaed hefyd wrth focsio. *Da ond brawddeg rhy gymalog* Fel y digwyddodd i Johnny Owen, fe gafodd ei gludo yn y diwedd i ysbyty yn anwybodol ac fe fu farw ychydig ddyddiadau ar ôl hynny. Rwyn meddwl fod y llun chonon edrych mor ddiniwed yn drist iawn.

Ar ôl dweud hyn pan mae dau yn dod at ei gilydd i focsio mae yna reolau ac mae yna bobl i sicrhau fod gofal yn cael ei gymryd o'r bobl ifanc. Mae'r bocswyr yn cael archwiliad ar ôl y ffeit ond petaen nhw yn ymladd ar y stryd fyddai dim neb yno i wneud hyn. Mae ffigurau yn dangos fod bocsio yn fwy diogel na deifio o'r awyr, mynydda a rasio motobeics. *Pwynt da* ✓

Yn fy mam i nid ydw paffio yn dderbyniol oherwydd maen effeithio ar yr ymennydd ac hefyd yn effeithio ar eich bywyd pob dydd e.e. os ydych eisiau swydd da yn y dyfodol mae bocsio yn (I.S.) cymryd eich amser ysgol i fyny a phob tro byddech yn derbyn ergyd ich pen byddech yn colli 150 o gelloedd yr ymennydd. Mae llawer o baffwyr yn cael gwaedlif yn yr ymennydd ac maent yn marw. Byddai'n well fod wedi cysylltu'r paragraff ~~[illegible]~~ â pharagraff 3

~~Mae~~ Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y rhain a bocsio yw nad yw'r rhain yn trio gwneud niwed i bobl eraill. Mae plant ysgol yn edrych ar bobl fel Jo Kalzaghe fel arwyr ac mae hyn yn gwneud y 'sport' yn fwy derbyniol. Mae pobl yn edrych ar y ffeits (gormodiaith) yma er mwyn gweld pobl yn cael niwed. Mae llawer o bobl yn gwneud arian allan o'r ffeits yma ac mae hyn yn swnio fel petai'r pobl yma yn dylanwadu ar bobl ddiniwed. ✓

*Llwyddaist i fynegi dy farn James ond mae angen mwy o drefn ar drywydd y ddadl i dro. Tueddi i fod yn fwy ysgubol nag arfer yma.*

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 7 ac 8 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Cafodd James brofiad o ddarllen ystod o ddeunydd llenyddol ac anllenyddol cymhleth ac amlweddog mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae'n gallu dadansoddi'n a dehongli sefyllfaoedd yn aeddfed gan ddeall yr hyn sydd ymhlyg mewn testunau. Llwyddodd i *ddangos dealltwriaeth o'r modd y cyflëir ystyr* (nodwedd o Lefel 7).

Gall ddod o hyd i wybodaeth benodol o wahanol rannau o destun a'i chyflwyno'n glir ac yn gydlynus yn ei eiriau ei hun. Nid yw'n dangos yr un manylder wrth ddod o hyd i wybodaeth yn yr erthygl anllenyddol ag y mae wrth ddadansoddi'r cyfresi o lythyron. Yn y gyfres o weithgareddau, mae James yn dangos ei allu i drin testunau yn aeddfed a chymharu'r elfennau tebyg ac annhebyg sydd ynddyn nhw. Mae'n *mynegi ei farn yn ddeheuig* ac yn gallu ymresymu'n ddeallus gan weld dwy ochr i ddadl. Dyma un o nodweddion Lefel 7.

Mae'n ymateb yn sensitif i gymeriadau ac amgylchiadau ac mae'n gallu dwyn i gof yr hyn y mae wedi'i ddarllen gan gywain, *cyfuno a chyflwyno gwybodaeth o amrywiol destunau yn effeithiol*. Dyma un arall o nodweddion Lefel 7. Mae'n gallu defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn llwyddiannus wrth drafod y gwahanol fathau o destunau. Mae'n gwybod hefyd sut i werthuso testunau, gan drafod yr arddull yn briodol. Mae'n cyfeirio at ffurf, adeiladwaith a'r defnydd o ddyfeisiau mae'r llenor yn eu defnyddio i gyfleu ystyr a chreu effeithiau. Er ei fod yn mynegi barn yn ddeheuig am yr agweddau hyn ar iaith, nid yw bob amser *yn defnyddio'r dystiolaeth yn gytbwys* (nodwedd o Lefel 8).

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 7 ac 8 a barnwyd mai Lefel 7 sy'n cyd-fynd orau.

Cafodd James gyfle yn y gyfres o weithgareddau i ymateb i amrywiaeth o symbyliadau ac anogwyd ef gan ei athro i ddefnyddio ystod eang o ffurfiau addas i'r pwrpas.

Yn y darnau creadigol, mae James yn dangos ei allu i ysgrifennu'n sylwgar ac yn synhwyrus. Ar draws yr ystod o weithgareddau, mae'n *ysgrifennu'n hyderus* (nodwedd o Lefel 7) gan ymateb yn aeddfed wrth drafod pynciau cymhleth a sensitif fel trychineb Aberfan drwy gyfrwng lluniau. Yma, mae ei waith yn dangos *dyfnder* (nodwedd o Lefel 8). Mae ôl trefn ar ei fynegiant ac mae'n cynnal ei ddadleuon yn drefnus, gan gynnig tystiolaeth o'r testun i gefnogi ei farn. Wrth ysgrifennu stori, mae'n dangos fod ganddo adnoddau iaith eang a mynegiant hynod o aeddfed. Mae'r stori'n denu sylw'r darllenydd, mae yma gymeriadu byw er y gallai'r strwythur fod yn gadarnach a gallai fod wedi *datblygu'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd* ymhellach (nodwedd o Lefel 8). Nid yw'r darn ar focsio gystal â gweddill y darnau yn y proffil gan nad yw James yma wedi datblygu ei syniadau yn ddigon trefnus a chydlynus. Er hynny, mae'n *cynnig tystiolaeth* i gefnogi ei farn (nodwedd o Lefel 7).

Ar y cyfan, mae James yn defnyddio geirfa a chystrawen gywir, naturiol Gymraeg ac mae'r paragraffu, yr atalnodi a'r gramadeg *fel rheol yn gywir* (nodwedd o Lefel 7). Mae mân wallau sillafu a threiglo yn britho'r gwaith o dro i dro ac er bod ei iaith yn gyfoethog, nid yw'n *gywir'* bob tro (nodwedd o Lefel 8).

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sefydliadau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r disgyblion a'r rhieni/gwarcheidwaid hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Yn benodol, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi cymorth a deunyddiau:

Ysgol Beuno Sant, Gwynedd
Ysgol Botwnnog, Gwynedd
Ysgol Bro Myrddin, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Brynhyfryd, Sir Ddinbych
Ysgol Brynrefail, Gwynedd
Ysgol Brynsierfel, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Eifionydd, Gwynedd
Ysgol Glantaf, Caerdydd
Ysgol Gwynllyw, Torfaen
Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Ceredigion
Ysgol Gyfun Llanbedr-Pont-Steffan, Ceredigion
Ysgol Heol y Celyn, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Iau Aberteifi, Ceredigion
Ysgol Machynlleth, Powys
Ysgol Plasmawr, Caerdydd

Hoffai APADGOS ddiolch i'r canlynol am roi cantiatâd i atgynhyrchu deunydd â hawlfraint yn y canllawiau hyn:

David Stewart a David Antram, *Avoid Sailing on the Titanic!*, (The Salariya Book Company, 2002) ISBN: 1 904194 17 6

Letters of Thomas E. Lloyd; Fort Laramie, National Historic Site, Fort Laramie, Wyoming, U.D.A.

Philip Hind Ed; www.encyclopedia-britannica.com